# Cyngor Rhondda Cynon Taf

# Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

# 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022

Mae'r adroddiad yma ar gael mewn iaith a diwyg gwahanol.

I wneud cais, ffoniwch 01443 444529 neu e-bostio cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk

# Cynnwys

**Tudalen**


1. Cyflwyniad ........ 3

2. Pwy ydyn ni ........ 4

3. Adrodd ar Gydraddoldeb ........ 4

4. Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ........ 5

5. Cyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ........ 6

6. Amcanion Cydraddoldeb ........ 25

7. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ........ 67

8. Data Monitro Cyflogaeth ........ 69

9. Caffael ........ 70

10. Gwybodaeth Hygyrch ........ 70

11. Gwaith Pellach ........ 71

12. Manylion Cyswllt ........ 71

ATODIAD 1 ........ 72

Data Monitro Cyflogaeth ........ 72

## 1. Cyflwyniad

Mae'n bleser i mi gyflwyno Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor. Mae'r adroddiad yn nodi dulliau gweithredu'r Cyngor o ran darparu gwybodaeth am ei waith ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Yn unol â'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru, mae'n ofynnol i'r Cyngor adrodd bob blwyddyn ar sut mae wedi cyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol sydd wedi'i nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ddogfen yma'n cynnwys yr wybodaeth ofynnol er mwyn i'r Cyngor fodloni'r dyletswyddau yma.

Drwy gyhoeddi'r wybodaeth am yr holl ofynion mewn un adroddiad, mae'n haws i'r rheiny sydd â diddordeb weld sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiad i gydraddoldeb, ei oblygiadau cyfreithiol, a'r camau gweithredu sydd ynghlwm wrth y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae pob rhan o’r adroddiad yn cynnwys crynodeb o gynnydd y Cyngor. Mae’r adran olaf yn cynnwys manylion y gwaith y mae angen i’r Cyngor ei wneud yn y dyfodol.

Unwaith eto, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi parhau i wneud ein Bwrdeistref Sirol yn lle mwy cyfartal i fyw, gweithio a defnyddio gwasanaethau ynddi. Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod bod meysydd i'w gwella, a bydd meysydd i'w gwella yn y dyfodol. Bydd cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol yma nid yn unig yn helpu'r Cyngor i fodloni ei rwymedigaethau yn unol â'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru, ond bydd hefyd yn eich helpu chi, a chithau'n drigolion y sir, i nodi'r meysydd yma ac i fonitro'u cynnydd.

**Y Cynghorydd Maureen Webber**
**Dirprwy Arweinydd / Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor**

## 2. Pwy ydyn ni

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ymestyn ar draws ardal ddaearyddol fawr, gyda phoblogaeth o dros 237,700 o bobl (Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) – Cyfrifiad 2021). Cyngor Rhondda Cynon Taf yw'r awdurdod lleol mwyaf ond dau yng Nghymru ac mae'n cyflogi'r nifer fwyaf o bobl yn yr ardal leol. Mae dros 79% o'i weithwyr hefyd yn byw o fewn ffiniau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod hyn i'w weld yn narpariaeth ein gwasanaethau a'n harferion cyflogaeth.

Adolygodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol yn 2020. Dyma flaenoriaethau'r Cyngor sydd wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Corfforaethol 2020-2024:

- Sicrhau bod **Pobl**: yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus;
- Creu **Lleoedd:** y mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw;
- Galluogi **Ffyniant:** creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.

Mae'r cynllun yn rhoi'r trigolion wrth galon yr hyn rydyn ni'n ei wneud.

Mae'r Cyngor yn cael ei lywodraethu gan 75 o aelodau etholedig ac mae'n gweithredu system Cabinet. Mae gyda'r Cyngor Garfan Uwch Rheoli sy'n cael ei harwain gan y Prif Weithredwr, ac mae Uwch Gyfarwyddwyr yn mynychu ei chyfarfodydd. Mae dros 10,000 o weithwyr wedi'u cyflogi mewn amryw o feysydd gwasanaeth a swyddi yn rhan o'r cyfadrannau canlynol:

- Prif Weithredwr
- Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
- Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
- Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen

## 3. Adrodd ar Gydraddoldeb

Prif ddiben yr Adroddiad Blynyddol yma yw cyflawni gwahanol ddyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor er mwyn cofnodi ei gynnydd o ran cyflawni Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod pob un o'r awdurdodau cyhoeddus sy'n gorfod bodloni dyletswyddau penodol Cymru yn cyhoeddi adroddiad cydraddoldeb blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y cyfnod 1 Ebrill 2021 hyd at 31 Mawrth 2022.

**Mae'r rheoliadau yn mynnu'r canlynol:**

Rhaid bod adroddiad 2021-2022 yn nodi:

- Camau y mae'r awdurdod wedi'u cymryd er mwyn nodi a chasglu'r wybodaeth berthnasol;
- Sut mae'r awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth yma wrth fodloni 3 nod y ddyletswydd gyffredinol;
- Unrhyw resymau dros beidio â chasglu'r wybodaeth berthnasol;
- Datganiad ar ba mor effeithiol yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer nodi a chasglu'r wybodaeth berthnasol;
- Gwybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a chyflog;
- Cynnydd o ran cyflawni pob un o'i hamcanion cydraddoldeb yr awdurdod;
- Datganiad o ba mor effeithiol yw camau gweithredu'r awdurdod tuag at gyflawni pob un o'u hamcanion cydraddoldeb.

## 4. Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd gyffredinol newydd ar y Cyngor (a sefydliadau eraill y sector cyhoeddus) wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau fel eu bod nhw'n rhoi sylw dyledus i'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sy’n cael ei wahardd o dan y Ddeddf;
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl sydd ddim yn eu rhannu (disgrifiad o’r nodweddion gwarchodedig i'w gweld isod);
- Hybu perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a phobl sydd ddim yn eu rhannu

**Nodweddion Gwarchodedig**

Dyma’r term sy’n cael ei ddefnyddio yn y Ddeddf Cydraddoldeb i nodi’r mathau o bobl sydd mwyaf tebygol o brofi niwed sylweddol/camwahaniaethu oherwydd pwy ydyn nhw. Diben y gyfraith yw diogelu’r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran;
- Anabledd;
- Ailbennu rhywedd;
- Priodas a phartneriaeth sifil;
- Beichiogrwydd a mamolaeth;
- Hil;
- Crefydd neu gred;
- Rhyw;
- Cyfeiriadedd Rhywiol.

Wrth feddwl am sut i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu'r nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheiny sydd ddim yn eu rhannu, rhaid i’r Cyngor hefyd feddwl am yr angen i:

- Cael gwared ar anfanteision sy’n wynebu pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac sy’n gysylltiedig â’r nodwedd honno, neu'u lleihau;
- Diwallu anghenion pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy’n wahanol i anghenion y bobl hynny sydd ddim yn eu rhannu;
- Annog pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i fod yn rhan o fywyd cyhoeddus neu unrhyw weithgaredd arall lle mae niferoedd y bobl hynny sy’n cymryd rhan yn anghymesur o isel.

Rhaid i’r Cyngor hefyd feddwl yn arbennig am sut y bydd yn mynd i’r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth. Mae'r adroddiad yma'n cynnwys gwybodaeth am yr hyn mae'r Cyngor wedi'i wneud i fodloni gofynion y Ddyletswydd Gyffredinol.

## 5. Cyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

Caiff gwybodaeth berthnasol ei hystyried i ddangos sut mae'r Cyngor wedi cyflawni'r Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. Gall gwybodaeth gynnwys data o ffynonellau

lleol ac/neu fewnol megis arolygon i gwsmeriaid, fforymau cymunedol neu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn ogystal â data o ffynonellau cenedlaethol ac/neu allanol megis gwybodaeth cyfrifiad, adroddiadau ymchwil ac ystadegau ynghylch troseddau casineb.

**NODI A CHASGLU GWYBODAETH BERTHNASOL**

Wrth ystyried sut i nodi pa wybodaeth y dylid ei chynnwys yn yr adroddiad yma, edrychodd y Cyngor yn gyntaf ar yr wybodaeth a ystyriwyd ganddo wrth adolygu ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd hyn yn caniatáu i'r Cyngor fyfyrio a monitro a yw'r wybodaeth yn dal yn briodol i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni'r Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol.

Wrth adolygu'r amcanion cydraddoldeb, edrychwyd ar adroddiadau monitro a materion a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau cydraddoldeb blynyddol blaenorol i nodi a oedd yr amcanion yn dal yn berthnasol.

Am fanylion llawn, ewch i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar wefan y Cyngor: Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i nodi yn dal i fod yn berthnasol i ddarpariaeth y Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. Mae dogfennau mewnol yn nodi'r wybodaeth ystadegol y mae modd ei defnyddio er mwyn penderfynu ar gamau gweithredu neu at ddibenion cymharu er mwyn nodi gwelliannau neu feysydd ar gyfer gwella. Mae strategaethau mewnol a'u cynlluniau gweithredu yn rhoi gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn darparu ei flaenoriaethau. Mae gwybodaeth allanol, gan gynnwys gwybodaeth sydd â chyd-destun cenedlaethol, yn darparu data i'r Cyngor sy'n gallu cynorthwyo wrth ddatblygu polisïau a dulliau gweithredu priodol a pherthnasol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad dim ond y Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n gallu dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol. Er ei fod yn ddefnyddiol iawn, bydd gan feysydd gwasanaeth y wybodaeth briodol hefyd a allai cynorthwyo'r Cyngor i nodi sut maen nhw'n cyflawni'r Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. I gasglu'r wybodaeth yma, cafodd arolwg ei gynnal i gael gwybodaeth berthnasol o feysydd gwasanaeth.

Mae gyda'r Cyngor broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar waith ac mae ei ganlyniadau yn cyfrannu at yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad yma.

Yn ogystal â hyn, mae data monitro cyflogaeth o system Adnoddau Dynol y Cyngor (sef Vision ac e-recriwtio) wedi cael ei gynnwys yn rhan o'r wybodaeth berthnasol. Dylid nodi bod gwybodaeth monitro cyflogaeth yn cynnwys athrawon a phawb sy'n gweithio mewn ysgol.

## CYFLAWNIAD Y CYNGOR

Prif gynllun strategol y Cyngor yw ei Gynllun Corfforaethol. Cafodd y cynllun yma ei weithredu ym mis Mawrth 2020 ac mae'n amlinellu blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y pedair blynedd rhwng 2020 a 2024. Caiff y camau gweithredu manwl eu hamlinellu mewn cynlluniau sy'n destun monitro a chraffu gan y Cynghorwyr bob chwarter. Mae hyn yn rhan o Adroddiadau Cyflawniad y Cyngor i'r Cabinet. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r cynlluniau'n cael eu herio, eu hadolygu a'u gwerthuso yn fwy manwl. Wedyn, mae'r canlyniadau'n cael eu cynnwys yn Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol blynyddol y Cyngor.

## DIFFYG GWYBODAETH AC EFFEITHIOLRWYDD

Er y cafodd llawer o wybodaeth ei chasglu ar gyfer yr adroddiad yma, rydyn ni’n cydnabod ei bod hi’n anodd casglu a monitro pob darn o wybodaeth o fewn Cyngor maint Rhondda Cynon Taf.  Mae nifer o rwydweithiau traws-Gyngor, e.e. y Grŵp Swyddogion Anabledd, eisoes yn gweithredu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ac arferion da yn cael eu monitro a’u rhannu. Ond, rydyn ni’n cydnabod bod modd gwneud rhagor o welliannau i sicrhau dull cyson tuag at rannu gwybodaeth.

### Defnyddio Gwybodaeth

Wrth ystyried pa wybodaeth y dylid ei defnyddio, roedd yn bwysig nodi arferion da ar draws y meysydd gwasanaeth er mwyn dangos bod ymrwymiad i gydraddoldeb yn y Cyngor. Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad yma'n cynnwys:

- Cynllun Corfforaethol y Cyngor (2020-2024)
- Darpariaeth gwasanaethau/prosiectau (2021-2022)
- Arferion cyflogi
- Rhaglen Ymgynghori ac Ymgysylltu
- Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) (2021-2022)
- Gwybodaeth monitro cyflogaeth (2021-2022)
- Monitro a Darparu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2021-2022).

### Gwybodaeth ar Gydraddoldeb gan Feysydd Gwasanaeth

Mae enghreifftiau o arfer da mewn nifer o feysydd gwasanaeth, sy'n helpu'r Cyngor i fodloni dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Fel arfer ceir yr wybodaeth trwy ein systemau rheoli cyflawniad mewnol. Mae'r adran yma'n rhoi ciplun ar rai o'r enghreifftiau o arfer da sydd gan y Cyngor ar waith i ddangos ein cydymffurfiad a'n hymrwymiad i Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

**GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION**

Rydyn ni'n parhau i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bobl leol drwy ddarparu gwybodaeth hygyrch am y gwasanaethau sydd ar gael iddyn nhw. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy:

- sicrhau un pwynt mynediad i'n gwasanaethau sy'n caniatáu cysondeb o ran ymagwedd;
- ymgysylltu, ymgynghori ac, yn fwy diweddar, cydgynhyrchu cynigion gwasanaeth gyda phobl leol er mwyn llywio darpariaeth gwasanaethau presennol a chynlluniau ar gyfer y dyfodol;
- cynnal asesiadau i benderfynu a oes unrhyw effaith o ran cydraddoldeb ar ein polisïau a'n gweithgareddau;
- darparu gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n briodol i anghenion defnyddwyr gwasanaethau a, lle bynnag y bo modd, dileu rhwystrau a allai atal mynediad;
- cynyddu argaeledd cymorth eiriolaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau;
- hyrwyddo argaeledd Proses Gwyno'r Cyngor yn eang.

Rydyn ni wedi parhau i ymgorffori dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau yn seiliedig ar ymarfer ac, wrth wneud hyn, rydyn ni'n cefnogi pobl i gyflawni eu deilliannau llesiant eu hunain. Roedd materion yn ymwneud â chaniatâd, eiriolaeth, galluedd meddyliol, a'r budd pennaf yn cael eu hystyried fel mater o drefn yn gynnar yn y broses ymgysylltu. Defnyddir yr wybodaeth a gesglir yn briodol i lywio asesiadau a chynllunio gofal a chymorth.

Serch hynny, rydyn ni'n adolygu ein hymagwedd at arfer sy'n seiliedig ar gryfderau. Rydyn ni'n ystyried ffyrdd amgen ac arloesol o weithio i sicrhau deilliannau gwell i'r bobl leol sy'n dibynnu ar ein cymorth gofal cymdeithasol drwy fabwysiadu'r dull 3 sgwrs. Mae'r dull yma wedi'i roi ar waith yn llwyddiannus mewn cynghorau eraill, sydd wedi gweld ystod eang o fanteision gan gynnwys:

- Trigolion hapusach: cael cymorth sy'n canolbwyntio ar bobl, yn canolbwyntio ar yr hyn y maen nhw'n ei ddweud wrthyn ni a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf iddyn nhw;
- Llai o restrau aros: gydag amseroedd ymateb cyflymach a llai o amser yn cael ei dreulio yn sgrinio;
- Gwell comisiynu: yn seiliedig ar ddealltwriaeth well o'r hyn sydd ei angen ar bobl leol;
- Perthnasoedd cryfach: gyda chydweithwyr Iechyd a phartneriaid eraill.

Mae hyn yn newid mawr o sut rydyn ni'n gweithio ar hyn o bryd. Felly, os byddwn ni'n penderfynu bwrw ymlaen â'r gwaith newydd yma, byddwn ni'n treialu'r dull gweithredu yn gyntaf ac yna'n gwerthuso'r hyn sydd wedi gweithio'n dda a beth sydd

angen ei wella cyn cyflwyno’r ffordd newydd yma o weithio ar draws y gwasanaeth cyfan. Bydd y gwerthusiad yn cynnwys adborth gan y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ein partneriaid, darparwyr a charfanau'r Cyngor sy'n cefnogi gofal cymdeithasol i oedolion.

**GWASANAETH Y CELFYDDYDAU, DIWYLLIANT A LLYFRGELLOEDD**

Mae'r adran yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar bobl ag anableddau, pobl sy'n agored i niwed oherwydd amrywiaeth o faterion a phobl sy'n cael eu heffeithio gan dlodi.

Mae gwasanaethau wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid ac yn parhau i wneud hynny i nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder cyn gynted â phosibl fel bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu gan y partner mwyaf addas i ddiwallu anghenion trigolion. Mae'r Grŵp Llywio Cymorth Cymunedol yn allweddol yn hyn o beth. Mae'r rhwydwaith yma wedi bod yn llwyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth ac annog cydweithio.

Rydyn ni'n cynnig ystod o gymorth sy’n canolbwyntio ar wella bywydau’r rhai sydd dan anfantais oherwydd afiechyd, anabledd ac amgylchiadau economaidd fel a ganlyn:

- Rydyn ni'n cyflwyno e-ddysgu Cyfeillion Dementia ar draws y gweithlu.

- Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cefnogi mentrau lleol a chenedlaethol sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth, megis hyrwyddo llyfrau gan awduron Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; cyrchu cyllid i ddarparu gweithgareddau sy'n annog cymdeithasu; mae cynllun peilot Llyfrgell y Bobl Cymru yn annog ‘llyfrau’ i rannu eu straeon bywyd go iawn ar bynciau fel dysmorphia’r corff, hiliaeth, a cham-drin domestig.

- Darparu ystod o Wasanaethau Llyfrgell o Bell, gan gynnwys e-lyfrau ac e-lyfrau sain a'r Gwasanaeth Llyfrgell Cartref.

- Hwyluso rhagor o leoedd newid i oedolion mewn cymunedau, gyda datblygiad posibl yn y dyfodol drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

- Cynnal asesiadau llesiant gydag unigolion, megis ffoaduriaid o Wcrain, i nodi eu hanghenion a'u cysylltu â gwasanaethau perthnasol a sefydliadau cymunedol.

Mewn perthynas ag ymateb i'r rhyfel yn Wcráin, mae sesiynau cyfeiriadedd diwylliannol wedi'u cynnal gyda staff a gwesteion mewn canolfannau croeso yn RhCT. Mae sesiynau briffio wythnosol ychwanegol yn cael eu cefnogi gan

gyfieithwyr. Darperir yr holl wybodaeth mewn Wcreineg, gyda staff a gwesteion yn cyfathrebu ar faterion dyddiol gan ddefnyddio systemau cyfieithu Google a chyfryngau cymdeithasol sydd â'r cyfleuster yma hefyd.

Mae llawer o'n cyhoeddiadau ar gael mewn fformat Hawdd ei Ddarllen i annog cyfranogiad gan bobl ag Anableddau Corfforol ac Anawsterau Dysgu. Rydyn ni wedi gweithio ochr yn ochr â Phobl yn Gyntaf RhCT i baratoi dogfennau Hawdd eu Darllen ar y cyd gyda defnyddwyr gwasanaethau. Er enghraifft:

1. <u>Arolwg Trigolion Hawdd ei Ddarllen</u>

   Gofynnir yr un cwestiynau arolwg ond mewn iaith blaen a syml gyda lluniau. Targedodd un o’n Cydlynwyr Cymunedol sesiwn awtistiaeth ym mhwll Abercynon i geisio barn gan y sawl oedd yn mynychu a’u rhieni/gofalwyr. Roedd hyn yn sicrhau fod eu lleisiau, eu gwerthoedd a'u barn yn cael eu cynnwys yn y canlyniadau cyffredinol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu, a'r cyllid sydd ar gael i grwpiau cymunedol.

2. <u>Prosiect Wales & West Utilities</u>

   Cynhyrchodd Pobl yn Gyntaf RhCT wybodaeth Hawdd ei Darllen i gyd-fynd â dosbarthiad dyfeisiau monitro Carbon Monocsid. Paratowyd llyfryn ar y cyd â defnyddwyr gwasanaethau ag anableddau dysgu a darlunydd.

   Mae Pobl yn Gyntaf RhCT wedi bod yn dweud wrth ein haelodau mewn cyfarfodydd am bwysigrwydd dyfeisiau monitro Carbon Monocsid a manteision y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth.

Defnyddiwyd y dogfennau Hawdd eu Darllen yma gan bartneriaid eraill gan gynnwys Gwasanaethau i Oedolion RhCT. Darparodd Gwasanaethau i Oedolion 3 sesiwn gerddoriaeth gyda Forget Me Not Productions ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu a staff cymorth. Edrychodd y grwpiau ar negeseuon diogelwch trwy brosiect creadigol a chreu slogan diogelwch. Gwnaethpwyd y slogan yn jingl neu gân fer. Rhannwyd y jingle gyda Wales & West Utilities a Gwefan Cyngor RhCT fel datganiad i'r wasg.

## <u>GWASANAETHAU CYMUNED A'R GYMRAEG</u>

Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid e.e. yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyngor ar Bopeth RhCT i hyrwyddo’r cymorth sydd ar gael i hawlwyr Credyd Cynhwysol. Mae hyn wedi cynnwys cyhoeddi gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol a gwefan y Cyngor, lledaenu gwybodaeth i holl staff y Cyngor ac ar draws ystod eang o rwydweithiau partner. Yn ogystal â’r cynnig o

wiriadau lles a chyngor ar ddyledion gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth, mae'r Gwasanaeth Addysg i Oedolion wedi datblygu cyrsiau cyllidebu am ddim i'r rhai sydd angen y cymorth yma.

Yn fwy cyffredinol, mae Gwasanaethau Cymunedol yn cynnig ystod o gymorth yn rhan o'u darpariaeth sy'n canolbwyntio ar wella bywydau'r rhai sydd dan anfantais oherwydd afiechyd, anabledd ac amgylchiadau economaidd fel a ganlyn:

- Darperir darpariaeth benodol gan y garfan Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.
- Mae'r garfan Cymorth Cyflogaeth yn parhau i chwarae rhan weithredol yn y rhaglen Drawsnewid ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.
- Mae gan reolwyr Cymunedau am Waith a Mwy arweinwyr anabledd dynodedig ac yn mynychu cyfarfodydd Rhwydwaith Anabledd Llywodraeth Cymru ac mae carfanau staff Cymorth Cyflogaeth wedi mynychu sawl sesiwn hyfforddi.
- Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn RhCT yn parhau i ymgysylltu â chanran uwch o bobl o'r wardiau mwyaf difreintiedig na'r rhan fwyaf o ardaloedd eraill yng Nghymru.
- Mae staff cymorth cyflogaeth yn dal i gefnogi ffoaduriaid o Wcrain i ddod o hyd i waith yn lleol.
- Rydyn ni wedi cefnogi prosiect rhanbarthol CELT sy'n cefnogi trigolion agored i niwed i gael mynediad i weithgareddau cyn cyflogaeth e.e. gweithgareddau dargyfeiriol i gyn-droseddwyr a chymorth llesiant i bobl sy'n economaidd anweithgar ac sydd angen ymyriadau lles meddyliol a chorfforol.

## CYMUNEDAU DIOGEL A THAI CYMUNEDOL

Mae'r maes gwasanaeth yn gweithio gydag ystod eang o bobl o lawer o gefndiroedd a diwylliannau amrywiol fel y nodir isod.

### Y Gwasanaeth Materion Tai

Mae dychwelyd i weithio wyneb yn wyneb wedi golygu gwasanaeth rhyngbersonol mwy effeithiol unwaith eto ar gyfer y sawl sydd â'r angen mwyaf ac sy'n agored i niwed. Mae darparu'r gwasanaeth allgymorth i'r sawl sy'n cysgu ar y stryd sy'n gysylltiedig â Hostel Stryd y Felin wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i ymgysylltu â'r rhai sy'n cysgu ar y stryd sydd mewn angen critigol sydd, o bosibl, o ystod eang o gefndiroedd ac sydd wedi'u hallgau'n ddigidol.

**Ceisio Cartref**

Mae Cynllun Dyrannu Tai RhCT wedi nodi meysydd allweddol sydd angen eu hadolygu gan gynnwys tai wedi'u haddasu. Bydd yr adolygiad yn cynnwys cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth trwy banel cwsmeriaid, yn ogystal â chymorth gan randdeiliaid mewnol.

Mae modd i ymgeiswyr sydd wedi'u hallgau'n ddigidol wneud cais i Ceisio Cartref dros y ffôn. Bydd modd i ymgeiswyr sydd angen rhagor o gymorth i wneud cais gael apwyntiad wyneb yn wyneb yn Nhŷ Sardis, Pontypridd. Mae cyfleusterau ar gyfer gwasanaethau cyfieithu ar gael ac yn cael eu trefnu ymlaen llaw er mwyn galluogi'r ymgeisydd i dderbyn gwasanaeth wedi'i deilwra i'w anghenion penodol.

Mae'r defnydd o Linell Iaith ar gyfer ymgeiswyr sydd angen gwasanaethau cyfieithu ar gael i bob maes gwasanaeth a lle bo angen, mae modd defnyddio cyfieithwyr BSL ar gyfer ymgeiswyr Ceisio Cartref.

**Carfan Gomisiynu Camddefnyddio Sylweddau Rhanbarthol**

Mae Barod a Bwrdd Iechyd Cymunedol Cwm Taf Morgannwg wedi cael eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar draws y rhanbarth. Mae unigolion sydd â phroblemau gyda chamddefnyddio sylweddau yn cael eu categoreiddio fel rhai agored i niwed oherwydd natur eu problemau. Yn ogystal, mae gan lawer ohonyn nhw broblemau ychwanegol fel trawma plentyndod, cam-drin domestig, ac/neu iechyd corfforol gwael.

Mae'n ofynnol i bob gwasanaeth fod â pholisi cyfle cyfartal ar waith a bodloni amcanion cydraddoldeb mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn cael ei fonitro yn rhan o Fframwaith Monitro Cynllunio Ardal Cwm Taf Morgannwg.

Mae grwpiau agored i niwed ac ymylol yn cynnwys pobl ddigartref, plant sy'n derbyn gofal, y rhai yn y system cyfiawnder troseddol, gweithwyr rhyw, dioddefwyr a chyflawnwyr cam-drin domestig, sipsiwn a theithwyr, ffoaduriaid a chyn-filwyr. Yn unol â chanllawiau clinigol, mae gan bob cyn-filwr hawl i gael blaenoriaeth os yw angen mynediad at wasanaethau.

Mae mynediad at wasanaethau yn sbardun allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau ledled y rhanbarth. Datblygwyd y Gwasanaeth Allgymorth Tai Arbenigol - Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau Arbenigol yn benodol ar gyfer yr unigolion mwyaf agored i niwed a'r sawl sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth sy'n ei chael hi'n heriol ymgysylltu â gwasanaethau cymunedol a chlinig traddodiadol. Mae'r garfan yn parhau i fonitro cydraddoldeb a chynhwysiant trwy gydymffurfiad blynyddol a monitro gwasanaethau a chyfarfodydd adolygu contractau chwarterol.

**Panel Anghenion Cymhleth**

Mae'r maes gwasanaeth hefyd yn ymwneud llawer â'r Panel Esgeulustod Difrifol a'r trefniadau gwaith aml-asiantaeth lleol y cytunwyd arnyn nhw gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf i ddarparu proses uwchgyfeirio ar gyfer rheoli achosion o hunan-esgeulustod difrifol sy'n gysylltiedig ag unigolion agored i niwed.

## LLESIANT A CHYDNERTHEDD Y GYMUNED

Mae’r Gwasanaeth Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned wedi comisiynu sefydliad hyfforddi ac ymgynghori sy'n arbenigo mewn awtistiaeth, ‘Autside Education’, i adolygu’r gweithgareddau presennol a gynigir a'u hystyried yng nghyd-destun defnyddwyr niwrowahanol y gwasanaeth. Yn rhan o'r adolygiad, bydd Autside yn cynnal sesiynau ymgynghori gyda phlant, pobl ifainc, rhieni a staff. Nod y rhain yw deall beth yw'r rhwystrau i gyfranogiad, ac anghenion datblygu'r staff i wella arfer proffesiynol. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn llywio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â rhwystrau, gwneud gwelliannau i wasanaethau, nodi meysydd hyfforddi staff, wrth gadw arfer da presennol ac adeiladu arni. Y nod yw gwella’r gwasanaeth sydd ar gael i sicrhau bod plant, pobl ifainc a theuluoedd niwro-ddargyfeiriol ddim o dan anfantais a’u bod yn cael tegwch wrth gael mynediad at weithgareddau a gwasanaethau. O safbwynt strategol, bydd yr adolygiad yn llywio'r gweithgareddau cynllunio, contractio a chomisiynu i sicrhau bod y gwasanaeth a'r sefydliadau partner yn darparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol cwbl gynhwysol i ddefnyddwyr gwasanaethau niwro-ddargyfeiriol.

**Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (YEPS)**

Mae gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid. Mae modd i'r Swyddog gynnig cymorth a chyngor arbenigol i bobl ifainc sy'n LHDT+. Mae'r cymorth arbenigol yma'n cynnwys gweithio gyda phobl ifainc sy'n mynd drwy'r broses o drawsnewid, a'u teuluoedd a'r ysgolion er mwyn sicrhau bod cynlluniau unigryw a chadarn ar waith er mwyn cynnig cymorth ymarferol ac emosiynol drwy gydol y broses. Lansiwyd grŵp cymorth LHDT+ ‘Enfys’ hefyd ac mae’n cael ei gynnal yn wythnosol.

Yn deillio o Fforwm Ieuenctid Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, sefydlwyd achlysur Pride, a oedd yn llwyddiant mawr, gan ddathlu'r gymuned LHDT+ ac amrywiaeth yn gyffredinol. Roedd yr achlysur yma'n arddangos gwaith partneriaethau allanol a mewnol rhagorol rhwng y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, Chwarae, Heddlu De Cymru a sawl gwasanaeth arall. Aeth dros 1800 o bobl i'r achlysur ym Mharc Aberdâr, a ddarlledwyd gan S4C Cymru yn ystod oriau brig ar y teledu.

Bu'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Tŷ Coch i gynnig cyfle i bobl ifainc gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi. Roedd rhai o'r gweithgareddau'n cynnwys sesiynau celf a chrefft a gwibdeithiau. Cynigiwyd y sesiynau ar ôl yr ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol er mwyn sicrhau eu bod nhw mor hygyrch â phosibl. Daeth nifer dda i bob sesiwn, a chafwyd adborth cadarnhaol gan y bobl ifainc.

Darperir hyfforddiant teithio gan Garfan Ôl-16 y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid ar gyfer pobl ifainc sydd angen cymorth gydag ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd a gwybodaeth am sut i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyfforddiant teithio yn arbennig o fuddiol i unigolion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sydd wedi cael cludiant tacsi i'r ysgol ac sy'n ofni dechrau mewn addysg bellach, lleoliadau gwaith, hyfforddiant a chyfleoedd bywyd eraill ar ôl yr ysgol o ganlyniad i beidio â chael unrhyw brofiad blaenorol o baratoi a chynllunio teithiau yn annibynnol. Mae llawer o bobl ifainc yn anghyfarwydd â ble i ddod o hyd i wybodaeth a chyngor ac nid oes ganddyn nhw'r sgiliau i wneud teithiau ar eu pennau eu hunain. Er bod y gwaith yma wedi'i ohirio yn ystod y pandemig, mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn y broses o ailgychwyn y rhaglen hyfforddiant y mae'n ei darparu mewn partneriaeth ag Uned Trafnidiaeth Integredig y Cyngor.

Mae gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid 5 Gweithiwr Ieuenctid arbenigol i ddarparu ymyriadau mynediad agored wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl/emosiynol a lles. Bydd y Swyddogion Iechyd Meddwl a Lles yma'n mentora ac yn rhoi cymorth, gwybodaeth a chyngor uniongyrchol mewn perthynas ag iechyd a lles i bobl ifainc, yn ogystal â:

- Creu cyfleoedd a gwasanaethau sy'n seiliedig ar egwyddorion iechyd meddwl a lles;
- Cynyddu cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth a dilyniant i bobl ifainc yn eu hardaloedd;
- Gwella ymwybyddiaeth o anghenion iechyd a lles ymysg pobl ifainc a gweithwyr proffesiynol ledled RhCT;
- Darparu cyngor ac arweiniad i weithwyr proffesiynol eraill, a fydd yn eu galluogi i ddiwallu anghenion y bobl ifainc y maen nhw'n rhoi cymorth iddyn nhw'n well.

Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn cysylltu â phrosiect 'Fortitude through Music' Carfan Datblygu'r Celfyddydau. Mae'r prosiect yn cefnogi pobl ifainc agored i niwed i gael mynediad i'r prosiect sy'n defnyddio cerddoriaeth fel

offeryn i feithrin a datblygu sgiliau trosglwyddadwy, hyder a gwydnwch mewn pobl ifainc sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.

**Gwasanaethau Chwarae a Meithrinfeydd Oriau Dydd**

Mae Swyddog GofaliChwarae yn gweithio gyda chyswllt allweddol o bob un o'r ysgolion arbennig yn y fwrdeistref i nodi plant a fyddai'n elwa o'r gwasanaeth bob tymor. Rhennir proffiliau un dudalen gyda'r garfan chwarae dynodedig a fydd wedyn yn cynllunio'r gweithgareddau chwarae i ddiwallu anghenion unigol y plentyn sy'n mynychu. Bydd hyn yn eu galluogi i gael mynediad i'w harlwy chwarae mewn darpariaethau chwarae yn y gymuned.

Cyflwynwyd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (PSA) eleni. Un o'i nodau yw sicrhau bod parciau, meysydd chwarae a lleoliadau chwarae awyr agored eraill yn hygyrch i gynifer o drigolion â phosibl. Mae hyn yn cynnwys mynediad i'r rheiny mewn cadair olwyn at y parciau a mynediad at yr offer chwarae. Cynhelir archwiliadau mynediad ar holl adeiladau'r cynllun chwarae a nod yr wybodaeth a gesglir yn yr archwiliad yw hysbysu defnyddwyr y gwasanaeth o hygyrchedd yr adeiladau y mae sesiynau'r cynllun chwarae'n cael eu darparu ynddyn nhw.

Mae Meithrinfa Oriau Dydd Pontypridd wedi ennill cydnabyddiaeth fel 'Gweithle sy'n Gyfeillgar i Awtistiaeth', gan roi strategaethau ar waith sy'n cydnabod ac yn cefnogi niwroamrywiaeth.

Yn rhan o Raglen Trawsnewid ADY drosfwaol Llywodraeth Cymru, mae fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi plant a phobl ifainc 0-25 oed ag ADY wedi arwain at newidiadau allweddol ar draws lleoliadau gofal plant. Mae staff gofal plant wedi derbyn hyfforddiant ar hyn ac maen nhw bellach yn gyfarwydd â'r newidiadau i'r ymateb graddedig, gan sicrhau eu bod nhw'n cefnogi'r rhai ag anghenion sy'n dod i'r amlwg yn effeithiol.

Mae creu un pwynt mynediad drwy'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth wedi hwyluso mynediad cyfartal i ddarpariaeth gwasanaeth, gan alluogi gwasanaethau i fod yn ymatebol i unrhyw anghenion a nodwyd. Mae ein gweledigaeth o ddarparu'r gwasanaethau cywir i'r bobl gywir ar yr adeg gywir yn y lle cywir yn cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion yn deg. Mae mynd i'r afael â rhwystrau (a lle bo modd, eu dileu) i fynediad ac ymgysylltu ar gyfer grwpiau penodol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y rhai â nodweddion gwarchodedig, yn flaenoriaeth barhaus.

Mae'r Garfan Ariannu Hyblyg wedi gweithio'n agos gyda'r Garfan Plant Anabl i adolygu a diweddaru'r fanyleb ar gyfer Rhondda Short Breaks yn dilyn rhai pryderon a godwyd gan y Rheolwr Gwasanaeth yn ymwneud â darpariaeth gwasanaeth sydd ddim yn cyd-fynd ag ethos galluogi'r Garfan Plant Anabl. Diweddarwyd y fanyleb

gwasanaeth i adlewyrchu'n llawn y newidiadau sy'n ofynnol a chytunwyd ar ddangosyddion cyflawniad newydd a oedd yn darparu data monitro ystyrlon. Datblygwyd dogfennau eraill drwy'r gwaith yma gan gynnwys map prosesau. Mae'r berthynas waith rhwng y Garfan Plant Anabl a'r darparwr wedi gwella, ac felly hefyd y ddarpariaeth gyffredinol o wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifainc sy'n agored i niwed. Arweiniodd y Garfan Ariannu Hyblyg y gwaith o fonitro'r contract a hwyluso'r cyfarfodydd chwarterol.

Mewn ymateb i anghenion lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg mae cymorth ychwanegol ar gael i ddarparwyr ddatblygu'r cynlluniau chwarae sydd eu hangen ar gyfer plant i'w trafod ym Mhanel ADY y Blynyddoedd Cynnar. Roedd adborth gan y Fforwm ADY yn dangos bod angen hyfforddiant clir o ran cynlluniau chwarae. Roedd hyn oherwydd bod ansawdd y rhai sy’n cael eu paratoi gan leoliadau gofal plant yn dangos eu bod yn cael anawsterau wrth lunio targedau 'SMART' priodol, dehongli cyngor a chymorth gan wasanaethau proffesiynol a chyfuno dogfennau a thystiolaeth i gofnodi a monitro anghenion plant fel maen nhw'n ymddangos. Mae Seicolegydd Addysg Cynorthwyol y garfan wedi dylunio a gweithredu clinigau cynllun chwarae rhithwir mewn fforwm galw heibio hygyrch i leoliadau gael mynediad at gyngor a chymorth penodol ynghylch targedau cynlluniau chwarae. Mae’r clinigau yma wedi cael derbyniad da ac wedi bod yn boblogaidd. Maen nhw'n cael cymorth gan Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar mewn Addysg ac maen nhw bellach ar gael i leoliadau sydd ddim yn rhan o Dechrau’n Deg er mwyn sicrhau dull unedig, cynhwysol ar draws y Blynyddoedd Cynnar i gyd.

## GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AC AELODAU ETHOLEDIG

### Amrywiaeth mewn Democratiaeth

Sefydlwyd Gweithgor Amrywiaeth a Democratiaeth Trawsbleidiol yn 2021, gan gydnabod pwysigrwydd sefydliadau democrataidd a gwasanaethau cyhoeddus i adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth y maen nhw'n ei chynrychioli ac yn ei gwasanaethu. Nodau'r Gweithgor yw:

- cynyddu amrywiaeth o fewn democratiaeth yn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022 ac unrhyw etholiad yn y dyfodol;
- lleihau'r rhwystrau i ddenu cronfa fwy amrywiol o ymgeiswyr;
- hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o rôl Cynghorydd a'r gwaith mae'n ei wneud;
- ystyried cynigion swyddogion i ymgysylltu â darpar ymgeiswyr a'u cefnogi;
- ystyried a rhoi sylwadau ar ymgysylltu â phobl ifainc 16-17 oed mewn democratiaeth llywodraeth leol;
- ystyried cynigion ar gyfer yr hyfforddiant/gwybodaeth a ddarperir i Gynghorwyr yn y dyfodol mewn perthynas ag amrywiaeth;
- llywio trafodaethau ag Arweinwyr Grwpiau cyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022.

Roedd y Gweithgor yn cydnabod y bydd eu gwaith yn broses barhaus i sicrhau bod amgylchedd democrataidd mwy amrywiol yn cael ei greu yn Rhondda Cynon Taf.

Cynhaliwyd nifer o fentrau yn ystod y flwyddyn i gefnogi'r agenda yma gan gynnwys:

- Gweithio ar y cyd â'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, Ysgolion a Cholegau yn y cyfnod cyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022 i hyrwyddo ac addysgu ymhellach bwysigrwydd y bleidlais ieuenctid a'r broses ddemocrataidd. Cafodd ymgyrch 'isityourfirsttime' y Gwasanaeth dan arweiniad pobl ifainc ei rhannu drwy nifer o lwyfannau drwy'r Gwasanaeth (Facebook, Twitter, Snapchat, Instagram, Ticktock), gan gynnwys defnyddio YEPS TV live (rhaglen ar-lein wedi'i neilltuo i'r ymgyrch bleidleisio). Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r Aelodau ifainc yn defnyddio'u llais i hyrwyddo'r ymgyrch i'w cyfoedion a chafwyd ymgysylltiad cadarnhaol. Yn ogystal, roedd gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion a cholegau hefyd yn cynorthwyo i hyrwyddo neges yr ymgyrch.

- Gwella 'Tudalennau Democratiaeth' Gwefannau'r Cyngor i hyrwyddo rôl Cynghorydd gyda manylion a fideos o Aelodau lleol, hyrwyddo sut mae gwaith Cynghorydd yn cysylltu â gwasanaethau bob dydd y mae'r Cyngor yn eu datblygu a darparu manylion a dolenni cyswllt gwahanol haenau o lywodraeth i gynorthwyo i gynyddu dealltwriaeth o ddemocratiaeth yn RhCT a Chymru. Sicrhau bod y dudalen yn dangos y cyfleusterau sydd ar gael i Aelodau – megis cyfleusterau cyfieithu, offer sain yn y Siambr, cyfleoedd cyfarfodydd hybrid a hyrwyddo addasiadau rhesymol i atal unrhyw rwystrau canfyddedig i unrhyw ymgeisydd yn y dyfodol.

- Gwneud gwelliannau ffisegol i Siambr y Cyngor i sicrhau bod y Siambr yn gwbl hygyrch.

- Gwahodd cynrychiolwyr o Gynghrair Hil Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru i drafod ymgyrchoedd i hybu amrywiaeth.

- Sicrhau bod hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn rhan o raglen gynefino Aelodau Etholedig.

**CYNNAL A CHADW A RHEOLI'R PRIFFYRDD**

Ers 11 mlynedd, rydyn ni wedi rhoi rhaglen wella ffiniau llwybrau bysiau ar waith er mwyn gwneud bysiau'n fwy hygyrch. Yn 2008-09, dim ond 3.23% o'r cyrbiau mewn safleoedd bysiau oedd yn hygyrch, ac roedden ni yn y 21ain safle o ran awdurdodau lleol yng Nghymru mewn perthynas â hynny. Mae'r ffigurau ar gyfer 2020-2021 yn nodi bod gan 63.25% o'r 1,208 o'r gorsafoedd bysiau yn RhCT bwyntiau mynediad sydd wedi'u codi er mwyn gwella hygyrchedd.  Does dim data ar gael i ddangos beth yw sefyllfa RhCT yng Nghymru oherwydd effeithiau pandemig Covid. Mae £440 mil arall yn cael ei wario ar gyrbiau safleoedd bysiau eleni.

Yn rhan o'i Raglen Buddsoddi mewn Priffyrdd, mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn darparu cyrbiau isel a mannau croesi botymog ledled y fwrdeistref, gan ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae nifer uchel o gerddwyr.

Er mwyn cadw canol ein trefi yn gyfeillgar i gerddwyr ac yn hygyrch mae'r Cynllun Trwyddedi Caffi Stryd ym Mhontypridd ac Aberdâr wedi parhau. Mae wedi'i ail-werthuso i ddarparu rhagor o ardaloedd ar gyfer bwyta yn yr awyr agored lle bo modd o ganlyniad i bandemig Covid ac i hyrwyddo diwylliant caffis. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant ac mae wedi cael derbyniad da gan grwpiau mynediad oherwydd bod y cynlluniau a'r rhwystrau yn cydymffurfio â manylebau llym.

Bydd prosiect deuoli'r A4119 hefyd yn cynnwys pont droed 3 metr o led sy'n cydymffurfio â'r cynllun Teithio Llesol gyda grisiau ac ardaloedd mynediad â ramp a fydd yn galluogi defnyddwyr ag anawsterau symudedd i allu croesi'r A4119 yng Nghoed Elái yn ddiogel.

Mae'r maes gwasanaeth wedi parhau i asesu'r prif lwybrau Teithio Llesol yn y fwrdeistref ac wedi dileu rhwystrau o Lwybr Cymunedol y Porth, Llwybr Cymunedol Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys, Taith Taf a Thaith Cynon. Bydd hyn yn sicrhau bod modd i'r cyhoedd â phroblemau symudedd gael mynediad i'r llwybrau yma.

## HAMDDEN, CHWARAEON A PHARCIAU, GWASANAETHAU PROFEDIGAETHAU A THREFTADAETH AC ATYNIADAU YMWELWYR

### Hamdden, Chwaraeon a Pharciau

Mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i fod yn gynhwysol ac yn cynnig y canlynol:

- Mae'r holl waith adnewyddu yn hygyrch a bydd yn cynnwys cyfleusterau niwtral o ran rhywedd a mannau newid i deuluoedd lle bo modd.
- Mae gweithgareddau hamdden yn cael eu cynnig yn benodol ar gyfer cyn-filwyr, teuluoedd maeth, a chynhalwyr.
- Rydym yn darparu menter nofio am ddim Llywodraeth Cymru.
- Rydyn ni'n hyrwyddo mentrau gan Stonewall ac Ymddiriedolaeth Terrence Higgins megis careiau'r enfys.
- Mae cyfleusterau'n arddangos baner LHDTC+ sy'n hyrwyddo cynwysoldeb a pheidio â gwahaniaethu.
- Mae cyfleusterau'n darparu cyfleoedd i fyfyrwyr Porth Cyflogaeth gael profiad gwaith a chyfleoedd i gael swydd.

- Mae cynllun aelodaeth Hamdden am Oes yn cynnwys prisiau is ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig penodol.

- Targedu anghydraddoldebau yw'r symbylydd mwyaf ar gyfer chwaraeon. Mae'n canolbwyntio ar ymyrraeth i fenywod a merched ac amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn ogystal â rhaglenni ymyrraeth iechyd. Datblygwyd ystod o astudiaethau achos er mwyn gwerthuso prosiectau.

- Bydd gweithio gyda thrigolion agored i niwed yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r garfan. Bydd mentrau'n canolbwyntio ar gefnogi trigolion agored i niwed i wneud ymarfer corff mewn amrywiaeth eang o leoliadau.

- Rydyn ni wedi cysylltu â Sight Life i adolygu sut mae modd i ganolfannau hamdden wneud newidiadau i gefnogi cwsmeriaid â nam ar eu golwg.

- Mae Gwasanaethau Hamdden wedi mynychu'r Fforymau Pobl Hŷn gan gynnig tocynnau diwrnod am ddim i helpu gyda hyder cwsmeriaid ac i ateb ymholiadau am amserlenni. Mae staff wedi cymryd sesiynau ffitrwydd mewn grwpiau bach ac wedi rhoi sesiynau cyngor i helpu gyda'u nodau ffitrwydd.

**Gwasanaethau Profedigaethau**

Mae'r gwasanaeth yma'n ymfalchïo mewn cael arferion i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer ystod eang o grefyddau gan gynnwys claddedigaethau ar fyr rybudd. Mae dolen glyw yn y ddau gapel. Cedwir beddau sy'n agos at y ffordd ar gyfer teuluoedd sydd angen mynediad i'r anabl.

**Treftadaeth ac Atyniadau i Ymwelwyr**

- Mae staff wedi mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth ac yn gwneud ymweliadau cyfeillgar i awtistiaeth.

- Mae staff wedi mynychu hyfforddiant ar Ddeall Dementia.

- Mae'r gwasanaeth wedi gosod cyfleusterau newid yn y 3 atyniad i ymwelwyr ac wedi cynnal archwiliad ar fynediad i bobl anabl annibynnol ac wedi llunio datganiadau mynediad ar wefannau'r tri atyniad.

- Mae Tomos Churchill, Ceidwad Parc ym Mharc Coffa Ynysangharad, wedi ennill Gwobr Cyfranogwr 'Engage to Change' gan Anabledd Dysgu Cymru.

- Mae'r garfan Meysydd Chwarae yn parhau i gynnal adolygiad hygyrchedd annibynnol o'r holl gyfleusterau chwarae.

- Mae'r garfan yn parhau i ymgynghori â grwpiau lleol sy'n darparu cyfleoedd i blant ag anableddau ddeall anghenion lleol yn well, er enghraifft sesiynau tawel

mewn mannau chwarae sy'n targedu plant ag awtistiaeth a darparu offer chwarae cynhwysol.

- Mae pob canolfan gymunedol bellach yn hygyrch.
- Mae'r canolfannau'n cynnig rhaglen amrywiol o weithgareddau i'r holl drigolion.
- Mae canolfannau wedi'u lleoli mewn cymunedau sy'n ddifreintiedig yn economaidd ac yn cynnig cyfleoedd lleol fforddiadwy i bawb.

## DIOGELU'R CYHOEDD A GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO

Mae'r Gwasanaeth Cofrestru yn cynnig gwasanaeth y tu allan i oriau'r swyddfa a gwasanaeth brys mewn perthynas â rhai seremonïau claddu crefyddol penodol a chynnal priodasau lle mae un o'r pâr sydd am briodi yn derfynol wael neu'n oedranus.

Mae’r gwasanaeth yma bellach yn gallu cynnig gwasanaethau ‘wedi’u harwyddo’, ac mae ein seremoni lofnodi gyntaf wedi’i drefnu ar gyfer 2023.

Mae'r Rheolwyr Safonau Masnach a Gwasanaethau Cofrestru yn cymryd rhan mewn prawf o brosiect mentora hil a chydraddoldeb, sy'n cynnwys 14 o bobl ledled y DU, dan arweiniad Cymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach.

Mae Adnoddau Alergenau (taflenni electronig a fideos) ar gyfer Safonau Bwyd ar gael mewn 14 o ieithoedd. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio gan swyddogion yn rhan o waith arolygu parhaus ac yn cael eu rhannu drwy gyfryngau cymdeithasol ar adegau perthnasol drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn sicrhau gwell dealltwriaeth o ofynion cyfreithiol cymhleth a allai beryglu bywydau os na chânt eu dilyn yn gywir.

Cynhaliwyd adolygiad o argaeledd cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn yn y fasnach dacsis. Mae cynigion a fydd yn helpu'r fasnach i gynyddu nifer y cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn wedi'u rhoi ar waith.

Mae mynediad teg a chyfartal at gyfleusterau rheoli plâu cost isel yn cael ei werthuso er mwyn asesu opsiynau posibl i wella’r niferoedd o deuluoedd incwm isel sy'n manteisio. Mae hyn oherwydd pryder bod dim modd i aelodau o’r aelwydydd yma gael mynediad i’r gwasanaeth iechyd cyhoeddus hwn.

## UNED TRAFNIDIAETH INTEGREDIG

Mae'r gwasanaeth yn ceisio cynnig y cymorth sydd ei angen ar drigolion a busnesau yn y pwynt cyswllt cyntaf a hybu gwell fynediad at wasanaethau ar-lein a chymorth.

Mae modd i unigolion hŷn ac unigolion anabl deithio ar y bysiau am ddim. Mae hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn hollgynhwysol. Mae modd i bob trigolyn sy'n hŷn na 60 oed hawlio tocyn bysiau gostyngol ac mae 48,645 o bobl wedi manteisio ar y cynnig yma. Rhoddir 5,582 o docynnau ychwanegol i'r rhai sydd ag anabledd neu sydd angen cydymaith i'w cynorthwyo wrth deithio.

Gan ystyried adborth gan y Grŵp Mynediad Lleol, llwyddodd y Gwasanaeth i gael cyllid gan nifer o ffynonellau er mwyn gwella safleoedd bysiau, yn ogystal ag ateb nifer o geisiadau penodol lleol. Mae'r gwaith yn cynnwys gosod cysgodfannau newydd (os bydd digon o le ar y llwybr), polion a baneri newydd mewn safleoedd bysiau, cyrbiau newydd sydd wedi'u codi fel bod modd camu ar y bysiau heb ddefnyddio gris, yn ogystal â gosod wyneb newydd ar y man sefyll i deithwyr ac adnewyddu'r marciau ar y safleoedd bysiau.

Mae'r buddsoddiad mewn seilwaith gorsafoedd bysiau wedi bod yn sylweddol yn ystod y degawd diwethaf. Mae hyn wedi helpu'r gwasanaeth i osod cyrbiau hygyrch wedi'u codi mewn 764 safle bws erbyn diwedd 2022.

Gan gadw'r fwrdeistref i symud, mae'r Gwasanaeth yn darparu gwelliannau i ffyrdd, pafinau a thrafnidiaeth gyhoeddus, gan hefyd wella ansawdd yr aer. Mae hyn oll yn ei gwneud yn haws i siopwyr ymweld â chanol trefi gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu deithio llesol. Mae hefyd yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu rhwydwaith beicio i gyrchfannau mawr y Fwrdeistref heb rwystro prif lwybrau traffig.

Er mwyn mynd i'r afael â phryderon y trigolion am barcio anwahaniaethol yn ei wneud yn anodd i fysiau stopio yn agos at y cwrbyn, ac yn effeithio ar lif y traffig, mae'r adran gorfodi â chamerâu symudol wedi llwyddo i gadw mannau croesi i gerddwyr, mynedfeydd ysgolion ac arosfannau bysiau yn glir rhag cerbydau sydd wedi'u parcio'n anghyfreithlon.

Mae rhwydwaith y priffyrdd, a'r llwybrau cerdded diogel, yn datblygu drwy'r amser o ganlyniad i waith gwella fel mannau croesi newydd, datblygiadau a nodweddion diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r newidiadau yma'n effeithio ar hawl i gludiant ysgol am ddim ac felly mae'n ddoeth adolygu effaith newidiadau o'r fath o bryd i'w gilydd a diweddaru cymhwysedd unigolion.

Mae'r ddarpariaeth o ran cludiant i bobl sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig yn cael ei deilwra i anghenion unigol y dysgwr gan garfan arbenigol yn y Gwasanaeth. Mae hyn yn adlewyrchu'r amrywiaeth o ran galluedd corfforol yn y gymuned, ac mae gan 930 o'r 12,130 o ddysgwyr sy'n defnyddio cludiant (7.69%) sy'n cael eu cludo ADY. Yn ystod y flwyddyn, cafodd rhagor o yrwyr a chynorthwywyr teithwyr hyfforddiant arbennig ym maes ymwybyddiaeth o awtistiaeth ac epilepsi, cymorth cyntaf, yn ogystal â deall ymddygiad heriol a'i reoli.

Ers nifer o flynyddoedd, mae'r Gwasanaeth wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid a'r Garfan Pontio o fewn Gofal yn y Gymuned a Gwasanaethau i Blant i roi hyfforddiant teithio annibynnol i gynorthwyo pobl o bob oed, gallu ac anghenion sydd heb ymwybyddiaeth o ddiogelwch ffyrdd nac o deithio ar eu pen eu hunain ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Edrychodd cyfranogwyr rhaglen Datblygu Rheolwyr sy'n cael ei redeg gan y Cyngor ar y ddarpariaeth hyfforddiant teithio o fewn y Cyngor a daeth i'r casgliad bod y rhaglenni presennol yn ddatgymalog, heb unrhyw gyfeiriad na chydweithrediad cydlynol. Ymgymerwyd â rhagor o waith a chymeradwywyd achos busnes "Buddsoddi i Arbed" gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2021 i gyflogi Cydlynydd Hyfforddiant Teithio Annibynnol o fewn yr Uned Trafnidiaeth Integredig i gydweithio ag adrannau eraill, sefydlu system atgyfeirio gyffredinol a rhaglen hyfforddi ledled yr Awdurdod, a nodi unigolion addas a fyddai'n elwa o hyfforddiant teithio.

**GWASANAETH CYFIEITHU AR Y PRYD A CHYFIEITHU CYMRU (WITS)**

Mae'r Cyngor yn bartner â WITS ac mae ganddo Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) ar gyfer darparu'r gwasanaeth priodol drwy Gyngor Caerdydd. Yn ystod 2021-2022, cafodd y gwasanaeth ei ddefnyddio 379 o weithiau. Cafodd 28 o ieithoedd eu defnyddio, yn ogystal â chyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain.

Y pum iaith y cafwyd y mwyaf o geisiadau ar eu cyfer yn ystod 2021-2022 oedd Wrdw, Pwyleg, Tamil, Mandarin a Thyrceg.

**CYFLAWNI STRATEGAETHAU'R CYNGOR**

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'i drigolion er mwyn casglu gwybodaeth sy'n helpu â gwaith cynllunio, blaenoriaethu a nodi meysydd i'w gwella a gwasanaethau i'w newid, pennu a monitro safonau cyflawniad a mesur ansawdd y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu a chynyddu ymgysylltiad trwy ein gwefan ymgysylltu Dewch i Siarad RhCT. Mae gan y wefan gyfres o offer ymgysylltu sydd wedi gwella ein harlwy a'i gwneud yn haws i ymgysylltu.

Rydyn ni wedi parhau â'n sgwrs am Newid yn yr Hinsawdd drwy nifer o brosiectau, gan gynnwys Dewch i Siarad am Wefru Cerbydau Trydan, Dewch i Siarad am Flodau Gwyllt, Dewch i Siarad am Goed a Dewch i Siarad am Newid yn yr Hinsawdd | Dewch i Siarad RhCT. Defnyddion ni amrywiaeth eang o ddulliau i ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd gan gynnwys arolwg, syniadau, straeon, arolygon cyflym a lleoedd (offeryn mapio). Yn ogystal, defnyddiwyd Dewch i Siarad ar gyfer prosiectau ar Wasanaethau Hamdden, Strategaeth Adfywio Pontypridd a'r Cynllun Datblygu Lleol.

Yn ystod 2022, fe wnaethon ni gefnogi neu reoli nifer fawr o wasanaethau gyda'u gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu a chefnogi nifer o sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb.

Dyma rai enghreifftiau o sut mae trigolion a chymunedau wedi bod yn rhan o waith y Cyngor yn 2022:

- Ymgysylltu â thrigolion ar ein hymgynghoriad cyllideb;
- Ymgysylltu ag ysgolion a phobl ifainc trwy Instagram ac mewn ysgolion;
- Parhau i ymgysylltu a chynnwys trigolion a chymunedau mewn materion sy'n effeithio arnyn nhw fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed ym mhenderfyniadau'r Cyngor;
- Ymgysylltu parhaus â'r Grŵp Cynghori Pobl Hŷn ynghylch materion a allai gefnogi eu gallu i adael eu cartrefi. Mae gennyn ni Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar y cyd ag Age Connects Morgannwg a'r Grŵp Cynghori Pobl Hŷn i gefnogi pobl hŷn yn RhCT ac ymgysylltu gyda nhw;
- Fe wnaethon ni ddarparu opsiwn rhadbost a rhif ffôn i'r rhai oedd heb fodd i ymgysylltu'n ddigidol, yn ogystal â'n dull wyneb yn wyneb;
- Fe wnaethon ni gysylltu â gwasanaethau eraill wrth gynnal ein sesiynau wyneb-yn-wyneb, o ymgynghoriadau cydgysylltiedig, i ddarparu bagiau gwastraff a chyngor a gwybodaeth;
- Rydyn ni wedi parhau i ymgysylltu â thrigolion ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn casglu barn trigolion a hyrwyddo ymgynghoriadau;
- Parhau i wneud ein hymgynghoriadau yn fwy hygyrch i drigolion, trwy gynyddu'r defnydd o ddeunyddiau hawdd eu darllen a'u hargaeledd. Hyfforddi ein staff i baratoi deunyddiau Saesneg clir;
- Datblygu'r defnydd o ymgysylltu digidol ymhellach, trwy gynyddu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol a fideos.

Ym mhob ymgynghoriad rydyn ni'n ei gynnal, rydyn ni'n ceisio ymgysylltu â'r ystod ehangaf o bobl ag sy'n bosibl. Ein nod yw canfod barn pob grŵp sy'n byw yn y fwrdeistref, yn ogystal â chynrychioli pob barn a phryder. Rydyn ni wedi cyflwyno cwestiwn newydd ar gyfer ymgynghoriadau newid gwasanaeth sy'n caniatáu i'r Cyngor asesu effaith unrhyw newidiadau ar nifer o nodweddion gwarchodedig. Rydyn ni hefyd wedi cyflwyno fersiynau Hawdd eu Darllen o'r holl ymgynghoriadau ar newid gwasanaeth, gan weithio gydag Anabledd Dysgu Cymru.

## 6. Amcanion Cydraddoldeb

Yn 2019 lansiwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2019-2022). Er mwyn helpu i ddatblygu amcanion cydraddoldeb priodol a pherthnasol, cafodd adroddiad 'Pa mor deg yw Cymru? 2018' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei ddefnyddio'n brif ffynhonnell gyfeirio. Roedd amcanion cydraddoldeb wedi'u halinio â nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, yn benodol 'Cymru Mwy Cyfartal' a 'Cymru o Gymunedau Cydlynus'.

Cafodd ymgynghoriad cynhwysfawr ei gynnal gyda'r cyhoedd a chafodd grwpiau cymunedol sy'n adlewyrchu'r 'nodweddion gwarchodedig' sydd wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010 eu targedu drwy waith ymgysylltu.

Drwy ymgysylltu ac ymgynghori â nifer o feysydd gwasanaeth y Cyngor, cafodd yr amcanion cydraddoldeb canlynol eu nodi a'u cyhoeddi'n rhan o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2019-2022. Mae ein hamcanion cydraddoldeb fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Amcan 1 | Deall anghenion ein cymunedau yn well a deall yr hyn sy'n eu rhwystro rhag ffynnu; |
| Amcan 2 | Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau; |
| Amcan 3 | Hyrwyddo cymunedau diogel; |
| Amcan 4 | Lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau; |
| Amcan 5 | Creu gweithlu cynhwysol. |

Mae cynllun gweithredu wedi'i lunio sy'n amlinellu camau gweithredu penodol mewn perthynas â phob un o'r amcanion cydraddoldeb. Bydd y camau yma'n cael eu monitro trwy gynlluniau cyflenwi meysydd gwasanaeth.

Isod rydyn ni'n dangos amlinelliad o'n cynnydd tuag at yr amcanion cydraddoldeb. Dylid nodi nad oedd pob cam gweithredu i fod i gychwyn yn y flwyddyn ariannol 2019-2020 a bydd y rhain yn cael eu symud ymlaen yn y blynyddoedd dilynol.

**<u>Amcan 1 - Deall anghenion ein cymunedau yn well a deall yr hyn sy'n eu rhwystro rhag ffynnu.</u>**

O fewn yr amcan cydraddoldeb yma mae nifer o feysydd y mae angen gweithredu arnyn nhw. Amlinellir y cynnydd tuag at y camau yma isod.

**Cam Gweithredu 1 - Nodi grwpiau cymunedol sy'n cynrychioli holl amrywiaeth dinasyddion Rhondda Cynon Taf a datblygu sianeli cyfathrebu hygyrch gyda nhw.**

Mae gan y Cyngor lawer o gysylltiadau sefydledig gyda grwpiau cymunedol ar draws RhCT, er enghraifft, Fforymau Ieuenctid, Grwpiau Cynghori Pobl Hŷn a'r Cylch Trafod Materion Anabledd. Ffocws y cam gweithredu yma yw ymgysylltu â grwpiau lleiafrifol heb gynrychiolaeth ddigonol ac unigolion sydd ddim wedi cael llwybrau cyfathrebu rheolaidd â'r Cyngor.

**<u>Beth yw Cydlyniant Cymunedol?</u>**

Gwnaeth y garfan Cydlyniant gysylltiadau â nifer o grwpiau gan gynnwys:
Mosg Aberdâr, Grŵp Cyfeillion Bosnia, HOPE, Grŵp Ieuenctid Interlink, MIND, Rhwydweithiau Cymdogaeth, Caffi Talu Beth Hoffech, Pobl yn Gyntaf, Project Unity, Grŵp Theatr Spectacle, Eglwys y Santes Catrin, Cefnogaeth Lleiafrifoedd Ethnig y Cymoedd, Croeso i'n Coedwig.

Yn ogystal â gweithio gyda grwpiau cymunedol, bu’r garfan yn ymwneud â nifer o achlysuron a mentrau fel yr amlinellir isod:

**Ymgysylltu ag aelodau cymunedau Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill ynghylch Covid.**

Buom yn gweithio gyda Gweithiwr Ymgysylltu â Phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Interlink i gwblhau rhaglen o waith ymgysylltu helaeth, a oedd yn cynnwys ymweld â mwyafrif y siopau tecawê a siopau cornel yng nghanol trefi RhCT. Diben y darn yma o waith oedd annog pobl i fanteisio ar y brechlyn Covid a dysgu pam roedd canran is o bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig wedi manteisio ar y brechlyn. Rhoddodd y gwaith gysylltiadau eang i'r garfan gyda chanol trefi a'r gymuned ehangach.

**Autism 1st**

Fe wnaethon ni gwrdd â staff o Autism Life a'u cefnogi'n llwyddiannus i wneud cais am gyllid ar gyfer prosiect garddio. Roedd y prosiect yn galluogi aelodau i elwa o fanteision therapiwtig garddio, yn ogystal â rhoi cyfle i berchnogion rhandiroedd eraill gyfarfod pobl sydd ar y sbectrwm awtistig a garddio gyda nhw. Nod hyn yw cynyddu integreiddio a lleihau unigedd ac allgáu.

**Wythnos rhyng-ffydd**

Trefnwyd achlysur gydag Amgueddfa Cwm Cynon gyda chyfranogiad gan Brifysgol Abertawe, ysgolion lleol, a cholegau i nodi wythnos ryng-ffydd. Y nod oedd cynnal cyfres o drafodaethau gydag arweinwyr ffydd a’r gymuned. Serch hynny, oherwydd

ailgyflwyno cyfyngiadau Covid bu’n rhaid canslo hyn. Serch hynny, fe wnaethon ni barhau i addysgu disgyblion a phobl ifainc trwy weithdai, gan gynnal cystadleuaeth gelf yn y pen draw.

Roedd y gystadleuaeth yn cynnwys disgyblion ysgol a choleg yn cyflwyno darn o waith - celf, cerdd, stori fer, neu ffotograff a oedd yn darlunio ystyr ffydd iddyn nhw. Roedd y gystadleuaeth yn hynod boblogaidd a dewiswyd yr enillydd, a'r ail a'r trydydd safle gan arweinydd o’r gymuned Sikhaidd lleol. Y gobaith oedd y byddai hyn yn agor lle i sgwrsio, ond yn anffodus roedd cyfyngiadau yn golygu na allai hynny ddigwydd y tro yma.

**Diwrnod Rhyngwladol y Menywod**

Cynhaliwyd achlysur gydag Amgueddfa Cwm Cynon i ddathlu'r diwrnod. Roedd yr achlysur yn cynnwys sgwrs am Elaine Morgan a thrafodaeth banel dan gadeiryddiaeth Rhian Hall, a thri aelod o’r panel yn cynrychioli busnes, y celfyddydau a gwleidyddiaeth. Creodd yr achlysur le diogel i fenywod ddod at ei gilydd a rhannu profiadau. Agorodd hyn gysylltiadau cyfathrebu da rhwng y garfan Cydlyniant a menywod lleol.

**Llwybr Hanes Iddewig**

Buom yn gweithio gyda'r hanesydd lleol ac awdur Dr Darry Leeworthy i guradu, hyrwyddo a chynnal llwybr cerdded hanes Iddewig ym Mhontypridd. Caniataodd hyn i ni ddatblygu cysylltiadau â phobl o’r gymuned Iddewig yn ogystal â’r rhai oedd yn awyddus i gefnogi cysylltiad hanes Iddewig y fwrdeistref.

**Achlysur Mis Hanes LHDTC+**

Cynhaliwyd achlysur yn Amgueddfa Cwm Cynon i ddathlu mis hanes LHDTC+ Roedd yr achlysur yn cynnwys sesiwn gan academyddion, darlleniad o ddrama a gorffennodd gyda pherfformiad dawns gyfoes gan y Welsh Ballroom Company.

**Operation Betsy**

Buom yn gweithio gyda Heddlu De Cymru i gynnal nifer o sesiynau ymgysylltu i geisio ymgysylltu â phobl hŷn a rhoi cymorth diogelu neu gyfeillio ar waith yn ôl yr angen.

**Pobl yn Gyntaf RhCT**

Gweithiodd y garfan yn agos gyda Pobl yn Gyntaf ar nifer o brosiectau:

- Sioeau teithiol Pobl yn Gyntaf RhCT – cyfres o achlysuron wyneb yn wyneb gyda’r nod o gynyddu hyder aelodau wrth ailintegreiddio i’r gymuned.

- Ffilm Cymunedau Diogel – cyfres o ffilmiau yn edrych ar y rhwystrau a wynebir gan y rhai ag anabledd dysgu wrth gael mynediad i'r gymuned. O hyn daeth nifer o bryderon ynghylch troseddau casineb yn erbyn pobl anabl ac wedi hynny (ar ôl 2021-2022) yr ymgyrch ‘Bydd yn llais i mi’.

- Mannau diogel – digwyddodd y camau cynllunio cychwynnol o roi mannau diogel ar waith ar draws RhCT yn ystod 2021-2022.

**Wythnos Diogelu**

Cynhaliodd y garfan Cydlyniant sesiwn yng Ngholeg y Cymoedd, gan sefydlu cysylltiadau â'r myfyrwyr. Roedd y digwyddiad yma'n canolbwyntio ar addysgu myfyrwyr am y cynnydd sy'n dod i'r amlwg mewn sbeicio, gan gynnwys sbeicio gyda nodwyddau. Fe waethon ni roi stopwyr poteli a gwybodaeth i fyfyrwyr ar sut i gadw eu hunain a'u cyfoedion yn ddiogel.

**Dosbarthiadau Hunan Amddiffyn**

Cynhalion ni ddosbarthiadau hunan-amddiffyn i ferched, gan greu llinell gyfathrebu ddiogel rhwng merched a menywod a'r adran Cymunedau Diogel. Roedd hyn yn bwysig gan y cafwyd cynnydd mewn diffyg ymddiriedaeth rhwng menywod ifainc a’r heddlu yn 2021.

**Grŵp Amrywiaeth Treorci**

Ar ddiwedd 2021 cyflwynwyd y Garfan Cydlyniant i Grŵp Amrywiaeth Ysgol Gyfun Treorci. Dechreuodd y grŵp i ddechrau fel clwb cinio ‘lle diogel’ i unrhyw ddisgybl a oedd yn teimlo y bydden nhw'n elwa o gael lle diogel yn yr ysgol. Serch hynny, buan y daeth y clwb yn fan cyfarfod i ddisgyblion a nododd eu bod yn LHDT neu’n gynghreiriaid i’w cyfoedion sy’n LHDT. O’r grŵp o  dros 100 o ddisgyblion daeth ‘grŵp arweiniol’ llai â mwy o ffocws i’r amlwg, a oedd yn cynnwys ychydig o ddisgyblion (6ed Dosbarth yn bennaf) a oedd am gymryd rhan fwy gweithredol wrth godi ymwybyddiaeth o faterion LHDT a materion amrywiaeth ehangach. O hyn tyfodd clwb llyfrau, clwb ffilmiau, cylchlythyr, a gweithdai cydradd-i-gydradd. Dechreuodd y Garfan Cydlyniant weithio gyda’r grŵp gan gynnwys datblygu’r Rhaglen Llysgenhadon Ieuenctid, a lansiwyd ym mis Ebrill 2022.

**<u>CYLCH TRAFOD MATERION ANABLEDD Y CYNGOR</u>**

Mae'r cylch trafod wedi cadw mewn cysylltiad â'i holl aelodau drwy ddulliau digidol a thros y ffôn eleni. Mae hyn wedi bod yn ddolen gyswllt bwysig i'n haelodau drafod unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw, ac yn gyfle i drafod eu lles.

Er ein bod ni'n parhau i wynebu heriau o ran cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb cwbl hygyrch oherwydd nifer o resymau, gan gynnwys cyfyngiadau parhaus o ganlyniad i bandemig Covid, rydyn ni'n obeithiol y bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd a bydd cyfathrebu yn gallu ailddechrau mewn rhyw fodd tua diwedd y flwyddyn. Dydy cyfarfodydd digidol neu ar-lein ddim wedi bod yn bosibl oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys allgau digidol rhai aelodau a hygyrchedd platfformau

ar-lein. Mae gwaith yn mynd rhagddo i archwilio os yw'r Fforwm Anabledd mor effeithiol a buddiol ag y gall fod.

## Cyn-filwyr a Chymuned y Lluoedd Arfog

### Gwasanaeth Cyngor i Gyn-filwyr

Sicrhawyd cyllid drwy Gronfa Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog i barhau â'n gwasanaeth Cyngor i Gyn-filwyr, sy'n darparu cyngor a chymorth penodol i gymuned y Lluoedd Arfog. Rydyn ni wedi derbyn mwy na 1000 o atgyfeiriadau ers lansio'r gwasanaeth yn 2019. Mae'r cymorth sy'n cael ei gynnig yn cynnwys: Tai, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Budd-daliadau, Cyllid a Chyflogaeth. Yn ystod y pandemig mae'r gwasanaeth wedi addasu i ddarparu cymorth rhithwir ar-lein i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog.

### Cynllun Cysylltu Cyn-filwyr

Fe wnaethon ni lansio'r Cynllun Cysylltu Cyn-filwyr yn 2021 yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid o Gronfa Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog: Rhaglen 'Force For Change'. Trwy'r cynllun yma, mae modd i gyn-filwyr logi cyfrifiaduron llechen symudol, clustffonau a bysellfyrddau, a chael data symudol am ddim. Mae'r cyfrifiaduron llechen wedi cael eu cyflenwi gan Centerprise International ac mae cyn-filwyr yn Rhondda Cynon Taf yn eu defnyddio nhw'n aml yn rhan o'r Cynllun Cysylltu Cyn-filwyr.

Mae'r cynllun yma wedi helpu cyn-filwyr i gadw mewn cysylltiad â theulu, a chysylltiadau cymdeithasol trwy dechnoleg ddigidol, ac mae wedi helpu i wella llesiant trwy leihau arwahanrwydd cymdeithasol. Gan weithio mewn partneriaeth â'n hawdurdodau lleol cyfagos, mae'r cynllun wedi'i gyflawni ar draws 4 awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru.

### Gwobr Aur Cydnabod Cyflogwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog

Rydyn ni hefyd yn falch o fod wedi llwyddo i gadw ein Gwobr Aur Cydnabod Cyflogwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog eleni. Mae hyn am ein cefnogaeth barhaus i gymuned y Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a'r sawl sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, a'u teuluoedd. Mae Gwobr Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn hynod fawreddog wedi'i hail-ddilysu wrth i'r awdurdod lleol barhau i annog cyflogwyr a gweithwyr i gefnogi'r Lluoedd Arfog a'i gymuned ac ysbrydoli eraill i wneud yr un peth.

Ym mis Ionawr 2022, atgyfnerthodd y Cyngor ei ymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog drwy gyflwyno Cynllun Gwarantu Cyfweliad ar gyfer Cyn-filwyr a Milwyr Wrth Gefn. Bwriad yr ymrwymiad yw gwarantu cyfweliad i gyn-filwyr a milwyr wrth gefn

sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol a nodir yn y proffil swydd ar gyfer swyddi a hysbysebir. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall cyn-filwyr a milwyr wrth gefn ddod â sgiliau, rhinweddau a buddion trosglwyddadwy gwerthfawr.

**Cam Gweithredu 2 - Nodi nifer y ffoaduriaid sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf sydd ddim eto wedi'u cynnwys yn rhan o raglenni ymgartrefu.**

Buon ni'n gweithio'n agos gyda phartïon allanol a sefydliadau o'r 3ydd sector i sefydlu dealltwriaeth gryfach o nifer y ffoaduriaid sy'n byw yn y fwrdeistref. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol, Cefnogaeth Lleiafrifoedd Ethnig y Cymoedd a Phrifysgol De Cymru. Y nod oedd nodi nifer y bobl sy'n ceisio noddfa yn ogystal â nodi'r cymorth a oedd ar gael, gan gynnwys dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill a grwpiau cyfeillgarwch.

Cynhyrchwyd ffilm addysgol mewn partneriaeth â Dr Mike Chick gyda chefnogaeth Cyngor Ffoaduriaid Cymru. Nod y ffilm oedd codi ymwybyddiaeth o gyflwr pobl sy'n ceisio noddfa, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o Lywodraeth Cymru, (ac yn fwy lleol, ymrwymiad Prifysgol De Cymru) i ddod yn lle noddfa i'r rhai sy'n ffoi rhag erledigaeth neu wahaniaethu.

Yn ystod Haf 2021 croesawyd nifer o deuluoedd o Afghanistan i RCT. Er bod y teuluoedd yma'n rhan o'r cynllun ailsefydlu, roedd y gwaith yn cynnwys cysylltu â grwpiau ac aelodau o'r gymuned a oedd yn gweithio i gefnogi ffoaduriaid oedd ddim yn rhan o'r cynllun. Arweiniodd hyn eto at ragor o wybodaeth am y niferoedd posibl o ffoaduriaid yn RhCT oedd ddim yn rhan o'r cynllun. Buon ni'n gweithio gyda grwpiau elusennol, grwpiau eglwysig ac aelodau unigol o'r gymuned a geisiodd wneud y trawsnewid ar gyfer ffoaduriaid yn fwy hylaw.

**Cam Gweithredu 3 - Cynnal asesiad o anghenion cyflogaeth a fydd yn llywio pwyntiau gweithredu penodol sy'n ymwneud â phobl ifainc, anabledd ac ethnigrwydd.**

Parhaodd blaenoriaethau Llywodraeth Cymru (LlC) yn ystod 2021-2022, a lywiodd ein cynllun cyflawni Cymunedau am Waith a Mwy, i ymgysylltu â grwpiau penodol o gleientiaid gyda'r nod o gyrraedd targed LlC o 20% o'n cleientiaid sy'n cael cyflogaeth â chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio neu anabledd. Cyflawnwyd 15% ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y targed yn 20%, ond roedd y nifer wirioneddol o 113 yn fwy na'r nifer targed o 50 oherwydd bod y niferoedd a ymgysylltwyd gyda nhw'n uwch na'r targed a osodwyd.

Mae rhaglen cymorth cyflogaeth CaW Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn targedu pobl sy'n ddi-waith am gyfnod hir (12 mis+) neu'n economaidd anweithgar a phobl ifainc sydd ddim mewn addysg na hyfforddiant yn benodol. Mae'r rhaglen hefyd wedi'i

thargedu'n ddaearyddol at bobl sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a ddynodwyd yn flaenorol.

Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, ymgysylltodd CaW+ â:

1,385 o bobl - 349 o bobl ifainc (25%), 1,038 o oedolion 25+ (75%)

Ethnigrwydd y cyfranogwyr:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Seisnig / Cymreig / Albanaidd / Gwyddelig Gogledd Iwerddon / Prydeinig (96%) | 1329 | Indiaidd | 0 |
| Gwyddelig | 0 | Pacistanaidd | 0 |
| Sipsiwn / Teithiwr /Romani | 1 | Bangladeshaidd | 1 |
| Cefndir Deuol - Gwyn a Du'r Caribî | 3 | Tsieineaidd | 0 |
| Cefndir Deuol - Gwyn a Du Affricanaidd | 2 | Affricanaidd | 0 |
| Cefndir Deuol - Gwyn ac Asiaidd | 4 | Caribïaidd | 1 |
| Cefndir gwyn arall | 22 | Arabaidd | 1 |
| Cefndir Deuol arall | 1 | Tras Ethnig Arall | 19 |

Cofnodwyd bod gan 269 (19.4%) o'r bobl hynny a ymgysylltwyd â nhw ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.

Cyfanswm nifer y cleientiaid CaW+ a gafodd gyflogaeth yn ystod 2021-2022 oedd 748 (54% o'r rhai a ymgysylltwyd â nhw). Roedd 238 o'r cleientiaid yma'n bobl ifainc 16-24 oed (32%) a 512 yn oedolion 25+ oed (68%).

Serch hynny, os cymharwch nifer y cofnodion swyddi â'r nifer a gyflogwyd o dan bob categori oedran: (349 o bobl ifainc a 1,038 o oedolion 25+) llwyddodd 66% o bobl ifainc a 49% o oedolion i gael swydd.

**Cynllun Kickstart**

Ar ddiwedd 2021, lansiodd yr Adran Gwaith a Phensiynau gynllun cyllid grant Kickstart. Gwnaeth Cyngor RhCT gais i ddod yn borth ar gyfer y cynllun yma, gan gefnogi busnesau lleol i gael mynediad at gyllid a darparu cyfleoedd i gael profiad gwaith â thâl i bobl ifainc.

**Astudiaeth Achos**

Derbynion ni atgyfeiriad gan gyfranogwr 22 mlwydd oed â nam ar y clyw oedd angen cymorth wrth ddod o hyd i gyflogaeth wedi cyfnod hir o broblemau iechyd meddwl.

Buon ni'n gweithio â'r cyfranogwr i ddiweddaru eu CV, rhoi cymorth wrth ysgrifennu llythyr eglurhaol a chymryd rhan mewn cyfweliadau ffug er mwyn sicrhau bod y cyfranogwr wedi paratoi.
Rydyn ni hefyd wedi ymchwilio i gymorth sydd ar gael i bobl ag anableddau sy'n mynd i mewn i gyflogaeth ac wedi gwneud y cyfranogwr yn effro i'r cyllid sydd ar gael drwy'r Cynllun Mynediad at Waith, sy'n helpu â chostau addasiadau angenrheidiol sydd eu hangen mewn gweithle.

Llwyddodd y cyfranogwr i gael swydd.

Yn ystod ei arddegau, collodd y cyfranogwr ei glyw yn gyfan gwbl mewn un glust a chollodd 80% o'i glyw yn y llall. Roedd wedi bod yn dioddef o or-bryder ac iselder difrifol o ganlyniad i hyn ac yn fwy diweddar roedd wedi dechrau hunan-niweidio. Cafodd gymorth gan Feddyg Teulu a'i atgyfeirio at raglen CaW+ gan y Cydgysylltydd Lles i'w alluogi i gael cymorth i gael cyflogaeth.

Roedd wedi gweithio am ychydig fisoedd cyn hyn ond roedd y gwaith yn anaddas ac roedd gorfod gadael y swydd wedi ei adael yn teimlo'n fwy pryderus ac isel ei ysbryd ac roedd yr hunan-niweidio wedi gwaethygu.

Cawson ni gyfarfod â'r cyfranogwr a'i fam i ddechrau yn swyddfa leol y Ganolfan Byd Gwaith oherwydd doedd dim modd cysylltu dros y ffôn oherwydd y nam ar ei glyw. Cawson ni drafodaeth faith am y rhwystrau y mae'r cyfranogwr yn eu hwynebu. Rhoddodd gopi i mi o'i CV a oedd yn manylu ar ei gymwysterau helaeth ac yn amlygu ei IQ lefel athrylith. Dywedodd fod ganddo ddiffyg hyder i wneud cais am swyddi a'i fod yn amau'n gyson os yw'n gallu cadw cyflogaeth reolaidd oherwydd ei anabledd ond mae'n benderfynol o geisio goresgyn y rhwystrau yma.

Sefydlodd ein cyfarfod cychwynnol ni fyddai amgylcheddau gwaith swnllyd a hynod o brysur yn addas, felly fe wnaethon ni ganolbwyntio ar swyddi gweinyddol sydd ar gael trwy gynllun Kickstart.

Mynegodd ddiddordeb mewn swyddi gwag yn ymwneud â gweithgareddau awyr agored gan yr oedd yn teimlo y gallen nhw fod o fudd i'w iechyd meddwl. Cytunodd i wneud cais am 2 swydd wag Kickstart felly rhoddais wybod i'r anogwr gwaith a anfonodd ddolenni ato i ddechrau'r broses ymgeisio. Ar gais y cyfranogwyr drafftiais lythyr eglurhaol a chrynhoi ei CV i'w gyflwyno i Trafnidiaeth Cymru ar gyfer swydd wag cynorthwyydd TG. Soniais hefyd am y cyllid sydd ar gael drwy'r cynllun Mynediad at Waith sy'n helpu gyda chostau sy'n ymwneud ag addasiadau rhesymol sydd eu hangen mewn gweithle ar gyfer gweithwyr ag anableddau.

Yn fuan wedyn, derbyniais e-bost gan y cyfranogwr i gadarnhau bod cyfweliad wedi'i gynnig ac y byddai'n cael ei gynnal yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams.

Roedd yn nerfus iawn oherwydd doedd erioed wedi defnyddio Teams o'r blaen ac erioed wedi cael cyfweliad swydd ffurfiol.  Trefnais gyfarfod Teams a drafftio rhestr o gwestiynau cyfweliad i ymarfer gyda nhw ychydig ddyddiau cyn y cyfweliad. Fe wnaeth baratoi'n drylwyr ac ateb pob cwestiwn yn glir ac yn gryno, nid oedd unrhyw broblemau o ran defnyddio Teams a dywedodd ei fod yn teimlo'n llawer mwy hyderus ar ôl ein sesiwn.

Llai na 24 awr ar ôl y cyfweliad cadarnhaodd y cyfranogwr ei fod wedi derbyn cynnig swydd.

**Arferion Da i'w Rhannu / Gwersi a Ddysgwyd**

Roedd cydweithio â hyfforddwyr gwaith ieuenctid y Ganolfan Byd Gwaith wedi sicrhau mynediad prydlon i swyddi gwag 'Kickstart' perthnasol.

Mae cymorth ardderchog ar gael i bobl ag anableddau er mwyn sicrhau bod modd teilwra amodau gwaith i ddarparu ar gyfer unrhyw addasiadau rhesymol y gallai fod eu hangen.

**Deilliannau**

Roedd y cyfranogwr wedi sicrhau swydd Kickstart yn gweithio 25 awr fel cynorthwy-ydd TG i Trafnidiaeth Cymru

**Cam Gweithredu 4 - Proffilio cymunedau ar gyfer pob ardal llyfrgell er mwyn deall anghenion cwsmeriaid yn well.**

Mae’r gwasanaeth wedi adnabod y prif ddalgylchoedd ar gyfer pob llyfrgell ac yna wedi cynnal proffil o bob ardal trwy ddefnyddio’r rhaglen 'Community Insights' sy’n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- poblogaeth yn y wardiau sydd yn nalgylch y llyfrgell;
- gwybodaeth am blant sy'n byw mewn tlodi, pobl ddi-waith, pobl mewn ardaloedd difreintiedig, pobl anabl, pensiynwyr a grwpiau bregus eraill;
- gwybodaeth am nodweddion tai: mathau o anheddau, daliadaeth tai, fforddiadwyedd, gorlenwi, oedran yr annedd a sefydliadau cymunedol;
- gwybodaeth am droseddau a gofnodwyd a chyfraddau troseddu;
- gwybodaeth am salwch tymor hir sy'n cyfyngu ar fywyd, disgwyliad oes a marwolaethau, ac iechyd cyffredinol;
- rhagor o wybodaeth am gymwysterau, cyrhaeddiad disgyblion ac absenoldebau;

- gwybodaeth am swyddi pobl, cyfleoedd gwaith, incwm a busnesau lleol;
- gwybodaeth am drafnidiaeth, pellter at wasanaethau a gwasanaethau digidol;
- gwybodaeth am yr amgylchedd ffisegol, ansawdd aer a dosbarthiadau cymdogaethau.

O'r herwydd, mae dealltwriaeth dda o'r data o'r gwahaniaethau rhwng pob ardal lyfrgell. Gwneir defnydd hefyd o'r wybodaeth ddaearyddol sydd ar gael am nifer y siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol rannau o'r fwrdeistref.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r gwasanaeth yn proffilio niferoedd yr ymwelwyr, dosbarthu llyfrau, lawrlwythiadau a'r nifer o bobl sy'n bresennol mewn achlysuron ym mhob llyfrgell yn rhan o'u cyfarfodydd cyflawniad gyda changhennau ac, wrth gwrs, yn gwrando ar adborth gan staff a chwsmeriaid.

**Cam Gweithredu 5 - Cynnal gwaith ymchwil yn rhan o asesiad anghenion y farchnad dai leol o ran y galw am anghenion tai ar gyfer pobl anabl.**

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r data a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol wrth benderfynu ar y cymysgedd o gynlluniau/eiddo newydd sy'n cael eu hadeiladu gan ddefnyddio'r grant tai cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddefnyddio'r dull yma er mwyn mynd i'r afael â'r galw am dai ymhlith pobl anabl, a fydd yn caniatáu cartref sefydlog iddyn nhw i'w galluogi i ffynnu waeth beth fo'r rhwystrau maen nhw yn eu hwynebu. Roedd disgwyl i adolygiad llawn o’r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2022, ond mae'r dyddiad cwblhau wedi’i ymestyn i fis Rhagfyr 2022.

**Cam Gweithredu 6 - Cynnal adolygiad o'r Cynllun Ceisio Cartref i sicrhau bod cwestiynau monitro cydraddoldeb yn briodol, er mwyn nodi anghenion penodol gyda phwyslais ar nodi anghenion tai ar gyfer pobl ifainc anabl.**

Mae'r Gwasanaeth Strategaeth Tai a Buddsoddi yn y broses o ailfodelu'r broses o wneud cais i wasanaeth Ceisio Cartref, yn unol ag agenda digideiddio gwasanaethau'r Adran. Yn y broses yma bydd y cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys cwestiynau mewn perthynas â phobl ifainc anabl yn cael mynediad i dai marchnad agored sy'n fforddiadwy iddyn nhw yn unol â'r prawf fforddiadwyedd a gynhaliwyd yn ystod y cam ymgeisio.

**Cam Gweithredu 7 - Gwella a datblygu sut mae gwybodaeth am fonitro cydraddoldeb defnyddwyr gwasanaethau ar draws meysydd gwasanaeth y Cyngor yn cael ei chasglu a'i chofnodi.**

Fel yr amlygwyd mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol, mae pecyn cymorth monitro cydraddoldeb wedi'i ddatblygu i'w ddefnyddio gan bob maes gwasanaeth yn

y Cyngor. Mae'r pecyn cymorth wedi'i ddatblygu gan ddilyn enghreifftiau a chanllawiau arfer gorau, ac mae'n amlygu pwysigrwydd monitro cydraddoldeb a'r defnydd posibl o ddata. Mae’r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys cyngor arfer gorau y dylid ei ddilyn wrth gynnal monitro, gan gynnwys cyngor ar drefn cwestiynau, geiriad ac opsiynau ymateb. Rydyn ni'n obeithiol y bydd y pecyn cymorth yma'n cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2022.

Wrth ddatblygu'r pecyn cymorth, rydyn ni hefyd wedi gallu rhoi cyngor ac arweiniad i nifer o feysydd gwasanaeth sy'n wynebu'r cyhoedd ar y ffordd orau o weithredu neu wella monitro cydraddoldeb yn eu gwasanaethau. Dyma rai enghreifftiau:

- Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag;
- Ffurflenni recriwtio;
- Systemau archebu tocynnau theatr;
- Holiaduron bodlonrwydd cwsmeriaid;
- Fforwm Mynediad Lleol RhCT.

Lle cesglir data cydraddoldeb yn rhan o gynllun grant, adroddir ar y data yma i Lywodraeth Cymru yn rhan o’u dadansoddiad i weld a yw cyllid grant wedi’i ddefnyddio yn unol â gofynion y rhaglen.

Rydyn ni hefyd wedi dechrau gweithio gyda charfan Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Cyngor i sicrhau bod cwestiynau a data monitro cydraddoldeb yn cael eu casglu a'u defnyddio fel mater o drefn mewn ymgynghoriadau cyhoeddus. Mae'r gwaith yma'n mynd rhagddo a bydd yn golygu bod data'n cael ei ddadansoddi i ddeall effeithiau cynigion ar drigolion yn well, a'r anghenion a'r galwadau sydd gan drigolion am wasanaethau.

**Cam Gweithredu 8 - Gwerthuso profiad pobl anabl sydd ar y gofrestr Ceisio Cartref (Homefinder) er mwyn deall unrhyw rwystrau sy'n eu hwynebu o ran cael gafael ar lety wedi'i addasu, a'i ddefnyddio, ac er mwyn nodi sut mae gwella'r broses o ganlyniad i hyn.**

Cafodd data ynghylch nifer yr unigolion sydd wedi cofrestru gyda Ceisio Cartref yr oedd angen eiddo wedi'u haddasu eu tynnu o'n system Civica. Mae hyn wedi amlygu nifer fawr o ymgeiswyr sydd angen eiddo hygyrch neu eiddo wedi'i addasu'n llawn. Bydd camau'n cael eu cymryd yn 2022-2023 i adolygu’r data yma a’i ddefnyddio i hysbysu grŵp gorchwyl a gorffen sy’n edrych ar dai wedi’u haddasu yn rhan o adolygiad y Cynllun Dyrannu. Bydd hyn yn ddarn o waith parhaus rydyn ni'n bwriadu ei gwblhau ym mis Ebrill 2024. Bydd rhan o'r adolygiad yma'n gwerthuso profiad cwsmeriaid o'r broses Ceisio Cartref.

**Cam Gweithredu 9 - Gwella a datblygu trefnau monitro cwynion defnyddwyr gwasanaethau.**

Mae'r cyfnod yma wedi parhau i ddarparu heriau oherwydd effaith barhaus Covid a dydy hi ddim yn glir sut mae hyn wedi effeithio ar rai gwasanaethau a rhyngweithio â chwsmeriaid, gyda lefel gyffredinol adborth gan gwsmeriaid dros y cyfnod adrodd yn sylweddol is na blynyddoedd blaenorol.

Mae canmoliaeth a gofnodwyd yn gyson â blynyddoedd blaenorol er ei fod yn parhau i fod yn faes i'w wella ynghyd â gwella mecanweithiau ar gyfer casglu sylwadau cwsmeriaid a fydd yn ffocws ar gyfer 2022-2023. Mae gwaith eisoes wedi dechrau o fewn meysydd gwasanaeth i wella sut mae sylwadau cwsmeriaid yn cael eu casglu a sut mae modd bwydo'n ôl newyddion am ddatblygiadau a gwelliannau yn rhan o ddatblygiad 'dywedoch chi, gwnaethom ni'.

Mae meysydd gwasanaeth a Chydlynwyr Cwynion wedi parhau i reoli cysylltiadau cwsmeriaid a chwynion yn effeithiol drwy gydol y cyfnod er gwaethaf yr heriau a gyflwynwyd. Er hyn, mae cyflawniad cyffredinol o ran ymdrin â chwynion wedi lleihau gyda 53% o gwynion Cam 1 yn cael eu datrys o fewn 10 diwrnod gwaith, o gymharu â 61% yn 2020-2021.

Mae nifer yr eitemau adborth a dderbyniwyd yn is na blynyddoedd blaenorol ac yn parhau i fod yn llai na 1.5% o gysylltiadau cyffredinol gyda chwsmeriaid. Yn gyffredinol, mae cysylltiadau cwsmeriaid â'r Cyngor wedi cynyddu 0.6% ond maen nhw'n parhau i fod yn sylweddol is na'r ffigurau cyn y pandemig. Mae nifer y cysylltiadau uniongyrchol dros y ffôn â'r Cyngor wedi gostwng 38% o'i gymharu â chysylltiadau drwy e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol sy'n parhau i fod yn uwch na'r ffigurau cyn y pandemig. Efallai fod hyn yn arwydd o newid parhaol yn y modd y mae cwsmeriaid yn dymuno rhyngweithio â'r Cyngor.

Bydd y garfan Adborth ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid yn parhau i fonitro rhyngweithio cwsmeriaid â'r Cyngor i sicrhau bod y Cynllun Adborth Cwsmeriaid yn cynnig ystod amrywiol o opsiynau sy'n rhoi cyfle i gwsmeriaid roi adborth ar wasanaethau a gwneud awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Bydd y garfan hefyd yn parhau i adolygu ac ystyried yr hyn a ddysgwyd gan gynghorau eraill trwy lyfrau achos yr Ombwdsmon a chyswllt uniongyrchol â swyddogion cwynion ledled Cymru a thrwy fforymau rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae gwaith ar weithredu system rheoli cwynion newydd wedi'i ohirio oherwydd blaenoriaethau eraill, fodd bynnag y gobaith yw y bydd hyn wedi'i roi ar waith yn llawn erbyn mis Ebrill 2023.

Mae'r oedi wrth weithredu wedi rhoi'r cyfle i gydlynwyr ar draws pob maes gwasanaeth ystyried sut y gall unrhyw system newydd ddiwallu anghenion y gwasanaeth orau a darparu gwell gwybodaeth er mwyn i ni barhau i ddeall anghenion ein cymunedau'n well a gwella'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

**Cam Gweithredu 10 - Ar lefel leol, sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a darpariaeth cymorth i blant, pobl ifainc a theuluoedd o fewn eu cyrraedd yn well er mwyn eu hannog i gymryd rhan**

Mae'r **Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid** wedi parhau i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i ddarparu gwasanaethau gwaith ieuenctid yn 2021-2022 gan gynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i bobl ifainc i hyrwyddo eu cyfranogiad ac ymgysylltu. Mae'r tabl isod yn dangos 'cyrhaeddiad' y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (nifer y bobl ifainc unigol sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau mynediad agored a drefnwyd gan y gwasanaeth, ac sy'n cael cymorth un i un gan y gwasanaeth) a nifer y cysylltiadau a wnaed gan y gwasanaeth â phobl ifainc dienw yn ystod sesiynau gwaith ieuenctid ar y stryd yn ystod y flwyddyn:

| **Cyrhaeddiad blynyddol 2021-2022** | | | |
|---|---|---|---|
| **11-13 oed** | | | 3240 |
| **14-16 oed** | | | 2963 |
| **17-19 oed** | | | 88 |
| **20-25 oed** | | | 152 |
| **CYFANSWM** | | | **7235** |
| **Nifer y cysylltiadau dienw 2021-2022** | | | |
| **2021-2022** | | | 12930 |
| **Cyrhaeddiad yn ôl oedran 2021-2022** | | | |
| | **% o'r boblogaeth** | **Cyfartaledd drwy Gymru** | **Amrywiant** |
| **11-16 oed** | 36.6% | Dd/B | Dd/B |
| **11-19 oed** | 28.6% | 20% | + 8.6% |

Yn 2021-2022 ymgysylltodd y Gwasanaeth â 28.6% o bobl ifainc 11-19 oed, gan gyflawni 8.6% yn uwch na Chyfartaledd Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn cerbydau ieuenctid symudol, gan ddefnyddio cyllid craidd a grant i weithredu fel canolfannau mewn ardaloedd lle does dim mynediad i leoliad parhaol addas. Defnyddir y cerbydau fel clybiau ieuenctid symudol; fel canolfan ar gyfer gweithgareddau cymunedol fel diwrnodau hwyl a gwaith ieuenctid ar y stryd; yn ogystal â chanolfan i'w ddefnyddio ar adegau pan fo angen ymateb ar unwaith o fewn cymuned, megis yn dilyn digwyddiad difrifol sy'n

gofyn am fwy o gymorth gwaith ieuenctid. Roedd y cerbydau symudol yn amhrisiadwy yn ystod y pandemig, gan gynnig lle diogel i bobl ifainc a chefnogaeth ar gyfer y gwaith ar y stryd.

Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn defnyddio sawl ffordd o gyfathrebu â phobl ifainc, rhieni/gwarcheidwaid ac aelodau o'r gymuned megis e-byst, negeseuon testun, posteri, taflenni, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ap a lansiwyd yn 2022. Cafodd gwefan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, ei hailfrandio fel YEPSWales yn 2022 gan alinio â'r ap newydd ac mae'n parhau i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i bobl ifainc ar nifer o themâu megis rheoli arian, teithio ac ati. Mae data defnydd y wefan yn cael ei fonitro'n fisol gyda 3,300 o ddefnyddwyr wedi cyrchu'r wefan ym mis Hydref 2021 yn unig. Mae gwybodaeth y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid hefyd yn cael ei rhannu ar wefan Dewis, gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a gwefannau ysgolion uwchradd.

Mae gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid hefyd Swyddog Ieuenctid sy'n gyfrifol am ddatblygu digido a hyrwyddo, gyda chefnogaeth Hyrwyddwr Cyfryngau Cymdeithasol ym mhob clwstwr. Mae pobl ifainc wedi bod wrth galon datblygiad yr ap, sydd wedi trawsnewid ymgysylltiad defnyddwyr a gwella'r modd y darperir gwasanaethau; yn ogystal â hyrwyddo'r gwasanaeth a'i weithgareddau a'r cymorth sydd ar gael, mae'r ap yn galluogi rhieni a gwarcheidwaid i lenwi ffurflenni caniatâd ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle.

Mae gan y gwasanaeth bellach 4 platfform cyfryngau cymdeithasol, Facebook, Instagram, Twitter a Snapchat gyda 3,045 o ddilynwyr Facebook, 2,397 o ddilynwyr Instagram a 1,481 o ddilynwyr Twitter yn 2021-2022. Mae'r sianel Youtube wedi cael 12,574 o ymweliadau yn 2021-2022. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi ffrydio achlysuron a chyfarfodydd gyda phobl ifainc yn fyw, megis y rhai sy'n cael eu cynnal gyda Fforwm Ieuenctid y Sir, sydd wedi bod yn llwyddiannus.

Mae'r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD)** yn chwarae rôl allweddol wrth ledaenu gwybodaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth a theuluoedd. Dangosodd dadansoddiad o'r traffig ar-lein ar draws sianel cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn ystod y pandemig ymgysylltiad sylweddol â chymorth ar-lein gyda 38,523 o ymweliadau / 32,690 o wylwyr unigryw o fideos rhianta ar-lein a 44,287 o ymweliadau / 36,040 o wylwyr unigryw o fideos iaith cynnar ar-lein. Rydyn ni wedi parhau i hyrwyddo'r tudalennau Facebook a'r fideos eleni ac mae'r fideos rhianta ac iaith gynnar ar-lein wedi cynyddu 9,000 yn y cyfnod Ebrill 2021-Ebrill 2022.

Mae hyn yn ein hysbysu bod cyfryngau cymdeithasol yn dal i fod yn ddull poblogaidd i gael mynediad at gymorth rhianta a'n nod yw creu fideos mwy addysgiadol ar gyfer Facebook a gwefan newydd Teuluoedd RhCT. Mae'r Swyddog Cymorth Rhianta

Rhithwir yn gyfrifol am adeiladu cynnwys ar-lein priodol i sicrhau y bydd pob teulu'n cael mynediad i'r un cymorth, cyngor ac arweiniad gan y Garfan Rhianta, waeth beth fo'r dull darparu, gan ddileu unrhyw rwystrau i gynhwysiant ac ymgysylltu.

Mae gwaith ar **wefan Teuluoedd RhCT**. Bwriedir lansio'r wefan yn ystod haf 2022. Bydd y wefan gyhoeddus yma'n siop un stop ar gyfer gwybodaeth yn ymwneud â phlant, pobl ifainc a theuluoedd.
Bydd yn darparu pwynt mynediad pwysig ar gyfer gwybodaeth, cyngor ac atgyfeirio i blant, pobl ifainc, rhieni, aelodau o'r gymuned ac ymarferwyr at yr ystod o gymorth sydd ar gael, gan ddarparu modd i aelodau'r cyhoedd ddiwallu eu hangen am wybodaeth a'u hanghenion cymorth eu hunain.

Mae'r model darparu newydd ar gyfer **Rhianta** a ddechreuodd ym mis Medi 2021 wedi'i roi ar waith yn effeithiol gyda chymorth rhianta anffurfiol a rhaglenni rhianta ffurfiol yn darparu gwybodaeth a chymorth gan amrywiaeth o bartneriaid a gomisiynir ledled RhCT. Cefnogir hyn gan fodel comisiynu prynu yn y fan a'r lle sy'n defnyddio cyflenwyr cymeradwy. Wrth sefydlu rhestrau o gyflenwyr cymeradwy i gefnogi prynu darpariaeth cymorth rhianta yn y fan a'r lle, mae'r Garfan Comisiynu wedi bod yn datblygu caffael cynaliadwy o grwpiau cymunedol lleol i gefnogi'r Cyngor i ddiwallu anghenion teuluoedd yn eu cymunedau eu hunain. Mae hyn yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ail-agorodd y tair Canolfan Plant a Theuluoedd yn llawn yn 2021-2022 yn dilyn y pandemig gan gynnig canolbwynt yn y gymuned ar gyfer mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth mewn perthynas â chymorth i deuluoedd, gofal plant, rhianta, gwasanaethau chwarae a gwasanaethau ieuenctid.

Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid wedi bod yn rhagweithiol yn **ymgynghori â phobl ifainc** drwy gydol y flwyddyn. O geisio barn yn ystod sesiynau 1:1 i arolygon ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, mae staff y Gwasanaeth wedi ymrwymo i wrando ar bobl ifainc i lywio datblygiadau'r gwasanaeth. Mae arolwg Eich Llais i fod i gael ei gynnal yn ystod hydref 2022.

Mae'r strategaeth Cyfranogiad ar gyfer y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid wedi'i hailddatblygu o ganlyniad i adborth gan bobl ifainc sy'n ymwneud â'n gwaith **Fforwm Ieuenctid**. Mae'r adborth wedi arwain at sefydlu fforymau ardal thematig yn lle'r fforymau ardal leol blaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cydraddoldeb ac Amrywioldeb
- Cymunedau Diogel
- Iechyd Meddwl a Lles

- Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd

Mae pobl ifainc yn credu y bydd y grwpiau yma'n cael mwy o effaith ar y gwaith maen nhw'n gallu ei gyflawni a bod y meysydd thematig yma'n mynd i'r afael â'r anghenion mwyaf ar gyfer pobl ifainc 11-25 oed ar draws RhCT.

**Manylion gwaith y Fforwm a gyflawnwyd yn 2021-2022**

Cydraddoldeb ac Amrywioldeb

Mae'r fforwm yma bellach wedi hen ennill ei blwyf gyda niferoedd da yn mynychu cyfarfodydd y fforwm. Mae lleisiau pobl ifainc wedi cyfrannu at nifer o ddatblygiadau/prosiectau allweddol, megis:

- Nododd arolwg ledled RhCT yr awydd am fannau cymdeithasol diogel i bobl ifainc LHDC+, a arweiniodd hyn at greu fforwm LHDC+ newydd; arweiniodd hyn wedyn at sefydlu grŵp cymorth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr a sesiynau galw heibio wythnosol yn Cynon Linc

- Gwaith prosiect yn rhan o gystadleuaeth Pride Art

- Gweithdy Iechyd Rhywiol mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Cwm Taf

- Gweithio gyda Lili Pad i greu ffilm fer am brofiadau LHDC+ ar draws RhCT, a gafodd ei harddangos i Stonewall a phartneriaid.

Cymunedau Diogel

- Mynychodd aelodau'r grŵp Cymunedau Diogel Fforwm Rhanbarthol Lleisiau Ifanc y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i glywed adborth am sut mae eu hawgrymiadau'n cael eu rhoi ar waith, h.y., rhagor o ddulliau o gysylltu â'r heddlu drwy anfon negeseuon testun er enghraifft, trafodaethau am bwysigrwydd iaith y corff a datblygu perthnasoedd cadarnhaol rhwng yr heddlu a phobl ifainc. Bu aelodau'r Fforwm yn gweithio gyda'r heddlu, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a phartneriaid eraill i nodi ffyrdd gwell o weithio gyda'r heddlu, gan nodi meysydd sy'n achosi pryder fel troseddau cyllyll, pobl ifainc yn adrodd am droseddau a gwybod eich hawliau.

- Yn rhan o'r fforwm yma, ysgrifennodd pobl ifanc gerdd gyda Cymru Ddiogelach a bardd allanol am Covid.

- Mae aelodau'r Fforwm wedi bod yn ymwneud yn helaeth ag ymgynghoriadau Interlink a Cymru Ddiogelach sydd wedi bod yn llwyddiannus ac y mae pobl ifainc wedi'u mwynhau.

Iechyd Meddwl a Lles

- Lleisiodd aelodau'r fforwm bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl a'r posibilrwydd o greu deunydd hyrwyddo yn rhoi cyngor ar strategaethau ymdopi. O ganlyniad, canolbwyntiodd y fforwm ar gynnal ymgynghoriadau â phobl ifainc eraill ynghylch prosiect animeiddio iechyd meddwl sydd ar y gweill ar hyn o bryd ac sydd i'w gwblhau ym mis Ebrill 2023.

- Enwebodd pobl ifainc y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid ar gyfer gwobr a llwyddodd y Gwasanaeth i ennill y wobr: Gwobr Iechyd Meddwl a Lles, Seintiau Cymunedol: Gwobr Datblygu Ieuenctid.

Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd

- Cafodd grŵp yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ddiwrnod llwyddiannus yn ystod hanner tymor mis Hydref yn cynnal sesiwn codi sbwriel ym Mharc Coffa Ynysangharad. Cymerodd 20 o bobl ifainc ran wrth iddyn nhw amlygu'r ardal yma fel man lle mae pobl ifainc yn hoffi ymgynnull ac yn gallu "creu llanast". Roedden nhw eisiau "rhoi rhywbeth yn ôl" i'r ardal a chymeron nhw ran mewn sesiwn codi sbwriel am 2 awr a hanner.

- Mae arweinydd y Gwasanaeth ar gyfer y fforwm yma'n cynrychioli'r Gwasanaeth ar Weithgor Newid yn yr Hinsawdd. Mae'n mynychu cyfarfodydd chwarterol gyda gweithwyr eraill o bob rhan o'r Cyngor sy'n adrodd yn ôl am unrhyw waith a gwybodaeth am waith amgylcheddol gadarnhaol a chynaliadwy sy'n mynd ymlaen ledled y fwrdeistref sirol. Mae presenoldeb y Gwasnaeth ar y grŵp yma i roi adborth ar waith y Fforwm ac i roi llais i bobl ifainc, wrth helpu i ymgysylltu â phobl ifainc ar gyfer unrhyw ymgynghoriadau mae adrannau eraill o'r Cyngor eu heisiau/angen.

## AMCAN 2 - Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau.

O fewn yr amcan cydraddoldeb yma mae nifer o feysydd y mae angen gweithredu arnyn nhw. Amlinellir y cynnydd tuag at y camau gweithredu yma isod:

### Cam gweithredu 1 - Adolygiad cynhwysfawr o'r broses recriwtio a dethol i gynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr.

Mae gwaith i wella'r broses recriwtio wedi'i gwblhau, er bod llawer o waith wedi'i ohirio oherwydd blaenoriaethau Covid a gweithrediad system Adnoddau Dynol a Chyflogres newydd iTrent, sy'n cynnwys system e-recriwtio newydd.

Yn benodol, mae camau gweithredu allweddol sydd wedi'u gohirio yn cynnwys:

- Canllawiau recriwtio rheolwyr newydd sy'n cynnwys gwybodaeth am recriwtio ac amrywiaeth. Mae dogfen ganllaw ddrafft wedi'i pharatoi, bydd angen ei hadolygu ar ôl adeiladu'r system recriwtio newydd a'i diwygio yn unol â hynny. Bydd canllawiau system recriwtio hefyd yn cael eu paratoi.

- Gallai symleiddio prosesau recriwtio gan fod y system newydd yn effeithio ar brosesau allweddol. Mae'r adolygiad i symleiddio prosesau recriwtio wedi'i ohirio hyd nes i'r system fynd yn fyw, efallai y bydd rhywfaint o waith tuag at hyn yn cael ei wneud yn ôl yr angen yn rhan o'r broses o adeiladu'r system recriwtio newydd.

Mae agweddau allweddol o'r cynllun recriwtio sydd wedi'u rhoi ar waith yn cynnwys y wefan recriwtio/microwefan yn mynd yn fyw a recriwtio Swyddog Graddedig i arbenigo mewn marchnata recriwtio i sicrhau bod rhagor o bobl yn gwybod am swyddi gweigion. Bydden nhw'n cefnogi meysydd gwasanaeth gyda marchnata recriwtio, gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer hysbysebu a hyrwyddo, ynghyd â datblygu brand cyflogwr cryf i ddenu ymgeiswyr.

Mae cynlluniau peilot eraill sy'n ymwneud â'r cynllun wedi cael rhywfaint o lwyddiant, er enghraifft cynnal rhagor o gyfweliadau ymadael yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant i helpu i gasglu data i helpu i gadw staff ac ymgyrch farchnata ddiweddar a roddwyd ar waith ym mis Mawrth 2022, dan arweiniad Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant i recriwtio gweithwyr cymdeithasol.

**Gweithred 2 - Yn rhan o'r adolygiad o dai wedi'u haddasu, argymell bod y Cyngor yn ymrwymo i gynyddu nifer y cartrefi hygyrch a chartrefi sydd wedi'u haddasu sy'n cael eu hadeiladu yn yr ardal ar draws pob daliadaeth.**

Mae'r Adolygiad o Dai wedi'u Haddasu yn rhoi datganiad sefyllfa ar y gwasanaethau presennol a ddarperir neu a alluogwyd gan y Cyngor mewn perthynas â thai wedi'u haddasu a darparu addasiadau. Mae Adolygiad drafft RhCT yn gwneud nifer o argymhellion gyda'r nod o gynyddu'r cyflenwad o gartrefi wedi'u haddasu a thai hygyrch sy'n cael eu hadeiladu ar draws pob deiliadaeth. Mae hyn yn cynnwys archwilio cyfleoedd i ddarparu llety wedi'i addasu ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae hyn yn golygu gweithio'n agos gyda datblygwyr preifat i ddeall y rhwystrau sy'n bodoli wrth ddatblygu byngalos wedi'u haddasu ar ddatblygiadau tai preifat a gweithredu Canllawiau Cynllunio Atodol newydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i rywfaint o dai preifat gael eu haddasu neu i fod yn hygyrch. Mae'r adolygiad hefyd yn argymell gosod targed lleol ar gyfer nifer y tai wedi'u haddasu sy'n cael eu hadeiladu bob blwyddyn yn y fwrdeistref, yn ogystal â gofyn am fyngalos Perchentyaeth Cost Isel yn rhan o'r cyfraniad tai fforddiadwy. Bydd Adolygiad o Dai Addasedig RhCT yn cael ei gwblhau yn ystod haf 2022.

**Cam Gweithredu 3 - Rhoi'r prosiect Datblygu, Buddsoddi a Thyfu ar waith i wella deilliannau llesiant a chydraddoldeb ac amrywiaeth mewn dros 100 o fentrau bach a chanolig (BBaCh) yn Rhondda Cynon Taf.**

Mae Cadw'n Iach yn y Gwaith (a arferai gael ei alw'n Datblygu Buddsoddi a Thyfu) dan arweiniad RhCT yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru a'i nod yw rhoi cymorth i fusnesau bach a'u gweithwyr. Mae'r gefnogaeth yn cael ei chynnig yn rhad ac am ddim, ac mae'n canolbwyntio ar ystod bwrpasol o wasanaethau i wella iechyd a lles gweithwyr ac i helpu busnesau i reoli gweithwyr ag anableddau/cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio.

Ceisiodd y Prosiect ail-broffilio yn gynnar oherwydd oedi cychwynnol wrth ei gychwyn ac roedd hyn i'w ystyried yn dilyn cyfnod o 12 mis er mwyn caniatáu amser i'r Prosiect adfer yn unol â'r targedau y cytunwyd arnynt.

Ym mis Chwefror 2020 effeithiwyd ar Rondda Cynon Taf gan Storm Dennis ac ym mis Mawrth 2020, creodd y pandemig Covid byd-eang heriau digynsail ac o ganlyniad uniongyrchol bu oedi pellach gyda phob cais i ail-broffilio.

O ganlyniad, mae'n amlwg na fydd y Prosiect yn adfer i'r fath raddau fel ei fod yn unol â chynllun busnes cymeradwy'r Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ac felly mae asesiadau o’r effaith ariannol rhagarweiniol wedi'u cwblhau'n fewnol gan y Cyngor.

O ystyried hyn, cynigiwyd strwythur a model cyflawni newydd a oedd yn ceisio cyflawni’r newid yn y gwasanaeth a’r allbynnau diwygiedig yng ngoleuni’r pandemig Covid parhaus a’r effaith a gafodd ar allu’r prosiectau i ymgysylltu a chyflawni targedau’r prosiect.

- Rhoddwyd adolygiad gwasanaeth ar waith o 2 Ebrill 2021.
- Symudwyd yr holl weithrediadau i gyfuniad o amgylchedd rhithwir, adeiladu RhCT a hybiau cymunedol ar gyfer eu cyflawni.
- Mae apwyntiadau cyfranogwyr cyflogedig yn parhau i gael eu darparu trwy lwyfannau fideo a thros y ffôn, lle mae mynediad digidol cleientiaid yn gyfyngedig.
- Mae ymyriadau wyneb yn wyneb cyfranogwyr cyflogedig wedi parhau ac wedi cynyddu ers mis Ebrill ac wrth i gyfyngiadau leddfu.

**<u>Y deilliannau a gyflawnwyd</u>**

Yn ystod y prosiect, hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022, mae 120 o gyfranogwyr Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) wedi cofrestru ar gyfer y prosiect, mae 104

wedi bod trwy wiriadau cydymffurfio mewnol ac yn gymwys ar gyfer y prosiect, doedd 16 ddim yn cydymffurfio ac felly'n anghymwys ar gyfer y prosiect.

Derbyniodd 72 o'r BBaChau gymorth uniongyrchol gan y prosiect hyd at 31 Mawrth 2022, i annog newid diwylliannol mewn sefydliadau tuag at weithlu mwy amrywiol ac iach a mabwysiadu arferion gweithio hyblyg.

Cafodd cyflogwyr eu cefnogi i wella hyblygrwydd yn y gweithle a'u hannog i fabwysiadu arferion gwaith hyblyg, yn ogystal â mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro. Mae gweithgareddau gyda chyflogwyr yn cynnwys hyrwyddo'r buddion y gall gweithle iach eu cynnig i sefydliad, mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag iechyd o fewn y gweithlu a datblygu neu wella rhaglenni iechyd galwedigaethol neu weithle priodol.

Dangosir yn y siart isod (Tabl 1a) y gweithgareddau a gyflawnwyd gyda BBaChau hyd yma sydd wedi bod trwy wiriadau cydymffurfio mewnol ac sydd wedi mabwysiadu neu wella eu strategaethau ac/neu eu systemau monitro.

Mae 72 o fusnesau wedi cwblhau'r prosiect ac wedi cofnodi deilliannau yn erbyn dangosyddion y prosiect. O'r rhain gadawodd 29 yn gynnar, ac mae 3 yn dal i gymryd rhan weithredol yn y prosiect.

**Tabl 1a**

| | |
|---|---|
| 01. Mabwysiadu neu wella Polisi AD ac Iechyd a Diogelwch sy'n cefnogi ac yn monitro presenoldeb a lles yn y gweithle. | 42 |
| 02.Mabwysiadu neu wella Polisi Rheoli Absenoldeb | 30 |
| 03. Mabwysiadu neu wella Polisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac/neu weithdrefnau sydd ar waith sy'n cyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010 | 42 |
| 04: Mabwysiadu neu wella systemau a/neu weithdrefnau sy'n cefnogi hyblygrwydd yn y | 7 |
| 05. Mabwysiadu neu Wella Asesiadau a/neu Systemau Monitro sydd ar waith i gefnogi Iechyd a Lles y Staff? | 5 |
| 06. Mabwysiadu neu wella polisi, gweithdrefn neu ymyriad sy'n cefnogi iechyd, gwaith a lles gweithwyr. | 45 |
| 07. Ydy'r busnes wedi mabwysiadu neu wella systemau i fonitro effaith gwaith ar iechyd, er e.e. asesiad ergonomig, gwyliadwriaeth iechyd)? | 2 |
| 08. Oes gan y busnes bellach hyfforddiant ar waith i hybu ymwybyddiaeth iechyd a lles ? | 14 |
| Wedi gadael yn gynnar | 29 |
| Dim Deilliant wedi'i Gofnodi Eto | 3 |

**Rhaglenni Iechyd yn y Gweithle**

Cynhaliwyd cyfanswm o 14 o raglenni iechyd yn y gweithle rhithwir a sesiynau a gweithdai hyfforddiant ymwybyddiaeth yn ystod y cyfnod yma. Roedd y rhain yn cynnwys pynciau fel Iechyd a Lles, Byw a Gweithio gyda'r Menopos a Chynnal Ymchwiliadau yn y Gweithle.

**Gweithgarwch Cyfranogwyr sy'n Gyflogeion**

Mae’r cymorth a gynigiwyd i gyfranogwyr wedi bod yn fwy cyfannol ac yn parhau i fod felly, yn fwy manwl a thros gyfnod hwy o amser na’r disgwyl. O ganlyniad i hyn, mae’r effaith ar gyfranogwyr wedi bod yn fwy pellgyrhaeddol ac yn debygol o fod yn fwy hirhoedlog.

Cynlluniwyd y prosiect i gefnogi cyflyrau ysgafn/cymedrol megis gorbryder. Serch hynny, mewn gwirionedd, wrth i'r prosiect gael ei gyflwyno daeth yn amlwg yn gyflym fod cyfranogwyr wedi cyflwyno materion llawer mwy cymhleth na'r disgwyl ac mae'r ymyriadau a ddarparwyd gan y garfan glinigol wedi ymateb i'r angen yma.

O ganlyniad, mae hyd cyfnod ymyrraeth y cleient yn parhau i fod yn hirach. Rhagwelwyd y bydd y prosiect yn darparu ymyriadau tymor byr, ond mae llawer wedi ymgysylltu dros y tymor hwy ac wedi cyrchu ymyriadau lluosog i ymdrin â gwahanol faterion.

Yn ystod y prosiect, hyd at 31 Mawrth 2022, mae 444 o gyfranogwyr sy'n gyflogeion wedi cofrestru gyda'r prosiect.

Mae 329 o gyfranogwyr sy'n gyflogeion wedi cymryd rhan yn y prosiect hyd yma. O'r rheini, cwblhawyd gwiriadau dilysu mewnol ac mae 192 wedi dychwelyd i'r gwaith, mae 100 wedi parhau i weithio. O'r 63 a adawodd yn gynnar, ar y cyfan cafodd gwaith ymyrraeth ei gynnal ac fe wnaeth cyfranogwyr ddychwelyd i'r gwaith neu aros yn y gwaith ond heb gwblhau'r gwaith papur ar ddiwedd y prosiect. Mae'r rhesymau dros atgyfeirio i'w gweld isod yn Nhabl 1b ac mae dadansoddiad o'r deilliannau a gofnodwyd i'w gweld yn Nhabl 1c.

Fe nododd 18% o gyfranogwyr sy'n gyflogeion anabledd ac fe nododd 82% gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.

**Tabl 1b Rheswm dros Atgyfeirio**

| **Rheswm** | **Cyfranogwyr** | **%** |
|---|---:|---:|
| Cymorth yn y Gwaith | 125 | 38% |
| Cymorth i Ddychwelyd i'r Gwaith -28 Diwrnod | 43 | 13% |

| | | |
|---|---|---|
| Cymorth i Ddychwelyd i'r Gwaith 28+ Diwrnod | 161 | 49% |
| **Cyfanswm** | 329 | 100% |

**Tabl 1c Deilliant**

| **Deilliant** | **Cyfranogwyr** | **%** |
|---|---|---|
| Wedi gadael yn gynnar | 63 | 19% |
| Heb Ddychwelyd i'r Gwaith 4 wythnos ar ôl cwblhau | 18 | 5% |
| Wedi Aros yn y Gwaith | 100 | 30% |
| Dychwelyd i'r Gwaith - Gwahanol | 3 | 1% |
| Dychwelyd i'r Gwaith - Yr un peth | 142 | 43% |
| Dychwelyd i'r Gwaith 4 wythnos ar ôl cwblhau | 3 | 1% |
| **Cyfanswm** | 329 | 100% |

**Tabl 1d - Crynodeb o Nodweddion**

| | **2021-2022 Cyfanswm cronnus** | |
|---|---|---|
| **Dadansoddiad o Gyfranogwyr** | **Cyfanswm** | **%** |
| Anabl/Anabledd | 70 | 17.3% |
| Cyflwr sy'n Cyfyngu ar Allu i Weithio (gan gynnwys MSD a phroblemau iechyd meddwl) | 334 | 82.7% |
| Benyw | 310 | 76.7% |
| Gwryw | 94 | 23.3% |
| Cyfrifoldebau Gofalu/Plant | 116 | 28.7% |
| Dros 54 | 158 | 39.1% |
| Mudwr/Ddim o'r UE | 0 | 0.0% |
| Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig | 4 | 1% |
| Cyfanswm yr Atgyfeiriadau | **404** | **100%** |

**Cam Gweithredu 4 - Darparu gwybodaeth hygyrch i'r cyhoedd trwy amrywiaeth o fformatau gan ganolbwyntio'n benodol ar wella sut mae unigolion byddar a thrwm eu clyw yn cael gafael ar wybodaeth.**

Rydyn ni'n cynnig mynediad aml-sianel at wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor. Caiff hyn ei darparu drwy ystod o fformatau a chyfleusterau, gan gynnwys:

- Rhif Ffôn Testun/Llinell Cymorth Synhwyraidd wedi'i hyrwyddo drwy ein gwefan
- Cyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gael i fynychu apwyntiadau IBobUn
- dolen glyw ar waith wrth ddesgiau apwyntiadau IBobUn
- Ymholiadau wedi'u derbyn drwy'r Gwasanaeth Cyfnewid Testun

- Deunydd ar gael mewn fformatau amgen e.e. ffurflenni cais, dogfennau ymgynghori
- Browsealoud ar gael ar ein gwefan, yn darparu offer hygyrchedd fel:

  - Testun i lais (darllen yn uchel)
  - Masg sgrin
  - Chwyddhadur testun
  - Symleiddiwr tudalennau'r we
  - Gwneuthurwr MP3 (trosi cynnwys ar-lein i sain)
  - Geiriadur lluniau

Yn ystod 2021-2022 parhaodd y gwaith tuag at fodloni safonau hygyrchedd y we Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We (WCAG) 2.1.

**Cam Gweithredu 5 - Datblygu'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol yn rhan o'r Strategaeth Ddigidol.**

Drwy ein Strategaeth Ddigidol rydyn ni'n ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n gwbl gynhwysol, yn hawdd eu defnyddio ac nad oes unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan yn cael ei adael ar ôl. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Cymru sy'n fwy cyfartal yn sbardun allweddol ar gyfer cynhwysiant digidol.

Rydyn ni'n darparu cyfleoedd i bobl yn ein cymunedau a'n sefydliad i ddatblygu eu cymhwysedd digidol, eu hyder a, lle bo angen, rhoi mynediad at gymorth digidol cynorthwyol, fel eu bod nhw mewn gwell sefyllfa i gael mynediad at dechnoleg a'i defnyddio mewn modd cynhyrchiol. Byddwn ni'n rhoi cymorth i bawb ddod yn fwy hyderus i ddefnyddio technoleg mewn modd diogel a mabwysiadu ffyrdd newydd o gyflawni pethau'n effeithiol.

Er enghraifft:

- Gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf Morgannwg gyda datrysiad digidol i reoli atgyfeiriadau.

- Rhoi ffordd fwy cydgysylltiedig ar waith er mwyn i fusnesau gyflwyno cais ar gyfer grantiau busnes a darparu tystiolaeth ar eu cyfer.

- Yn rhan o Brosiect Trawsnewid digidol 'Hwb' Llywodraeth Cymru, gwneud yn siŵr bod modd i bob ysgol gyflawni'r gofynion ar gyfer sgiliau digidol sydd wrth wraidd y cwricwlwm newydd drwy osod systemau ac offer TG newydd, gan roi cymorth parhaus o ran strategaeth ddigidol yr ysgolion.

- Cefnogi’r agenda sgiliau digidol a chynhwysiant, gyda TGCh a Digidol yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi mentrau allweddol fel Digital Bitesize, Dydd Gwener Digidol a Defnyddio'r Rhyngrwyd yn RhCT.

- Cefnogi mynediad i adnoddau digidol - mae cysylltiad diwifr cyhoeddus am ddim ar gael mewn tua 90 o adeiladau'r Cyngor ac adeiladau cymunedol a hefyd yn ein Canol Trefi allweddol. Mae cyfrifiaduron mynediad cyhoeddus ar gael mewn sawl lleoliad fel Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden a Chanolfannau Cymuned. Cafodd pob cyfrifiadur yn y Llyfrgelloedd eu hadnewyddu gyda dyfeisiau newydd yn ystod 2021-2022.

- Mae ein gwefan yn cael ei haddasu’n barhaus i fodloni safonau hygyrchedd, gan gynnwys cefnogi’r rhai sydd â nam ar eu golwg, sganio'r cynnwys am wallau a llunio adroddiadau i hwyluso'r gwaith cywiro. Mae'r gwaith i sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio â Chanllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We (WCAG) 2.1 AA yn mynd rhagddo hefyd. Mae sgôr hygyrchedd ein gwefan Corfforaethol wedi cynyddu o 68% i 86% yn 2021 ac i 96% yn 2022. Mae'r holl gynnwys newydd yn cael ei werthuso i sicrhau bod safonau hygyrchedd yn cael eu bodloni cyn ei ryddhau.

**Cam Gweithredu 6 - Cryfhau'r prosesau Ceisio Cartref (Homefinder) presennol fel eu bod yn ystyried arfer gorau mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth.**

Bydd y cam gweithredu yma'n cael sylw yn rhan o'r Adolygiad o'r Cynllun Dyrannu. Bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu i ystyried Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Bydd y grŵp yma'n adolygu’r rhaglen bresennol i sicrhau ei fod yn hygyrch a bod y data sy'n cael ei gasglu yn llywio arfer gorau.

**Cam Gweithredu 7 - Datblygu ymhellach dull cynhwysol tuag at brentisiaethau.**

Mae ein **cynllun prentisiaeth** wedi ennill gwobrau. Rydyn ni wedi addasu a newid ein hasesiadau prentisiaid i gynnwys dull 2 lefel, gan roi cyfle cyfartal i unigolion ag anghenion dysgu gwahanol ac yn unol â’r swydd maen nhw'n gwneud cais amdani. O ganlyniad rydyn ni wedi penodi nifer o brentisiaid ag anghenion ychwanegol.

Porth i Gyflogaeth

Mewn partneriaeth â Choleg y Cymoedd ac Elite – rydyn ni wedi gweithio gydag unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion corfforol gan ddarparu lleoliadau cefnogol o fewn y Cyngor. Mae 6 unigolyn ar leoliad o fewn y Cyngor ar hyn o bryd. Mae 1 wedi sicrhau swydd o fewn Cyngor RhCT ac mae 1 wedi sicrhau cyflogaeth gyda sefydliad preifat.

Mynediad at Gyflogaeth

Dyma raglen sydd â statws cyflogedig am 12 mis ar gyfer unigolion sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad waith. Mae 8 unigolyn wedi ymgysylltu â'r rhaglen, mae 4 wedi sicrhau cyflogaeth gyda'r Cyngor ac mae 4 yn dal i fod ar y rhaglen.

Camu i'r Cyfeiriad Cywir

Dyma raglen hyfforddeiaeth 2 flynedd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

2021–2022:

- Dechreuodd 11 o hyfforddeion ar y rhaglen
- 5 Deilliant o gyflogaeth (3 gyda Chyngor RhCT a 2 gyda chyflogwr allanol)
- Ymrwymodd 10 hyfforddai â'r hyfforddiant a'i gwblhau'n llwyddiannus

GofaliWaith

Dyma raglen ymgysylltu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal:

- 136 o atgyfeiriadau
- 22 wedi sicrhau cyflogaeth
- 10 wedi cwblhau'r hyfforddiant
- 4 wedi dechrau gwirfoddoli

Kickstart

Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau i gydlynu lleoliadau Kickstart mewnol Cyngor RhCT. Cafodd y cynllun Kickstart ei ariannu gan y llywodraeth a'i nod oedd rhoi cyfle i bobl ifainc rhwng 16 a 24 oed a oedd mewn perygl o ddod yn ddi-waith am gyfnod hir, i gael 6 mis o brofiad gwaith â thâl.

Deilliannau:

- Wedi cyfweld â dros 100 o ymgeiswyr cymwys
- Wedi sefydlu 40 o gyfleoedd lleoliad gyda Chyngor RhCT
- Wedi llwyddo i recriwtio 23 o weithwyr Kickstart

- Hyd yma mae 50% o'r unigolion a ddechreuodd ar y cynllun wedi sicrhau cyflogaeth.

Porth Cyflogaeth, Intern â Chefnogaeth y Flwyddyn 2021 - YouTube

**Cam Gweithredu 8 - Cryfhau'r broses graffu ar gyfer y broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb.**

Cafodd y ddogfen Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ei hadolygu i ystyried gofynion y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol. Yn rhan o'r adolygiad yma roedd cyfle i gryfhau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Cafodd dull cyfunol ei ddefnyddio i ail-lansio canllawiau'r asesiad effaith. Yn ogystal, cafodd proses newydd 'Y Panel Adolygu' ei sefydlu er mwyn cryfhau'r gwaith o graffu ar asesiadau o'r effaith a gwblhawyd.

Mae uwch swyddogion o bob rhan o'r Cyngor yn eistedd ar y Panel Adolygu i adolygu'r asesiad effaith, gan wirio bod data a thystiolaeth berthnasol wedi'u defnyddio i lywio penderfyniadau. Cafodd 7 Panel Adolygu eu cynnal yn ystod 2021-2022 gan adolygu nifer o strategaethau lefel uchel gan gynnwys y Strategaeth Ddigidol a'r Cynllun Strategol Addysg. Mae adborth gan y Paneli Adolygu wedi bod yn gadarnhaol gan alluogi cyfleoedd i rannu dysg ac arfer da.

**Cam Gweithredu 9 - Annog pobl i fanteisio ar yr hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim drwy adolygu modelau darparu gwasanaeth a chael strategaeth farchnata effeithiol.**

Mae holl dudalennau gwe'r Gwasanaethau Arlwyo wedi'u diweddaru i annog y rheiny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim (eFSM) i fanteisio ar yr hawl, gyda hyperddolenni sy'n ei gwneud hi'n hawdd gwneud cais. Mae carfan cyfryngau'r Cyngor wedi rhannu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn annog pobl i fanteisio ar eFSM.

Mae bwydlenni cinio ysgol wedi'u haddasu i annog mwy o bobl i fanteisio arnyn nhw drwy ehangu'r dewis i apelio at bob chwaeth – mae hyn yn cynnwys dewisiadau 'codi a mynd' ac opsiynau llysieuol. Mae dietau arbennig pwrpasol wedi'u llunio i sicrhau nad yw disgyblion sy'n gymwys i am brydau ysgol am ddim sydd â gofynion dietegol penodol o dan anfantais ac yn methu â manteisio ar y pryd bwyd. Mae pwysigrwydd diogelu anhysbysrwydd wedi'i atgyfnerthu drwy holl weithlu'r Gwasanaethau Arlwyo, ac mae hyn yn helpu i chwalu rhwystrau/stigma o ran gwneud cais.

**Cam Gweithredu 10 - Defnyddio dull strategol wrth ystyried canol ein trefi, a fydd yn elwa ar fuddsoddiad er mwyn sicrhau amgylchedd deniadol a hygyrch i fusnesau lleol, siopwyr, trigolion ac ymwelwyr.**

Mae Cynllun Darparu Gwasanaeth y Gyfadran Ffyniant a Datblygu yn nodi nifer o flaenoriaethau gwasanaeth allweddol ar gyfer 2021-20221, ac roedd un o'r rhain yn cynnwys:

**Moderneiddio canol ein trefi** er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ganolfannau i'r gymdeithas fod yn rhan ohonyn nhw, yn llefydd i gyfleoedd ar gyfer yr economi leol fodoli ac i wasanaethau gael eu darparu. Trwy gydnabod eu rôl newidiol o ganolfannau manwerthu i gyrchfannau cymdeithasol a'u helpu i addasu i newidiadau o ran disgwyliadau economaidd a disgwyliadau cwsmeriaid.

Drwy gefnogi cyflawniad gweithgarwch economaidd lleol wrth hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, mae'r Cyngor wedi parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth o grwpiau a rhanddeiliaid wrth gyflawni prosiectau a mentrau newydd ar draws canol ein trefi, ac wedi ceisio eu barn ar roi mesurau priodol ac amserol ar waith.

1. Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad anffurfiol cynnar i helpu i lywio Strategaeth Adfywio ddrafft ar gyfer Canol Tref Aberdâr. Roedd yr ymarfer yn ceisio barn a safbwyntiau ystod eang o randdeiliaid o ganol tref Aberdâr a'r cymunedau ehangach y mae'n eu gwasanaethu. Wrth nodi a diffinio cryfderau, gwendidau a chyfleoedd y dref a thynnu ar wybodaeth leol, mae gwaith ymgysylltu o'r fath yn sicrhau bod gan bobl leol gyfle i lunio a rhoi canolbwynt i ymyraethau sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio arnyn nhw fwyaf. Mae cymryd rhan yn gynnar yn y broses hefyd yn helpu i feithrin ymdeimlad o berchnogaeth leol ac ymrwymiad i roi'r Strategaeth ar waith yn llwyddiannus.

2. Cynhaliodd y Cyngor ymarfer cynhwysfawr i "Ymgysylltu â'r Gymuned yn y Porth" er mwyn archwilio'r potensial ar gyfer camau gweithredu cydweithredol rhwng busnesau a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y Cyngor, sefydliadau diwylliannol a chymunedol, defnyddwyr canol y dref a pherchnogion eiddo. Roedd yr ymarfer yn archwilio dull adfywio cymdeithasol a diwylliannol sy'n cefnogi Strategaeth Adfywio bresennol Canol Tref y Porth, sy'n canolbwyntio fwy ar elfennau ffisegol ac a gafodd ei fabwysiadu gan y Cyngor yn 2018, er mwyn darparu dull adfywio sy'n canolbwyntio ar elfennau mwy cyfannol. Drwy'r ymarfer mae grŵp rhanddeiliaid newydd "Cyfle Porth" wedi'i sefydlu a chyfres o gerrig milltir wedi'u nodi i lywio blaenoriaethau'r grŵp yn y dyfodol a fydd o fudd i'r dref a'r cymunedau ehangach y mae'n eu gwasanaethu.

3. Cynhaliodd y Cyngor gyfres o achlysuron y Nadolig ym mhump o'i wyth canol tref, yn ogystal â chydweithio ag Ardaloedd Gwella Busnes a Chynghorau

Tref a Chymuned i gynnal achlysur yn y tri chanol tref sy'n weddill. Roedd yr achlysuron yn rhoi cyfle fforddiadwy i unigolion a theuluoedd ddathlu'r Nadolig, ac yn dod â mwy o ymwelwyr i'r canol trefi i gefnogi busnesau lleol. I gefnogi'r achlysuron, roedd parcio am ddim ym mhob un o feysydd parcio canol tref y Cyngor. Daeth llawer o bobl i'r achlysuron ac roedd yr ymateb yn gadarnhaol.

4. Mae'r Cyngor wedi parhau i gydweithio â grwpiau busnes a rhanddeiliaid eraill i gyflwyno amrywiaeth o brosiectau ac achlysuron i'r gymuned yng nghanol ein trefi. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio ar y cyd ag Ardal Gwella Busnes Caru Aberdâr i gyflwyno rhaglen yr haf o weithgareddau ledled canol tref Aberdâr a chydag Ardal Gwella Busnes Caru Treorci i gyflwyno Gŵyl Fwyd a Diod gyntaf y dref. Mae prosiectau ychwanegol wedi cyflwyno arddangosfeydd blodau tymhorol yng nghanol y dref, fideos hyrwyddo a goleuadau Nadoligaidd.

5. Gweithiodd carfan Canol Trefi a charfan Materion Addysg, Cyflogaeth, a Hyfforddiant y Cyngor ar y cyd ag Ardal Gwella Busnes Caru Treorci i gyflwyno rhaglen beilot a ddarparodd nifer o gyfleoedd lleoliad gwaith i Blant sy'n Derbyn Gofal ledled canol tref Treorci. Roedd yr ymateb i'r rhaglen, sy'n cefnogi ymrwymiad y Cyngor fel Rhiant Corfforaethol, yn gadarnhaol a chafwyd llawer o fanteision i'r bobl ifainc a'r busnesau a gymerodd ran. Bydd y rhaglen yn cael ei hymestyn i ganol trefi eraill yn 2023.

## AMCAN 3 – HYRWYDDO CYMUNEDAU DIOGEL

O fewn yr amcan cydraddoldeb yma mae nifer o feysydd y mae angen gweithredu arnyn nhw. Amlinellir y cynnydd tuag at y camau yma isod.

### Cam Gweithredu 1 - Adolygu, datblygu ac ail-weithredu'r Strategaeth Troseddau Casineb.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn diffinio Trosedd Casineb fel hyn:

> "*'hate crime' can be used to describe a range of criminal behavior where the perpetrator is motivated by hostility or demonstrates hostility towards the victim's disability, race, religion, sexual orientation or transgender identity.*
>
> *These aspects of a person's identity are known as 'protected characteristics'. A hate crime can include verbal abuse, intimidation, threats, harassment, assault and bullying, as well as damage to property. The perpetrator can also be a friend, carer or acquaintance who exploits their relationship with the victim for financial gain or some other criminal purpose."*

Yn ystod 2021, cafodd 686 trosedd casineb eu cofnodi yn ardal Cwm Taf (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful). Mae’r tablau isod yn nodi'r dadansoddiad ar draws y 5 nodwedd, ardal a mis:

**Tabl 1a. Troseddau Casineb fesul nodwedd**

| | |
|---|---|
| Anabledd | 84 |
| Hil | 332 |
| Crefydd | 47 |
| Cyfeiriadedd rhywiol | 182 |
| Trawsryweddol | 38 |

**Tabl 1b. Troseddau Casineb fesul ardal**

| | |
|---|---|
| Cwm Rhondda | 198 |
| Cwm Cynon | 150 |
| Taf-elái | 167 |
| Merthyr Tudful | 171 |

**Tabl 1c. Troseddau Casineb fesul mis (2019)**

| | |
|---|---|
| Ionawr | 27 |
| Chwefror | 43 |
| Mawrth | 49 |
| Ebrill | 53 |
| Mai | 45 |
| Mehefin | 79 |
| Gorffennaf | 77 |
| Awst | 41 |
| Medi | 44 |
| Hydref | 48 |
| Tachwedd | 65 |
| Rhagfyr | 39 |

**Mynd i'r afael â Throseddau Casineb yn Rhondda Cynon Taf**

Rydyn ni wedi parhau i weithio'n agos gydag asiantaethau partner gan gynnwys Heddlu De Cymru. Wrth i ni gynyddu ein gwaith ar y cyd, mae wedi ein galluogi i sicrhau bod trigolion yn cael ymateb cadarnhaol a chyson. Cafodd y Strategaeth Troseddau Casineb ei hadnewyddu a’i datblygu i adlewyrchu’r newid mewn dull yr oedd yn rhaid ei roi ar waith yn ystod y pandemig. Mae'r Strategaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd i adlewyrchu ffyrdd cyfredol o weithio (wedi'r pandemig).

**Cam Gweithredu 2 - Adolygu'r dull presennol o fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern.**

Mae grŵp Caethwasiaeth Fodern Cwm Taf Morgannwg wedi'i sefydlu. Yn flaenorol roedd agenda caethwasiaeth fodern yn rhan o'r Grŵp Troseddau Cyfundrefnol Difrifol, sy'n rhan o strwythur cyfarfodydd y Bartneriaeth Cymunedau Diogel. Ar hyn o bryd mae adolygiad parhaus o Fwrdd Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf Morgannwg y byddai'r grŵp yma yn rhan ohono.

**Cam Gweithredu 3 - Yn rhan o Strategaeth Llesiant yr Adran Addysg, byddwn ni'n datblygu rhaglen i ysgolion ynghylch codi ymwybyddiaeth o gam-drin emosiynol mewn perthynas.**

Mae'r Uwch Seicolegydd Addysg dros Les yn gweithio gyda Barnardos, yr Heddlu a chynrychiolwyr o'r byd Addysg i ddatblygu rhaglen o gymorth ar gyfer ysgolion. Bydd gwaith datblygu'r prosiect yn parhau'r flwyddyn nesaf.

**Cam Gweithredu 4 - Treialu model PERMA mewn ysgolion uwchradd.**

Wedi'i ymgorffori mewn Seicoleg Gadarnhaol, mae model PERMA Seligman yn cael ei gynnig yn fframwaith effeithiol ar gyfer deall a hyrwyddo lles. Ar ben hynny, mae offer PERMA yn cael eu cynnig yn fesurau hawdd eu deall sydd â modd asesu dimensiynau lles amrywiol disgyblion a chyfrif am y ffaith fod lles yn codi a gostwng dros amser.

Yn ôl model PERMA Seligman:

- Mae **Emosiynau Cadarnhaol (Positive Emotions)** yn cyfeirio at deimladau o hapusrwydd hedonig (h.y. teimlo'n llawen, yn fodlon, ac yn hwyliog).
- Mae **Ymgysylltu (Engagement)** yn cyfeirio at y cysylltiad seicolegol â gweithgareddau neu sefydliadau (e.e. bod â diddordeb, bod wedi llwyrfeddiannu ac wedi ymgysylltu â bywyd).
- Mae **Perthynas (Relationships)** yn cynnwys teimlo'n integredig yn gymdeithasol, teimlo bod eraill yn gofalu amdanoch chi ac yn eich cefnogi, a theimlo'n fodlon â'ch cysylltiadau cymdeithasol.
- Mae **Ystyr (Meaning)** yn cyfeirio at y gred bod eich bywyd yn werthfawr i chi, a theimlo bod cysylltiad gyda chi â rhywbeth sy'n fwy na chi.
- Mae **Cyflawniad (Accomplishment)** yn golygu gwneud cynnydd tuag at eich amcanion, teimlo bod modd i chi ymgymryd â gweithgareddau dyddiol, a meddu ar ymdeimlad o gyflawniad.

Mae Seligman yn cynnig bod y pum piler yma yn cyfrannu at les unigolion.

Mae'r offeryn PERMA bellach yn cael ei ddefnyddio mewn 95 o ysgolion yn RhCT ac mae diweddariadau diweddar wedi galluogi ysgolion i greu grwpiau lles pwrpasol a hefyd i ddefnyddio "traciwr hwyliau" i fonitro newidiadau emosiynol mewn disgyblion dros amser.

**Cam Gweithredu 5 - Cryfhau sut mae data ar gyfer achosion o fwlio mewn ysgolion yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi.**

Mae Polisi Gwrth-fwlio'r garfan Cynhwysiant a Mynediad wedi'i ddiwygio yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, Hawliau, Parch a Chydraddoldeb. Mae polisi RhCT sydd wedi'i ddiweddaru yn egluro ac yn cryfhau disgwyliadau a gweithdrefnau mewn perthynas â chasglu data a dadansoddi bwlio – yn enwedig mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig. Dyma gyfrifoldebau'r awdurdod lleol yn y canllawiau diwygiedig:

- Gwerthuso'r data gan ysgolion, nodi patrymau a rhoi gwybodaeth i ysgolion er mwyn sicrhau eu bod wedi paratoi i ymateb i unrhyw dueddiadau.
- Canolbwyntio'n benodol ar gofnodi achosion sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn gywir er mwyn gallu monitro patrymau ac atal gwahaniaethu er mwyn sicrhau cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.
- Monitro data cydraddoldeb a rhoi cyngor i ysgolion ar dueddiadau lleol.

Rydyn ni'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddarparu adroddiad o ddigwyddiadau bwlio i ni bob tymor. Rydyn ni'n monitro'r adroddiadau ac yn darparu cymorth ac yn herio ysgolion i fynd i'r afael â materion. Y cam nesaf yw rhoi hyfforddiant a chyngor i wella ymarfer. Ymhlyg yn y polisi sydd wedi'i ddiweddaru mae'r angen am weithdrefnau adolygu a monitro mwy rheolaidd yn yr ysgolion. Mae'r polisi wedi'i ddiweddaru yn darparu dogfen i bob ysgol ei defnyddio ar y system SIMS a fydd yn cefnogi'r gwaith o gasglu'r data angenrheidiol. Mae'r polisi'n datgan:

Dylai cyrff llywodraethu fonitro:

- trosolwg o gofnodion achosion o fwlio yn eu lleoliad er mwyn gweld pa mor hir, ar gyfartaledd, mae'n cymryd i ddatrys problemau
- y cyfraddau ailddigwydd
- os yw disgyblion sydd wedi adrodd am achosion o fwlio o'r farn eu bod wedi cael deilliant boddhaol
- os yw tueddiadau'n dod i'r fei neu grwpiau'n darged ar gyfer rhagfarn

- os oes achosion ar-lein sy'n awgrymu bod angen gwneud gwaith gyda'r disgyblion, rhieni/gwarcheidwaid a staff er mwyn mynd i'r afael â mathau newydd o fwlio
- cyfraddau absenoldebau
- bod y data sy'n cael ei gasglu'n aml ynglŷn ag achosion wedi'u hadrodd yn dangos cynnydd tuag at yr amcanion cydraddoldeb.

Rydyn ni wedi cynnal arolwg bwlio diweddar gyda 1850 o ddisgyblion oed uwchradd yn RhCT. Mae'r canfyddiadau'n cael eu dadansoddi a byddan nhw'n cael eu defnyddio i lywio camau gweithredu ledled yr Awdurdod.

**Cam Gweithredu 6 - Datblygu ymhellach y 'rhaglen ryddid' gyda Chymorth i Fenywod i ddeall yn well anghenion penodol y rheiny sydd wedi dioddef trais domestig ac sy'n perthyn i grwpiau sydd ddim wedi'u cynrychioli'n ddigonol.**

Mae nodi achosion o gam-drin domestig ar y cyfle cyntaf yn allweddol i gadw pobl yn ddiogel.
Mae ein cynllun yn darparu gwasanaeth hygyrch yn y gymuned leol i roi cymorth i'r rhai sydd wedi profi trais domestig neu sy'n ei brofi ar hyn o bryd ac sydd wedi'u nodi fel risg isel i ganolig trwy asesiad risg neu Hysbysiadau Diogelu’r Cyhoedd (PPN). Nod y rhaglen yw cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddioddefwyr trais domestig drwy roi strategaethau atal ac ymyrraeth gynnar ar waith. Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y cynllun yn meithrin gallu trwy gynyddu sgiliau'r defnyddiwr gwasanaeth i nodi'r arwyddion rhybudd cynnar o ymddygiadau camdriniol o fewn perthnasoedd presennol neu yn y dyfodol, cynyddu eu hyder a'u hunan-barch a lleihau unigedd.

| **Cwrs** | **Presenoldeb 2021-2022** |
|---|---:|
| Rhaglen Ryddid | 129 |
| Hope2Recovery | 40 |
| Lles | 23 |
| Pecyn cymorth adfer | 30 |

<u>Dioddefwyr gwrywaidd</u>

Daeth 907 o atgyfeiriadau i law ar gyfer y rhaglenni ond doedd dim llawer o atgyfeiriadau gan ddynion yn ystod y cyfnod 2021-2022. Cawson ni 15 o atgyfeiriadau gan ddynion, ond roedden nhw wedi'u cefnogi gan ein cynllun sydd wedi'i ariannu gan y loteri yng Nghwm Rhondda.

LHDTC

Cefnogodd y rhaglenni 35 o unigolion a oedd yn arddel hunaniaeth LHDTC+ yn ystod 2021-2022.

Un-i-un

Darparodd y Rhaglenni 527 o sesiynau cymorth dros y ffôn a 210 o sesiynau galw heibio / wyneb yn wyneb. Cafodd hyn ei darparu i unigolion yr oedd angen cymorth wedi'i deilwra arnyn nhw nad oedd yn cael ei ddarparu gan sesiynau grŵp.

Ar-lein

Cafodd grwpiau ar-lein eu rhoi ar waith yn ystod cyfyngiadau Covid a chyfyngiadau lleol ond bu'n ddull effeithiol o ymgysylltu â'r rhai ag iechyd meddwl gwael (pryder, iselder, agoraffobia) ac anableddau corfforol. Roedd cyrsiau hefyd yn lleihau costau teithio i fynychu grwpiau a materion gofal plant.

Deilliannau

- Dywedodd 100% eu bod nhw'n gallu adnabod yr arwyddion rhybudd cynnar o ymddygiad camdriniol a'u bod nhw'n teimlo fod ganddyn nhw mwy o allu i gadw'n ddiogel yn eu perthnasoedd.
- Dywedodd 100% eu bod nhw'n teimlo mwy o hyder yn eu gallu i greu amgylchedd diogel iddyn nhw eu hunain a'u teulu.
- Dywedodd 75% eu bod nhw'n gwybod mwy am yr asiantaethau priodol y gallen nhw gael cymorth oddi wrthyn nhw ar gyfer eu lles emosiynol a chorfforol.
- Dywedodd 95% eu bod nhw'n teimlo bod eu hyder a'u hunan-barch wedi cynyddu o ganlyniad i fynychu'r sesiynau.

## AMCAN 4 - LLEIHAU'R BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

O fewn yr amcan cydraddoldeb yma mae nifer o feysydd y mae angen gweithredu arnyn nhw. Amlinellir y cynnydd tuag at y camau yma isod.

### Y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Ystyr y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yw'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau cyflogaeth cyfartalog dynion a menywod mewn sefydliad. Mae modd ei gyfrifo drwy rannu cyfradd gyflog fesul awr gyfartalog menywod gyda chyfradd gyflog fesul awr gyfartalog dynion.

Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r bwlch cyflog rhwng gweithwyr sy'n ddynion ac yn fenywod. Yn ogystal â hynny, mae gofyn iddo gyhoeddi'r data yma ar wahân ar gyfer gweithwyr ym maes Addysg (staff addysgu).

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn awgrymu'n gryf y dylai sefydliadau gyhoeddi'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer staff llawn amser a staff rhan amser ar wahân. Mae unrhyw wahaniaeth o 5% neu fwy yn y bwlch cyflog yn cael ei ystyried yn wahaniaeth sylweddol, a bydd gofyn am ddadansoddi'r gwahaniaeth yma ymhellach.

Nododd yr Archwiliad Cyflogau Cyfartal y gwahaniaethau canlynol:

**2022**

| | Cyfun | Llawn amser | Rhan amser |
|---|---|---|---|
| Pob un o'r gweithwyr | 10.24% | -9.61% | 3.63% |
| Ddim yn Ymwneud ag Addysgu | 11.68% | -8.96% | 2.98% |
| Addysgu | 4.19% | 3.91% | 5.05% |

Ystyr cymedr y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yw'r gwahaniaeth rhwng cymedr y gyfradd fesul awr ar gyfer gweithwyr llawn amser perthnasol sy'n ddynion a chymedr y gyfradd fesul awr ar gyfer gweithwyr llawn amser perthnasol sy'n fenywod. Mae ffigur positif yn dangos bod gwahaniaeth sy'n ffafriol i weithwyr sy'n ddynion. Mae ffigur negyddol yn dangos bod gwahaniaeth sy'n ffafriol i weithwyr sy'n fenywod.

**Cam Gweithredu 1 - Cyflwyno'r broses o adolygu cyflawniad fesul cam ar gyfer staff ar bob gradd,** a
**Cam Gweithredu 2 - Gwella'r gwaith o fonitro'r broses adolygu cyflawniad.**

Mae'r broses adolygu cyflawniad bresennol wedi'i hadolygu. Wrth symud ymlaen, bydd y broses gorfforaethol yn cael ei gwella drwy sicrhau bod yr holl staff corfforaethol sydd wedi gweithio i'r Cyngor ers 12 mis neu ragor wedi cael adolygiad cyflawniad blynyddol. Doedd y dull blaenorol o gyflwyno'r adolygiad fesul haen staff ddim yn effeithiol oherwydd, yn weithredol, chafodd yr adolygiad ddim ei gyflwyno i'r holl staff.

Yn dilyn rhoi'r system AD/Cyflogres newydd ar waith, sef iTrent, bydd disgwyl i bob rheolwr gynnal adolygiadau gyda'u staff (yn unol â Pholisi Hyfforddi, Dysgu a Datblygu'r Cyngor) a chofnodi'r cydymffurfiad ar y system iTrent. Bydd hyn yn caniatáu monitro'r cydymffurfiad yn ganolog. Yn flaenorol, roedd meysydd gwasanaeth yn cynnal adolygiadau y tu hwnt i'r broses gorfforaethol ond doedd dim

mecanwaith canolog/corfforaethol i fonitro hyn. Bydd y cylch Adolygu Cyflawniad Unigol yn cyd-fynd â chylch Cyflawniad y Cyngor ac yn dechrau ar 1 Ebrill bob blwyddyn, gan ddod i ben ar 31 Mawrth. Rydyn ni'n rhagweld y bydd hyn yn cael ei gyflwyno o fis Ebrill 2023, unwaith y bydd system iTrent wedi'i sefydlu'n llawn ar draws y Cyngor.

Bydd canllawiau a thempledi ar gyfer yr Adolygiadau Cyflawniad Unigol yn cael eu llunio a byddan nhw ar gael system RCT Source y Cyngor. Bydd Templed Adolygu Cyflawniad Unigol Prif Swyddog a swyddogion Gradd 15 ar gael o hyd, a bydd gan staff eraill dempled mwy cyffredinol. Bydd hefyd hyfforddiant a sesiynau gwybodaeth i lansio'r broses well.

Mae staff AD yn ymgynghori â meysydd gwasanaeth allweddol ar hyn o bryd, gan ganolbwyntio ar wasanaethau rheng flaen (gan fod cymhareb uwch o staff i reolwyr a nifer o staff ddim ar e-bost), er mwyn deall eu hanghenion i'w cefnogi i gynnal adolygiadau ac i gynyddu ymgysylltiad.

**Cam Gweithredu 3 - Deall yn well a oes rhwystrau yn bodoli o ran menywod yn symud ymlaen i swyddi â mwy o gyfrifoldeb/â chyflog uwch.**

Cafodd ein rhaglen Arweinwyr sy'n Fenywod ei lansio a'i chyflwyno, sef cyfres o achlysuron â thema a thrafodaethau panel dilynol yn canolbwyntio ar bynciau penodol. Roedd thema i bob achlysur, gyda'r cynrychiolwyr yn dod i gydnabod y ‘normal newydd’ y mae nifer yn y gymdeithas bellach yn canfod eu hunain ynddo, yn benodol sut olwg sydd ar arwain yn rhithwir a’r heriau y mae hyn wedi’u cyflwyno, yn ogystal â chwalu'r rhwystrau a mythau sydd wedi atal menywod rhag symud ymlaen yn flaenorol. Yna symudodd y rhaglen ymlaen i gydnabod y sgiliau penodol a’r safbwyntiau sydd gan fenywod i’w cynnig a sut mae modd iddyn nhw gyfrannu mewn carfanau lefel uwch, at benderfyniadau a phrosiectau. Roedd rhan olaf y gyfres yn ymdrin â'r hyn sy’n cymell menywod llwyddiannus ar ôl iddyn nhw gyrraedd uchafbwynt eu gyrfa.

Nod y rhaglen oedd rhoi llwyfan i fenywod ym mhob rhan o'r Cyngor, waeth beth fo'u rôl neu radd swydd, i gofleidio'r sgiliau a'r safbwyntiau unigryw sydd gan fenywod i'w cynnig i'r amgylchedd gwaith. Mae'r adborth a ddaeth i law yn dangos bod y rhaglen wedi bod yn ysbrydoledig a grymusol, gyda mwy o fenywod yn y sefydliad yn teimlo bod modd iddyn nhw ddatblygu eu hunain i dorri'r 'nenfwd gwydr'. Eisoes, mae’r rhaglen wedi cyfrannu at sefydlu rhai perthnasoedd mentora a pharhad o ran trafodaethau, ac mae wedi llywio rhywfaint o flaenoriaethau strategol ar gyfer y Garfan Datblygu Pobl. Er enghraifft, mae rhaglenni hyfforddi a mentora ffurfiol wedi'u datblygu a phroses ffurfiol wedi'i rhoi ar waith er mwyn i staff gael mynediad at uwch swyddog ar gyfer eu datblygiad gan ddysgu drwy brofiad. Mae hefyd wedi codi rhai pethau annisgwyl ond pwysig i’w hystyried, megis sut mae modd i ni ddeall yn well a chefnogi staff sy’n arddel hunaniaeth y tu hwnt i’r deuaidd rhywedd.

**Cam Gweithredu 4 - Deall mwy am yr hyn sy'n atal menywod rhag dychwelyd i'r gweithle ar ôl cael babi.**

Cafodd astudiaeth ymchwil ei gynnal a roddodd well dealltwriaeth ynglŷn â'r rhwystrau o ran cadw staff ar ôl cyfnod mamolaeth. Roedd yr astudiaeth yn archwilio'r rhwystrau cymdeithasol a sefydliadol sy'n cyfrannu at y mater. Roedd argymhellion yr astudiaeth yn cynnwys:

- Ymgymryd ag ymchwil sefydliadol pellach yn enwedig gyda menywod sydd wedi dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod mamolaeth
- Cynyddu ymwybyddiaeth a chymorth i fenywod sy'n mynd ar gyfnod mamolaeth
- Adolygu a gwella prosesau monitro
- Rhoi cyfleoedd ar gyfer cyfweliadau ymadael.

**Cam Gweithredu 5 - Cefnogi addewid 'Gweithio Blaengar' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a gweithredu ei argymhellion.**

Oherwydd nifer o ffactorau sy’n effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i gynnal y gwaith yma, mae’n debygol y bydd y gwaith yma'n cael ei drosglwyddo i’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf yn 2023.

## AMCAN 5 - CREU GWEITHLU CYNHWYSOL

O fewn yr amcan cydraddoldeb yma mae nifer o feysydd y mae angen gweithredu arnyn nhw. Amlinellir y cynnydd tuag at y camau gweithredu yma isod:

**Cam Gweithredu 1 - Datblygu rhaglen hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol.**

Dechreuodd gwaith ar y prosiect yma eleni, gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar ymchwil o ran arfer da yn y maes. Rydyn ni wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i nodi camau gweithredu a rhanddeiliaid allweddol. Rydyn ni'n bwriadu paratoi arolwg staff i’w ddosbarthu o fewn 2022-2023, gyda'r nod o gael polisi a/neu becyn cymorth yn ddiweddarach yn 2023.

**Cam Gweithredu 2 - Adolygu ein holl waith sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a datblygu cynlluniau blynyddol sy'n darparu addysg, hyfforddiant ac ymyraethau.**

Newidiodd canolbwynt y cam gweithredu yma gan fod yn rhaid i'r gwasanaeth ail-flaenoriaethu ei ddarpariaeth mewn ymateb i bandemig Covid. Felly, cafodd nifer o fentrau lles staff eu cyflwyno sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl:

- Connect 5 - rhaglen sydd wedi'i chynllunio i roi offer ymarferol i alluogi pawb i gael sgwrs am iechyd meddwl. Cafodd Connect 5 ei nodi a'i dreialu mewn nifer o grwpiau fel cymorth ar gyfer iechyd meddwl. Rydyn ni wedi ei gwerthuso fel rhaglen ac yn gobeithio ei chyflwyno ymhellach fel model cyflawni Cwm Taf.

- Cari – system deallusrwydd artiffisial sy'n galluogi staff i asesu eu sgôr lles eu hunain yn gyfrinachol ac sy'n rhoi cymorth amrywiol. Mae'r system yma'n galluogi'r sefydliad i dargedu ymyraethau penodol yn seiliedig ar y data ac mae'n rhoi sgôr llesiant cyffredinol fel sefydliad.

- Mae sesiynau byrion ar les wedi'u datblygu a'u cyflwyno ar amrywiaeth o bynciau fel cwsg, menopos, gorbryder, cyllid, lles, iechyd menywod a dynion ac ati. Caiff y rhain eu gwerthuso'n unigol. Rydyn ni'n defnyddio data gan Cari, arolygon staff, tueddiadau salwch ac ymchwil cenedlaethol i ddatblygu'r sesiynau hyn.

- Mae Carefirst yn rhaglen cymorth i weithwyr sy'n darparu ystod o weithgareddau lles, gan gynnwys mynediad 24/7 i gymorth yn y foment, canolfan gyngor ar faterion hawliau ariannol a chyfreithiol, gwefan ar gyfer cymorth ar-lein a gwybodaeth am lawer o gyflyrau iechyd, gweminarau wythnosol a ap i staff ei ddefnyddio i fonitro eu hiechyd meddwl a chael ymyraethau i'w cefnogi.

- Gwasanaeth cwnsela pwrpasol i ysgolion

- Cafodd llinell gymorth lles staff ei chyflwyno.

- Hunan-atgyfeiriadau ar gyfer iechyd meddwl a ffisiotherapi

- Sesiynau lles ar gyfer aelodau etholedig.

**Cam Gweithredu 3 - Dod o hyd i gyfres o hyfforddiant i reolwyr ar bynciau cydraddoldeb ac amrywiaeth, a datblygu'r hyfforddiant yna.**

Mae gwaith ar y prosiect yma yn mynd rhagddo ac rydyn ni'n rhagweld y bydd wedi'i gwblhau yng ngwanwyn 2023. Mae 9 modiwl e-Ddysgu dwyieithog wedi eu llunio,

sef: Urddas yn y Gwaith, Anabledd a Gwahaniaethu, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Gwaith, Deddf Cydraddoldeb 2010, Ymwybyddiaeth LHDTCRhA+/Traws, Ymwybyddiaeth Niwroamrywiaeth, Ymwybyddiaeth Hiliol, Addasiadau Rhesymol a Rhagfarn Ddiarwybod. Bydd y rhain yn cael eu treialu gyda staff, rheolwyr a rhwydweithiau staff. Bydd y llwyfan dysgu a datblygu mewnol 'RCT Source' yn cefnogi'r deunydd hyfforddi. Yna bydd adnoddau ychwanegol sydd heb fod yn ddigidol yn cael eu creu i gefnogi dysgu 'All-lein', a hynny trwy hyfforddiant wedi'i gyflwyno a thaflenni ffisegol ar gyfer meysydd gwasanaeth sydd â mynediad cyfyngedig i systemau TG.

**Cam Gweithredu 4 - Bod yn sefydliad sy'n dod yn fwy hyderus o ran anabledd.**

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd Lefel 2 o dan y cynllun ['Hyderus o ran Anabledd']. Rydyn ni wedi parhau i weithio tuag at ddarparu gwasanaethau mwy hygyrch i drigolion a chwsmeriaid, a chefnogi ein staff anabl yn y gweithle. Yn rhan o'r gwaith yma rydyn ni wedi datblygu ymwybyddiaeth staff trwy hyfforddiant, erthyglau am ymwybyddiaeth a dangos y ffordd. Dyma rai enghreifftiau:

- Datblygu a chyflwyno hyfforddiant 'hygyrchedd digidol' i garfanau amrywiol ledled yr awdurdod, gan gynnwys carfan Addysg i Oedolion Cymunedau am Waith a Mwy (CaW+).

- Gweithio gyda Business Disability Forum (BDF) i weithio tuag at ddod yn sefydliad 'Disability Smart'. Mae'r meini prawf ar gyfer 'Disability Smart' yn cyd-fynd â'r cynllun 'Hyderus o ran Anabledd' felly bydd yn caniatáu i ni symud ymlaen â'r cynllun yma hefyd.

- Mae'r Cyngor hefyd yn aelodau o'r BDF ac wedi gweithio gyda'n carfan Adnoddau Dynol i ddangos y ffordd at linell gymorth y BDF a'r adnoddau a'r hyfforddiant sydd ar gael.

Ym mis Mawrth 2022 cafodd hyfforddiant Ymwybyddiaeth Awtistiaeth gan Awtistiaeth Cymru ei gymeradwyo hefyd i'w dreialu gyda’n carfan Adnoddau Dynol, gan ddechrau ym mis Ebrill 2022. Os bydd yn llwyddiannus, bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno i bob maes gwasanaeth ar draws y Cyngor, gan gynnwys i Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr y Cyngor.

Rydyn ni hefyd wedi rhoi'r camau gweithredu cychwynnol ar waith i ddatblygu ein Fforwm Anabledd allanol er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy ac yn fwyaf effeithiol i aelodau. Mae'r Fforwm Anabledd yn ofod cadarnhaol sy'n agored i holl drigolion RhCT sydd ag anabledd, cyfrifoldeb gofalu neu ddiddordeb mewn materion anabledd yn RhCT. Mae'r Fforwm yn lle i aelodau ddod ag unrhyw bryderon neu gwestiynau sydd ganddyn nhw i swyddogion y Cyngor.

**Cam Gweithredu 5 - Cynnal ymarfer monitro cydraddoldeb yn y gweithle.**

Fel sydd wedi'i amlinellu mewn adroddiadau blaenorol, mae pecyn cymorth monitro cydraddoldeb wedi'i ddatblygu at ddefnydd holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r pecyn cymorth yn tynnu sylw at bwysigrwydd monitro cydraddoldeb, y defnydd mae modd ei wneud o ddata ac arfer gorau y dylid ei ddilyn wrth gynnal gwaith monitro. Rydyn ni'n obeithiol y bydd y pecyn cymorth mewnol yma'n cael ei gyhoeddi yn ystod yr haf 2022.

Yn dilyn ei roi ar waith ddiwedd 2021, mae meysydd arfer gorau monitro cydraddoldeb bellach wedi'u hychwanegu at y system Adnoddau Dynol a Chyflogres newydd. Mae'r meysydd newydd yma'n golygu bod cyfle gan staff i gael eu cynrychioli'n llawn o ran eu data AD, ac mae'n rhoi cyfle i'r Cyngor gasglu data ar nodweddion megis hunaniaeth anneuaidd, ethnigrwydd a rhagor. Yn dilyn rhoi'r meysydd data newydd ar waith, bydd ymgyrch i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am staff yn ystod Gwanwyn 2022.

**Cam Gweithredu 6 - Efelychu arfer da presennol wrth ymdrin â'r holl nodweddion gwarchodedig.**

Yn 2021-2022 nododd y Cyngor nifer o ddiwrnodau arwyddocaol naill ai drwy godi ymwybyddiaeth gydag erthyglau a blogiau ar ei fewnrwyd fewnol a gyda rhwydweithiau staff neu drwy gynnal achlysuron codi ymwybyddiaeth. Cafodd erthyglau eu hysgrifennu am y canlynol - maen nhw'n ymddangos yn nhrefn dyddiad:

- Diwrnod Stephen Lawrence
- Diwrnod Gwelededd Lesbiaid
- Wythnos Ymwybyddiaeth Byddardod
- Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia, Deuffobia a Thrawsffobia
- Wythnos y Cynhalwyr
- Diwrnod Windrush
- Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd
- Wythnos Ymwybyddiaeth Colli Babanod
- Diwrnod Rhyngwladol Rhagenwau
- Diwrnod Menopos y Byd

- Mis Hanes Pobl Dduon
- Wythnos Ymwybyddiaeth Draws
- Diwrnod Hawliau Cynhalwyr
- Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Pobl ag Anableddau
- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
- Diwrnod Rhyngwladol dros gael gwared ar Wahaniaethu ar sail Hil
- Diwrnod Dathlu Trawsrywedd

Yn ogystal â'r uchod, cafodd nifer o achlysuron eu cynnal ar draws y Cyngor i godi ymwybyddiaeth am amrywiaeth a chynhwysiant, a'i hyrwyddo.

**Cynhwysiant LHDTCRhA+**

Rydyn ni wedi ymgynghori â'n rhwydwaith staff LHDTC+ ac wedi penderfynu codi'r Faner Cynnydd ar ddiwrnodau penodol LHDTC+ ar draws y Cyngor. Mae gyda ni Faner Cynnydd LDHTC+ sy'n hedfan yn Llys Cadwyn, Pontypridd, am y rhan fwyaf o'r flwyddyn i ddangos pa mor bwysig rydyn ni'n teimlo am gynhwysiant LHDTC+ yn y Cyngor. Byddwn ni hefyd yn codi'r faner traws, ddeurywiol a Chynnydd ar gyfer pob adeilad ar draws y Cyngor ar ddiwrnodau ac achlysuron penodol i sicrhau bod pobl yn gallu gweld ein bod ni'n cydnabod bod rhai grwpiau o fewn y gymuned LHDTC+ yn wynebu mwy o wahaniaethu nag eraill.

Mewn ymgynghoriad â'n rhwydwaith staff LHDTC+, rydyn ni wedi ystyried yr iaith o amgylch materion LHDTC+ ac wedi mabwysiadu acronym newydd gan fod y rhwydwaith staff yn teimlo y byddai'n fwy cynhwysol a chroesawgar i aelodau'r gymuned. Mae'r acronym newydd yn cynnwys pobl Ryngrywiol ac Anrhywiol, ac felly yr acronym newydd sy'n cael ei ddefnyddio ar draws dogfennau'r Cyngor yw LHDTCRhA+ (LGBTQIA+).

Rydyn ni hefyd wedi cyflwyno'r dewis gwirfoddol o ddefnyddio rhagenwau mewn negeseuon e-bost a chyflwyniadau. Mae hyn yn anfon neges rymus o gynhwysiant sefydliadol pan fydd aelodau o'r gymuned LHDTCRhA+ yn ei gweld.

Rydyn ni wedi cynnig gweminarau ac achlysuron am ddim i’n staff mewn perthynas â Dathlu Deurywioldeb a phynciau LHDTCRhA+ eraill ac wedi rhannu adnoddau, gan gysylltu ag awdurdodau eraill pan fo’n berthnasol i gynyddu ymwybyddiaeth ac ymrwymo i’r gymuned LHDTCRhA+ ehangach yn Ne Cymru.

Rydyn ni'n bartneriaid allweddol i bartneriaeth y Cynghorau Balch. Trwy'r gwaith a gafodd ei gynnal yn ystod y pandemig, gan gynnwys seminarau ar-lein, rydyn ni wedi cynyddu aelodaeth y grŵp wrth i Gyngor Sir Powys ymuno, ac rydyn ni'n siarad â dau awdurdod arall am eu haelodaeth.

Ym mis Awst 2021, cynhaliodd y bartneriaeth Cynghorau Balch gystadleuaeth ar gyfer pobl ifainc rhwng 11 ac 18 oed ledled Cymru ar y thema "Dod yn Fi" neu "Sut y gall oedolion fod yn gynghreiriaid i bobl LHDT+ ifainc".

**Caffis Menopos**

Cafodd caffis rhithiwr y menopos eu lansio gan ddarparu lle i ddysgu rhagor am y menopos a sut beth yw ei brofi. Mae'r caffis yn rhoi cyfle i drafod problemau a symptomau'r menopos, a chael cymorth a datrysiadau i reoli'r symptomau.

**Cydraddoldeb Hiliol**

Fel Cyngor, roedden ni'n cydnabod bod angen i ni wneud rhagor i hybu cydraddoldeb hiliol yn y gweithle. Yn ystod 2021-2022, fe wnaethon ni gynnal nifer o achlysuron i dynnu sylw at hanes Pobl Dduon ac i wella cymhwysedd diwylliannol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyfres Black History and Beyond yn archwilio nifer o feysydd megis hanes Pobl Dduon lleol, Gwladychiaeth a hiliaeth.
- Windrush - archwiliad o'r genhedlaeth Windrush.
- Perfformiad yn Llyfrgell Pontypridd o 'Call Mr Robeson' - Gan Tayo Aluko a'i ffrindiau.

Ym mis Mawrth 2022, cytunodd y Cabinet i'r Cyngor lofnodi Siarter Hil yn y Gweithle BITC. Mae hyn yn dangos ymrwymiad y Cyngor i wella cyfle cyfartal yn y gweithle.

**Uwch Hyrwyddwyr Amrywiaeth**

Yn 2021 cafodd Uwch Hyrwyddwyr Amrywiaeth eu penodi i hybu amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle. Maen nhw'n cynnwys:

| | |
|---|---|
| Chris Bradshaw<br>Prif Weithredwr | Cydraddoldeb Hiliol |
| Dave Powell<br>Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor | Cynhwysiant Anabledd |
| Gaynor Davies<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Addysg | Cydraddoldeb Rhywiol |

| | |
|---|---|
| Simon Gale<br>Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu | Cynhwysiant LHDTCRhA+ |

Mae'r holl hyrwyddwyr wedi cyfarfod ag aelodau priodol o'r rhwydwaith staff ac wedi cymryd rhan mewn achlysuron a sesiynau holi ac ateb yn ogystal â bod yn bresenoldeb gweladwy i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

**Rhwydweithiau Staff**

Mae ein rhwydweithiau staff wedi parhau i dyfu a datblygu ac fe chwaraeon nhw ran allweddol wrth ddarparu cymorth cymheiriaid yn ystod y pandemig. Cafodd cyfarfodydd rhwydwaith eu cynnal ar-lein ac roedd hyn yn annog mwy o bobl i gymryd rhan gyda chyfarfodydd mwy rheolaidd. Mae ein holl rwydweithiau, Cynghreiriaid, Anabledd a Chynhalwyr a Perthyn, ein rhwydwaith staff LHDTC+ yn helpu i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o ddiwrnodau penodol i bob aelod o staff er mwyn helpu i greu diwylliant gwell yn y gweithle.

Ar ddiwedd 2020 fe wnaethon ni hefyd lansio 'Spotlight', ein rhwydwaith staff ar gyfer aelodau staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r Cyngor yn cyflogi niferoedd bach o'r grŵp yma. Mae'n hanfodol felly ein bod ni'n deall eu profiad nhw o fod yn lleiafrif yn y gweithle.

Ym mis Mai 2021, fe wnaethon ni gynnal achlysur Diwrnod Rhwydweithiau Staff lle daeth nifer o siaradwyr gwadd i siarad ag aelodau'r rhwydweithiau staff ar thema undod. Cafodd nifer o themâu eu trafod ar y diwrnod gan gynnwys:

- Bod yn Gynghreiriad: Symud i weithredu
- Diffinio Du yn Unison
- ENFYS – Rhwydwaith staff LHDTC+ Prifysgol Caerdydd.

**Rhuban Gwyn**

Cafodd Diwrnod y Rhuban Gwyn 2021 ei nodi gan gynnal gwylnos yng ngolau cannwyll yng nghanol tref Pontypridd i gofio pob menyw a merch sydd wedi colli ei bywyd o ganlyniad i drais dan law dyn.

Cafodd yr wylnos, a gafodd ei chynnal y tu allan i adeiladau Llys Cadwyn y Cyngor yn Stryd y Taf, ei threfnu ar y cyd â'r awdurdod lleol, y gwasanaethau brys, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, sefydliadau cymorth cam-drin domestig y trydydd sector ac undebau llafur.

Fe wnaethon ni hefyd gynnal nifer o sesiynau rhithwir gyda staff i dynnu sylw at ymwybyddiaeth o 'Roi Arwydd am Help' (Signal for Help). Bu Rhoi Arwydd am Help

yn flaenllaw ar gyfryngau cymdeithasol ac roedd yn bwysig codi ymwybyddiaeth er mwyn sicrhau bod ein staff yn gwybod sut i roi cymorth priodol pe bai nhw'n sylwi ar rywun yn Rhoi Arwydd am Help.

**Cynnydd Cyffredinol**

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd sylweddol o ran llawer o'r amcanion cydraddoldeb. O ganlyniad i'r pandemig, mae llawer o waith cadarnhaol ac arloesol wedi'i gyflawni i wella hygyrchedd a chynhwysiant y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu ar draws y fwrdeistref.

Mae ein gwaith i gyflwyno'r amcanion cydraddoldeb sydd wedi'u nodi yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ein helpu i ddangos sut rydyn ni'n cyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal - 'cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau'. Mae hefyd yn ceisio cefnogi'r holl nodau Llesiant, gan gynnwys Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru lewyrchus.

## 7. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Cyngor wedi cynnal proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ers sawl blynedd. Mae'r broses yn cael ei chynnal o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Wrth ddatblygu polisïau neu arferion newydd (gan gynnwys cynlluniau corfforaethol, cynlluniau busnes blynyddol a'r gyllideb flynyddol);
- Wrth gynnig gwneud newidiadau i bolisïau neu arferion cyfredol, ac wrth gynnal adolygiadau o wariant a gwerthuso rhaglenni;
- Os oes cynigion i atal neu roi'r gorau i bolisi neu arfer cyfredol;
- Os yw'r broses Cynllunio Busnes wedi nodi perthnasedd neu oblygiadau i gydraddoldeb.

Mae'r broses yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac mae eisoes yn ystyried y nodweddion gwarchodedig sydd wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Dechreuodd y Cyngor broses sgrinio ym mis Ionawr 2012. Ei nod yw sicrhau bod y broses mor effeithiol â phosib a bod modd defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn ystod y cam sgrinio os oes angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Er hynny, mae'r Cyngor yn cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn awtomatig yn ystod ei broses cynigion ynglŷn â newid.

Mae'r tabl isod yn cynnig cipolwg o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gafodd eu cynnal yn 2021-2022.

**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

| **Polisi/Gweithdrefn** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - Cynigion i wella'r ddarpariaeth addysg yn Ysgol Llyn y Forwyn | Mehefin 2021 |
| Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - Cynigion i aildrefnu ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn ardal ehangach Pontypridd | Mehefin 2021 |
| Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg | Gorffennaf 2021 |
| Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif - Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) - diweddariad | Gorffennaf 2021 |
| Cynigion i sefydlu darpariaeth addysg gynradd ar gyfer datblygiad tai Llanilid | Gorffennaf 2021 |
| Ffyrdd heb eu mabwysiadu | Medi 2021 |
| Strategaeth Dwristiaeth Rhondda Cynon Taf | Medi 2021 |
| Adroddiad diweddaru ar strategaeth gwefru cerbydau trydanol, a'r cynllun ar gyfer rhoi hynny ar waith | Tachwedd 2021 |
| Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Cynigion i wella darpariaeth addysg gynradd cyfrwng Saesneg ar gyfer Glyn-coch, Tonysguboriau a Maesybryn | Rhagfyr 2021 |
| Deilliannau'r ymgynghoriad ar gynllun strategol drafft Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ar gyfer 2021-2024 | Rhagfyr 2021 |
| Adolygiad o ddarpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol. | Rhagfyr 2021 |
| Fframwaith cyflogadwyedd rhanbarthol | Rhagfyr 2021 |
| Canllawiau i gynhalwyr di-dâl yn y gweithle | Ionawr 2022 |
| Polisi ffioedd a thaliadau'r Cyngor 2022-2023 | Chwefror 2022 |
| Cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2022-2023 | Chwefror 2022 |
| Ymgynghoriad ar y cynnig i wella darpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol | Mawrth 2022 |
| Strategaeth a chynllun gweithredu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar gyfer 2022-25 | Mawrth 2022 |
| Strategaeth ddigidol 2022-2026 | Mawrth 2022 |

Mae modd gweld manylion llawn y penderfyniadau sy'n rhan o adroddiadau'r Cabinet drwy'r ddolen ganlynol:

https://rctcbc.moderngov.co.uk/ieDocHome.aspx?bcr=1&LLL=1

## 8. Data Monitro Cyflogaeth

Rhaid i'r Cyngor gasglu a chyhoeddi'r data canlynol bob blwyddyn:

- nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl eu nodweddion gwarchodedig;
- nifer y dynion a menywod sy'n cael eu cyflogi, yn ôl eu:
  - swydd;
  - graddfa (lle bo system graddio yn berthnasol);
  - cyflog;
  - math o gytundeb (gan gynnwys cytundebau parhaol a chyfnod penodol);
  - patrymau gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gweithio hyblyg eraill).
- nifer y bobl sydd wedi ceisio am swyddi â'r awdurdod dros y flwyddyn ddiwethaf;
- nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais i newid eu swydd o fewn yr awdurdod, a nodi sawl oedd yn llwyddiannus yn eu cais a sawl oedd ddim;
- nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a sawl un sydd wedi llwyddo;
- nifer y gweithwyr a gyflawnodd hyfforddiant;
- nifer y gweithwyr a oedd wedi dilyn y weithdrefn gwynion, naill ai drwy wneud cwyn neu drwy fod yn destun y gwyn;
- nifer y gweithwyr sy'n destun i weithdrefnau disgyblu;
- nifer y gweithwyr sydd wedi gadael swydd o fewn yr awdurdod.

Rhaid i'r holl wybodaeth uchod gael ei chyflwyno yn ôl pob un o'r grwpiau gwarchodedig gwahanol. Yr eithriad i'r gofyniad yma yw'r data ynglŷn â swydd, graddfa, cyflog, a math o gytundeb a phatrwm gwaith. Rhaid i'r rhain gael eu trefnu yn ôl menywod a dynion.

Gweler yr wybodaeth ynghlwm wrth Atodiad 1 - Data Monitro Cyflogaeth.

## 9. Caffael

Mae'r Cyngor yn gweithredu'r Ddogfen Gaffael Sengl (SPD) sy'n rhan o'r Wefan Caffael Cenedlaethol.

Mae’r SPD yn ffurflen safonol, sy’n disodli holiaduron cyn-gymhwyso. Dylai'r ffurflen wneud y broses o wneud cais am gontract cyhoeddus yn haws, ac mae'n cynnwys set o gwestiynau craidd sy'n cael eu gofyn yn aml yn ystod y cam dethol.
Mae’r SPD yn darparu nifer o fanteision:

- Gwell effeithlonrwydd i gyflenwyr a phrynwyr drwy ganiatáu cwestiynau safonol a chwtogi nifer y cwestiynau, a thrwy annog prynwyr i ofyn am wybodaeth os ydyn nhw'n gallu esbonio'n glir sut bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio yn unig;

- Safoni'r cam dethol yn well, a chaniatáu ar gyfer addasu cwestiynau i gwrdd â gofynion penodol y caffaeliad;

- Eglurder o ran y cam dethol a'r ffordd y bydd atebion yn cael eu gwerthuso. Bydd hyn yn sicrhau bod cyflenwyr yn gallu penderfynu'n hawdd os ydyn nhw am wneud cynnig am gyfle penodol neu beidio, sut i wneud y gorau o'u cynnig a sut i'w cyflwyno mewn ffordd effeithiol;

- Cyfleoedd gwell i fusnesau bach a chanolig a busnesau lleol allu cystadlu'n deg o ganlyniad i osod cwestiwn sydd wedi'i ystyried yn ofalus. Bydd hyn yn cael gwared â rhai rhwystrau iddyn nhw.

Mae'n cynnwys adran ynglŷn â chyfleoedd cyfartal sy'n unol â chanllawiau caffael Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - https://www.equalityhumanrights.com/cy/comisiwn-yng-nghymru

## 10. Gwybodaeth Hygyrch

Mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth mewn amryw o fformatau yn ôl yr angen. Mae meysydd gwasanaeth yn cofnodi ceisiadau am fformatau gwahanol gan ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu darparu.

Mae canllawiau ar hygyrchedd ar gael i weithwyr ar ryngrwyd fewnol y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnig gwybodaeth ar y math o wybodaeth sydd ar gael, beth mae'r wybodaeth yn ei gwneud, ac yn cynnwys rhestr o gyflenwyr fel bod modd i weithwyr ddod o hyd i ffynhonnell y fformatau maen nhw wedi gofyn amdanyn nhw.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadau Canllawiau Print Eglur yr RNIB i wella dibynadwyedd ei ddogfennau.

## 11. Gwaith Pellach

Byddwn ni'n gweithio tuag at gyflwyno'r camau gweithredu a gafodd eu hamlinellu yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2019-2022, a'u cyflawni. Y flwyddyn nesaf bydd yn bwysig ein bod ni'n parhau i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg yn sgil pandemig Covid ac adolygu'r argymhellion yng Nghynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol drafft Llywodraeth Cymru.

## 12. Manylion Cyswllt

Bydd Rhondda Cynon Taf yn croesawu sylwadau ynghylch unrhyw agwedd ar yr adroddiad yma, boed yn sylwadau ar y cynnwys neu'r hyn sydd ddim yn eglur ynglŷn â'r camau gweithredu a chynnydd o ran cydraddoldeb a chael gwared ar wahaniaethu.

Os oes gyda chi unrhyw sylwadau, neu os hoffech chi ragor o wybodaeth ynglŷn â'r gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud, cysylltwch â:

Melanie Warburton
Rheolwr Materion Amrywiaeth a Chynhwysiant
Cyngor Rhondda Cynon Taf
Tŷ Elái
Ystad Ddiwydiannol Dinas Isaf
Trewiliam
Tonypandy
CF40 1NY

Ffôn: 01443 444531

E-bost: cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk

**ATODIAD 1**

## Data Monitro Cyflogaeth

Mae gwybodaeth monitro cydraddoldeb yn cael ei chadw yn erbyn cofnodion pob gweithiwr sydd ar restr gyflogau'r Cyngor a'r system wybodaeth adnoddau dynol (Vision). Gofynnir am yr wybodaeth yn ystod y cam recriwtio ac mae'n cael ei chofnodi ar yr un pryd.

Mae'r Cyngor yn annog ei holl weithwyr i ddarparu'r wybodaeth yma. Mae arolwg monitro cydraddoldeb yn cael ei gynnal bob 2 flynedd ar gyfer pob gweithiwr er mwyn ceisio rhagor o wybodaeth.

Wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r gofynion estynedig ar gyfer monitro gweithwyr yn rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, cynhaliodd y Cyngor arolwg monitro cydraddoldeb o'i holl weithwyr yn 2011. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau a oedd yn ymdrin â phob un o'r nodweddion gwarchodedig heblaw am feichiogrwydd. Doedden ni ddim wedi gofyn y cwestiwn yma oherwydd mae'n debygol y bydd gwybodaeth ynghylch beichiogrwydd a mamolaeth eisoes ar gofnodion y gweithwyr, a gall y cyfnod ar gyfer dychwelyd i'r gwaith olygu fod yr wybodaeth ddim yn gyfredol.

Gweithiodd y Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gyda meysydd gwasanaeth eraill i ddod o hyd i ragor o wybodaeth ddefnyddiol. Roedd hyn wedi arwain at greu holiadur a oedd yn cynnwys adrannau ynglŷn â defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, gallu o ran y Gymraeg ac os oedd gyda gweithiwr ddyletswyddau gofal. Cafodd yr wybodaeth yma ei darparu ar ffurf ystadegau i'r meysydd gwasanaeth i'w helpu nhw i lywio'u gwaith a'u strategaethau.

Mae dadansoddiad ystadegol o'r wybodaeth yn cael ei chynnwys yn y tablau canlynol. Mae'n ymdrin â holl weithwyr y Cyngor gan gynnwys athrawon a staff ysgolion.

### Pobl sy'n cael eu cyflogi yn ôl Nodwedd Warchodedig

Cafodd yr wybodaeth ganlynol ei darparu drwy ddefnyddio rhifau Yswiriant Gwladol pob gweithiwr. Mae hyn yn sicrhau y bydd manylion yn cael eu cynnwys unwaith yn unig lle mae gyda gweithiwr fwy nag un swydd. Mae hyn yn osgoi dyblu gwybodaeth. Mae'r wybodaeth yn cynnwys manylion athrawon a staff ysgol. Bydd rhai cymariaethau yn cael eu gwneud â demograffig lleol Rhondda Cynon Taf am fod 80% o weithwyr yn byw yn ardal y Cyngor.

## DATA MONITRO CYDRADDOLDEB AR GYFER Y FLWYDDYN 2021-2022

**Rhywedd**

Mae'r tabl isod yn dangos gwybodaeth yn ôl rhywedd y gweithwyr:

| Rhywedd | Cyfanswm | % o'r Gweithlu |
|---|---:|---:|
| Gwryw | 2825 | 25.9% |
| Benyw | 8099 | 74.1% |
| **Cyfanswm** | **10924** | **100%** |

Mae'r tabl yn dangos yn glir bod y rhan fwyaf o weithlu'r Cyngor yn fenywod. Mae hyn wedi bod yn wir am sawl blwyddyn.

**Oed**

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl grŵp oedran:

| Grŵp Oedran | Cyfanswm | % o'r Gweithlu |
|---|---:|---:|
| 16-24 | 818 | 7.5% |
| 25-34 | 2019 | 18.5% |
| 35-44 | 2618 | 23.9% |
| 45-54 | 2989 | 27.4% |
| 55-64 | 2165 | 19.8% |
| 65 neu'n hŷn | 315 | 2.9% |
| **Cyfanswm** | **10924** | **100%** |

Fel y llynedd, mae'r tabl yma'n nodi bod dros hanner gweithwyr y Cyngor rhwng 35 a 54 oed.

**Anabledd**

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl anabledd a dim anabledd:

| Gwybodaeth | Cyfanswm | % o'r Gweithlu |
|---|---:|---:|
| Anabl | 255 | 2.3% |
| Dim anabledd | 9007 | 82.5% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 15 | 0.1% |
| Dim gwybodaeth | 1647 | 15.1% |
| **Cyfanswm** | **10924** | **100%** |

Mae gyda ni wybodaeth am bron i 85% o weithwyr. Nododd canran isel o weithwyr eu bod nhw'n anabl, ond mae'n annhebygol mai darlun go iawn o anabledd yn y gweithle yw hyn. Er bod yr holiadur cydraddoldeb staff yn diffinio anabledd, mae'n bosib fydd rhai gweithwyr sydd ag anabledd 'diffiniedig' ddim yn nodi bod gyda nhw anabledd.

**Hunaniaeth Genedlaethol ac Ethnigrwydd**

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu tras/ethnigrwydd:

| **Ethnigrwydd** | **Nifer** |
|---|---:|
| Asiaidd | 6 |
| Asiaidd - Bangladeshaidd | 1 |
| Asiaidd – Prydeinig | 9 |
| Asiaidd – Tsieineaidd | 4 |
| Asiaidd - Cernywaidd | 1 |
| Asiaidd – Indiaidd | 3 |
| Asiaidd – Arall | 5 |
| Asiaidd – Pacistanaidd | 2 |
| Du | 2 |
| Du – Affricanaidd | 12 |
| Du - Prydeinig | 2 |
| Du – Arall | 2 |
| Tsieineaidd | 4 |
| Sipsi / Romani / Teithiwr Gwyddelig | 1 |
| Cymysg – Arall | 11 |
| Cymysg – Gwyn ac Affricanaidd | 3 |
| Cymysg – Gwyn ac Asiaidd | 9 |
| Cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd | 11 |
| Anhysbys | 42 |
| Grŵp Ethnig Arall | 28 |
| Gwell gen i beidio â dweud | 20 |
| Gwyn | 3845 |
| Gwyn – Prydeinig | 2780 |
| Gwyn – Cernywaidd | 1 |
| Gwyn – Seisnig | 60 |
| Gwyn – Gwyddelig | 9 |
| Gwyn - Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon | 1 |
| Gwyn - Arall | 17 |
| Gwyn – Albanaidd | 7 |
| Gwyn – Cymreig | 2293 |
| Anhysbys | 1733 |
| **Cyfanswm** | **10924** |

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu hunaniaeth genedlaethol:

| **Hunaniaeth Genedlaethol** | **Nifer y Gweithwyr** |
|---|---|
| Affricanaidd | 1 |
| Americanaidd | 1 |
| Cefndir Asiaidd arall | 2 |
| Cefndir Cymysg arall | 2 |
| Cefndir Gwyn arall | 6 |
| Awstralaidd | 2 |
| Bangladeshaidd | 1 |
| Prydeinig | 1699 |
| Ynysoedd Prydeinig y Wyryf | 1 |
| Burundi | 1 |
| Canadaidd | 1 |
| Tsieineaidd | 7 |
| Croataidd | 1 |
| Iseldiraidd | 1 |
| Saes/Saesnes | 191 |
| Ewropeaidd | 11 |
| Almaenaidd | 1 |
| Groegaidd | 2 |
| Indiaidd | 4 |
| Gwyddel/Gwyddeles | 16 |
| Nigeraidd | 2 |
| Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon | 1 |
| Norwyaidd | 1 |
| Arall | 2 |
| Pwylaidd | 8 |
| Portiwgalaidd | 2 |
| Rwmanaidd | 2 |
| Albanwr/Albanes | 20 |
| Sbaenaidd | 2 |
| Sri Lankaidd | 2 |
| Tai | 1 |
| Wcreinaidd | 1 |
| Cymro/Cymraes | 4715 |
| Gwyn ac Asiaidd | 3 |
| Anhysbys | 4211 |
| **Cyfanswm** | **10924** |

Mae gyda ni wybodaeth am 61% o weithwyr. Mae mwyafrif y gweithwyr yn nodi eu bod nhw'n 'Cymro/Cymraes', yna 'Prydeinig'.

**Crefydd neu gred**

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu crefydd/cred:

| **Crefydd** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Cristion | 2762 |
| Mwslim | 16 |
| Hindŵ | 7 |
| Bwdhydd | 14 |
| Sikh | 1 |
| Catholig | 1 |
| Arall | 95 |
| **% o'r gweithlu sy'n nodi eu bod nhw'n rhan o grefydd** | **26.5%** |
| Dim | 3546 |
| Gwell gen i beidio â dweud | 426 |
| Dim gwybodaeth | 4056 |
| **Cyfanswm** | **10924** |

Mae gyda ni wybodaeth am 63% o weithwyr.

**Cyfeiriadedd rhywiol**

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu cyfeiriadedd rhywiol:

| **Cyfeiriadedd rhywiol** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Heterorywiol | 4434 |
| Dyn hoyw | 58 |
| Menyw hoyw/Lesbiaidd | 49 |
| Deurywiol | 45 |
| **% o'r gweithlu sydd wedi nodi eu cyfeiriadedd rhywiol** | **42.0%** |
| Gwell gen i beidio â dweud | 276 |
| Dim gwybodaeth | 6062 |
| **Cyfanswm** | **10924** |

Mae gyda ni wybodaeth am 45% o weithwyr. Mae hyn yr uwch na'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad y llynedd (38%). Yn rhan o Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall, bydd gwaith yn parhau i gael ei gyflawni i annog rhagor o weithwyr i gwblhau'r categori yma ar ffurflenni monitro cydraddoldeb.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Ar 31 Mawrth 2022 roedd 146 o weithwyr ar gyfnod mamolaeth. Yn ystod 2021-2022, roedd 284 o weithwyr yn absennol ar gyfnod mamolaeth.

**Ailbennu Rhywedd**

Does dim gwybodaeth benodol wedi'i chyhoeddi oherwydd y posibilrwydd o enwi unigolion. Mae gan y Cyngor Bolisi Ailbennu Rhywedd, a gafodd ei ddatblygu rhai blynyddoedd yn ôl oherwydd bod gweithiwr wedi gofyn am gymorth. Ers hynny, mae'r polisi wedi'i ddefnyddio ac mae cymorth wedi'i ddarparu yn ôl anghenion gweithwyr.

**Rheoliad 9 – Gwybodaeth am ryw**

Mae Rheoliad 9 o'r Dyletswyddau Cydraddoldeb sy'n Benodol i Gymru yn mynnu bod yr wybodaeth benodol ganlynol yn cael ei darparu mewn perthynas â rhywedd.

Nifer y gweithwyr sydd wedi'u cyflogi ar 31 Mawrth 2022 yn ôl y canlynol:

- Swydd
- Gradd
- Cyflog
- Math o gytundeb
- Patrwm gwaith.

Cafodd yr wybodaeth ei darparu ar sail nifer y swyddi, fel bod y gweithwyr hynny sydd â mwy nag un swydd yn cael eu cynnwys yn ôl y swyddi sydd gyda nhw. Felly, mae'n bosib y bydd y niferoedd yn wahanol i'r rhai yn yr adran flaenorol. Unwaith eto, mae'r wybodaeth yn cynnwys manylion athrawon a staff sy'n gweithio mewn ysgolion.

Mae'r tablau isod yn dangos yr wybodaeth benodol sydd ei hangen:

**Gweithwyr yn ôl eu Rhywedd a'u Swydd**

Mae dros fil o wahanol deitlau swyddi yn bodoli yn y Cyngor. Felly, mae'r swyddi wedi eu trefnu yn ôl categorïau a geir yn y fframwaith cymwyseddau.

| **Categori'r Swydd** | **Benyw** | **Gwryw** | **Cyfanswm Terfynol** |
|---|---:|---:|---:|
| Swyddog Gweinyddol | 951 | 259 | 1210 |
| Staff Ategol | 1230 | 476 | 1706 |
| Pennaeth Cynorthwyol | 40 | 31 | 71 |
| Gofal yn y Gymuned a Gofal Cymdeithasol | 1261 | 243 | 1504 |
| Dirprwy Bennaeth | 80 | 40 | 120 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Rheng Flaen a Gofal i Gwsmeriaid | 450 | 317 | 767 |
| Pennaeth | 98 | 47 | 145 |
| Rheolwr Ganol | 187 | 94 | 281 |
| Cymorth i Ysgolion | 1649 | 97 | 1746 |
| Gweithiwr Llaw Medrus | 46 | 112 | 158 |
| Rheolwr Materion Strategol | 35 | 42 | 77 |
| Goruchwyliwr | 121 | 192 | 313 |
| Athro/Athrawes | 1344 | 405 | 1749 |
| Technegol, Arbenigol a Phroffesiynol | 563 | 453 | 1016 |
| Athro/Athrawes sydd heb Gymhwyso | 44 | 17 | 61 |
| **Cyfanswm** | **8099** | **2825** | **10924** |

Yn debyg i'r flwyddyn ddiwethaf, mae'r mwyafrif o fenywod yn gweithio mewn meysydd sy'n 'draddodiadol i fenywod', yn enwedig mewn lleoliadau Cymunedol a Gofal Cymdeithasol, Staff Ategol a Chymorth i Ysgolion. Bydd hyn yn cael ei archwilio'n fwy trylwyr yn rhan o Amcan Cyflogau'r Rhywiau y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

**Gweithwyr yn ôl Rhywedd a Graddfa**

Roedd y Cyngor yn gweithredu'r systemau graddio canlynol fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2022.

- Prif Swyddogion (Pennaeth y Gwasanaeth ac uwch)
- Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol
- Soulbury (gan gynnwys Penaethiaid Gwasanaeth)
- Athrawon/Addysg

Mae'r tablau isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu rhywedd a'u graddfa:

**Gweithwyr yn ôl rhywedd a Graddfa - Prif Swyddogion**

| Gradd | Benyw | Gwryw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr | 0 | 1 | 1 |
| Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Grŵp | 0 | 1 | 1 |
| Cyfarwyddwr Lefel 1 | 1 | 4 | 5 |
| Cyfarwyddwr Lefel 2 | 2 | 3 | 5 |

| | | | |
|---|---:|---:|---:|
| Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1 | 1 | 2 | 3 |
| Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2 | 3 | 8 | 11 |
| Pennaeth Gwasanaeth – Soulbury | 4 | 1 | 5 |
| Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1 | 11 | 7 | 18 |
| Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2 | 5 | 8 | 13 |
| **Cyfanswm** | **27** | **35** | **62** |

Does dim newid sylweddol wedi bod ers y flwyddyn ddiweddaf. Mae rhan fwyaf o swyddi'r Prif Swyddogion yn cael eu cyflawni gan ddynion. Mae'r menywod sy'n Brif Swyddogion yn is ar y raddfa yn bennaf.

**Gweithwyr yn ôl Rhywedd a Graddfa - Cyd-Gyngor Cenedlaethol**

| **Gradd** | **Benyw** | **Gwryw** | **Cyfanswm** |
|---|---:|---:|---:|
| **GR1** | 208 | 62 | 270 |
| **GR2** | 799 | 96 | 895 |
| **GR3** | 456 | 131 | 587 |
| **GR4** | 676 | 212 | 888 |
| **GR5** | 834 | 413 | 1247 |
| **GR6** | 1126 | 257 | 1383 |
| **GR7** | 805 | 289 | 1094 |
| **GR8** | 326 | 147 | 473 |
| **GR9** | 272 | 143 | 415 |
| **GR10** | 256 | 175 | 431 |
| **GR11** | 188 | 104 | 292 |
| **GR12** | 177 | 70 | 247 |
| **GR13** | 139 | 71 | 210 |
| **GR14** | 57 | 15 | 72 |
| **GR15** | 36 | 37 | 73 |
| **GR16** | 2 | 0 | 2 |
| **GR17** | 16 | 2 | 18 |
| **GR18** | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **6373** | **2224** | **8597** |

**Gweithwyr yn ôl rhywedd a Graddfa - Athrawon/Addysg**

| **Gradd** | **Benyw** | **Gwryw** | **Cyfanswm** |
|---|---:|---:|---:|
| Seicolegwyr a Chynghorwyr Addysg | 104 | 34 | 138 |
| Grwpiau Arwain/Penaethiaid | 81 | 38 | 119 |
| Dirprwy Benaethiaid a Phenaethiaid Cynorthwyol | 143 | 82 | 225 |
| Athrawon | 1371 | 412 | 1783 |

| Cyfanswm | 1699 | 566 | 2265 |
|---|---|---|---|

Mae'r ffigurau uchod yn dangos mai menywod yw'r mwyafrif yn y proffesiwn addysg (75%).

Mae crynhoi graddau cyflog unigol ym maes Addysg yn broses gymhleth, ac felly yn eithaf anodd ei chrynhoi. Ond, mae rhaniad eithaf cyfartal rhwng dynion/menywod ar hyd y pwyntiau cyflogaeth. Does dim anghysonderau amlwg o ran eu gallu i symud drwy'r graddfeydd. Mae'r graddfeydd a'r pwyntiau cyflog yn seiliedig ar raddfeydd cyflog cenedlaethol cytûn. Mae gofynion penodol ynghlwm wrth bob graddfa a'r ffordd y mae gweithwyr yn symud drwyddyn nhw.

**Gweithwyr yn ôl math o gytundeb / patrwm gwaith**

| Math o Gontract | Benyw | Gwryw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Amser Llawn, Parhaol | 2602 | 1870 | 4472 |
| Amser llawn, Parhaol - Tymor yr ysgol yn unig | 146 | 21 | 167 |
| Rhan Amser, Parhaol | 1364 | 180 | 1544 |
| Rhan Amser, Parhaol - Tymor yr ysgol yn unig | 2002 | 86 | 2088 |
| Amser Llawn, Dros Dro | 437 | 214 | 651 |
| Amser llawn, Dros Dro - Tymor yr ysgol yn unig | 12 | 1 | 13 |
| Rhan Amser, Dros Dro | 108 | 44 | 152 |
| Rhan Amser, Dros Dro - Tymor yr ysgol yn unig | 552 | 52 | 604 |
| Achlysurol | 876 | 357 | 1233 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **8099** | **2825** | **10924** |

Mae'r dadansoddiad o aelodau parhaol o staff sy'n fenywod/dynion yn debyg i'r gweithlu cyffredinol. Er bod 74.1% o'r gweithlu cyffredinol yn fenywod, mae canran uwch o'r menywod yn gweithio swyddi rhan amser neu yn ystod tymor yr ysgol o'i chymharu â dynion.

## Ymgeiswyr ar gyfer Swyddi neu Ddyrchafiad

Cafodd 325 o swyddi gwag eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn 2021-2022. Mae'r tabl isod yn nodi canlyniadau monitro recriwtio o'r un cyfnod.

**Ymgeiswyr am Swyddi a Dyrchafiad yn ôl nodweddion gwarchodedig**

| | Ymgeiswyr | Ar y rhestr fer | Wedi'u penodi |
|---|---|---|---|
| **Anabl** | 441 | 199 | 35 |
| **Benyw** | 3232 | 1971 | 633 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol** | 491 | 142 | 48 |
| **Gwryw** | 1345 | 909 | 292 |
| **Lleiafrif Ethnig** | 399 | 102 | 34 |
| **Rhywedd heb fod yn ddeuol (Non-Binary)** | 11 | 4 | 2 |
| **Trawsryweddol** | 11 | 4 | 0 |
| **Gwell gen i beidio â dweud** | 20 | 8 | 2 |

## Gadael Cyflogaeth

Mae'r wybodaeth yn dangos bod 1,131 o weithwyr wedi gadael eu swyddi yn y Cyngor yn 2021-2022, gan gynnwys 5 o weithwyr a gafodd eu diswyddo. Dylid nodi bod y gweithwyr yma yn gweithio mewn ysgol. Ysgolion, yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion, sy'n penderfynu ar ddileu swyddi staff. Mae'r tablau isod yn dangos y niferoedd a adawodd yn 2021-2022 a'u rhesymau dros adael:

**Rhesymau dros adael yn ôl rhywedd**

| Rheswm dros adael | Benyw | Gwryw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Oedran Ymddeol | 66 | 28 | 94 |
| Marw yn y swydd | 6 | 5 | 11 |
| Diswyddo | 2 | 2 | 4 |
| Ymddeoliad Cynnar (Athrawon) | 2 | 0 | 2 |
| Diwedd Cytundeb | 105 | 49 | 154 |
| Methu'r cyfnod prawf | 5 | 2 | 7 |
| Salwch | 25 | 3 | 28 |
| Anallu i ddod i'r gwaith | 0 | 1 | 1 |
| Cytundeb Cytûn | 91 | 31 | 122 |
| Dileu swydd | 5 | 0 | 5 |
| Trosglwyddo i Gyngor arall | 34 | 14 | 48 |
| Gwirfoddol | 450 | 171 | 621 |
| Ymddeol yn gynnar o wirfodd a dileu swydd | 21 | 2 | 23 |
| Dileu swydd – gwirfoddol | 8 | 3 | 11 |
| **Cyfanswm** | **820** | **311** | **1131** |

**Rheswm dros adael yn ôl oedran**

| Rheswm dros adael | 18-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65 neu'n hŷn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedran Ymddeol | 0 | 0 | 0 | 0 | 36 | 58 | 94 |
| Marw yn y swydd | 0 | 0 | 3 | 3 | 3 | 2 | 11 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diswyddo | 1 | 0 | 0 | 2 | 1 | 0 | 4 |
| Ymddeoliad cynnar (Athrawon) | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 |
| Diwedd Cytundeb | 33 | 50 | 29 | 21 | 20 | 1 | 154 |
| Methu'r cyfnod prawf | 4 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 |
| Salwch | 0 | 0 | 0 | 6 | 19 | 3 | 28 |
| Anallu i ddod i'r gwaith | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Cytundeb cytûn | 1 | 6 | 8 | 25 | 59 | 23 | 122 |
| Dileu swydd | 0 | 1 | 1 | 0 | 3 | 0 | 5 |
| Trosglwyddo i Gyngor arall | 2 | 23 | 13 | 10 | 0 | 0 | 48 |
| Gwirfoddol | 67 | 189 | 167 | 122 | 68 | 8 | 621 |
| Ymddeol yn gynnar o wirfodd a dileu swydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 18 | 5 | 23 |
| Dileu swydd – gwirfoddol | 1 | 2 | 2 | 3 | 2 | 1 | 11 |
| **Cyfanswm** | **109** | **274** | **223** | **192** | **232** | **101** | **1131** |

**Rheswm dros adael yn ôl anabledd**

| **Rheswm dros adael** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Oedran Ymddeol | 1 |
| Diwedd Cytundeb | 10 |
| Methu'r cyfnod prawf | 1 |
| Cytundeb cytûn | 8 |
| Gwirfoddol | 17 |
| Ymddeol yn gynnar o wirfodd a dileu swydd | 1 |
| Dileu swydd – gwirfoddol | 1 |
| **Cyfanswm** | **39** |

**Rheswm dros adael yn ôl tras ethnig**

| **Rheswm** | **Gwyn** | **Lleiafrif Ethnig** | **Anhysbys** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Oedran ymddeol | 78 | 1 | 15 | 94 |
| Marwolaeth | 10 | 1 | 0 | 11 |
| Diswyddo | 4 | 0 | 0 | 4 |
| Ymddeoliad cynnar (Athrawon) | 1 | 0 | 1 | 2 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Diwedd cytundeb | 117 | 4 | 33 | 154 |
| Methu'r cyfnod prawf | 3 | 1 | 3 | 7 |
| Salwch | 24 | 0 | 4 | 28 |
| Anallu i ddod i'r gwaith | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Cytundeb cytûn | 98 | 0 | 24 | 122 |
| Dileu swydd | 4 | 0 | 1 | 5 |
| Trosglwyddo i Gyngor arall | 34 | 0 | 14 | 48 |
| Gwirfoddol | 464 | 10 | 147 | 621 |
| Ymddeol yn gynnar o wirfodd a dileu swydd | 22 | 0 | 1 | 23 |
| Dileu swydd – gwirfoddol | 8 | 0 | 3 | 11 |
| **Cyfanswm** | **867** | **17** | **247** | **1131** |

**Rheswm dros adael yn ôl Crefydd neu Gred**

| **Rheswm** | **Cristion** | **Hindŵ** | **Mwslim** | **Dim Crefydd** | **Arall** | **Gwell gen i beidio â dweud** | **Sikh** | **Anhysbys** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedran Ymddeol | 32 | 0 | 0 | 10 | 2 | 2 | 0 | 48 | 94 |
| Marw yn y swydd | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 9 | 11 |
| Diswyddo | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 2 | 4 |
| Ymddeoliad cynnar (Athrawon) | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 |
| Diwedd cytundeb | 43 | 1 | 2 | 65 | 0 | 15 | 0 | 28 | 154 |
| Methu'r cyfnod prawf | 0 | 0 | 1 | 3 | 0 | 3 | 0 | 0 | 7 |
| Salwch | 7 | 0 | 0 | 3 | 3 | 1 | 0 | 14 | 28 |
| Anallu i ddod i'r gwaith | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Cytundeb cytûn | 29 | 0 | 0 | 14 | 0 | 3 | 0 | 76 | 122 |
| Dileu swydd | 2 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 5 |
| Trosglwyddo i Gyngor arall | 12 | 0 | 0 | 11 | 0 | 0 | 0 | 25 | 48 |
| Gwirfoddol | 136 | 0 | 1 | 210 | 2 | 35 | 1 | 236 | 621 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddeol yn gynnar o wirfodd a dileu swydd | 8 | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 10 | 23 |
| Dileu swydd – gwirfoddol | 2 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 6 | 11 |
| **Cyfanswm** | **273** | **1** | **4** | **326** | **7** | **61** | **1** | **458** | **1131** |

**Rheswm dros adael yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol**

| **Rheswm** | **Hetero-rywiol** | **Hoyw/ Lesbiaidd** | **Deurywiol** | **Gwell gen i beidio â dweud** | **Anhysbys** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedran ymddeol | 37 | 0 | 0 | 2 | 55 | 94 |
| Marwolaeth | 0 | 0 | 0 | 1 | 10 | 11 |
| Diswyddo | 1 | 0 | 0 | 1 | 2 | 4 |
| Ymddeoliad cynnar (Athrawon) | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 |
| Diwedd cytundeb | 74 | 1 | 5 | 12 | 62 | 154 |
| Methu'r cyfnod prawf | 4 | 0 | 0 | 3 | 0 | 7 |
| Salwch | 9 | 0 | 0 | 1 | 18 | 28 |
| Anallu i ddod i'r gwaith | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Cytundeb cytûn | 31 | 0 | 0 | 4 | 87 | 122 |
| Dileu swydd | 2 | 0 | 0 | 0 | 3 | 5 |
| Trosglwyddo i Gyngor arall | 15 | 1 | 0 | 1 | 31 | 48 |
| Gwirfoddol | 208 | 6 | 6 | 25 | 376 | 621 |
| Ymddeol yn gynnar o wirfodd a dileu swydd | 11 | 0 | 0 | 0 | 12 | 23 |
| Dileu swydd – gwirfoddol | 2 | 0 | 0 | 0 | 9 | 11 |
| **Cyfanswm** | **395** | **8** | **11** | **50** | **667** | **1131** |

**Hyfforddiant**

Mae'r broses monitro cydraddoldeb fel arfer yn cael ei chynnal yn ôl pwy sy'n mynychu cyrsiau hyfforddiant mewnol yn unig. Mae'r broses hefyd wedi cael ei chynnal drwy ddefnyddio ffurflenni monitro cydraddoldeb sydd nawr yn monitro holl nodweddion gwarchodedig. Cafodd cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth eu hychwanegu yn ystod 2014/15.

Mae systemau cynllunio'r gweithlu ac adolygu cyflawniad y Cyngor yn helpu i nodi anghenion hyfforddiant, dysgu a datblygiad staff.
Yn ystod cyfweliadau datblygiad personol, bydd rheolwyr yn trafod anghenion hyfforddiant, dysgu a datblygu â gweithwyr. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r adolygiadau cyflawniad a chymwyseddau'r swydd. Mae canlyniadau'r rhain wedyn yn cael eu cynnwys mewn cynllun hyfforddiant adrannol neu ranbarthol.

Ar hyn o bryd, dydy'r Cyngor ddim yn monitro ceisiadau hyfforddiant sy'n cael eu gwrthod, gan fod y broses sy'n cael ei defnyddio i fonitro hyfforddiant ddim yn benthyg ei hun i'r math yma o fonitro. Serch hyn, bydd yn cael ei ystyried.

Yn sgil y pandemig, cafodd y modd y cyflwynir hyfforddiant ffurfiol ei hadolygu. Yn anffodus, mae'n ymddangos na chafodd gwaith monitro cydraddoldeb ei gynnal yn y rhan fwyaf o achosion yn sgil y newid yn y system gofnodi, ac o ganlyniad dim ond gwybodaeth ar gyfer 27 o weithwyr sydd gyda ni am y cyfnod 2021-2022. Bydd hyn yn cael ei adolygu ar gyfer y flwyddyn nesaf wrth i'r pecyn cymorth monitro cydraddoldeb gael ei gyflwyno.

## Disgyblu a Chwynion

Mae achosion disgyblu a chwynion yn cael eu cofnodi a'u monitro drwy system Vision. Roedd 122 o achosion yn ymdrin â disgyblu, cwynion ac urddas yn y gwaith a chamau gweithredu disgyblu yn ymwneud ag absenoldebau oherwydd salwch yn 2021-2022. Mae'r tablau isod yn dangos gwybodaeth monitro cydraddoldeb yn ôl y canlynol:

**Rhywedd**

| | Cyfanswm | Disgyblu | Absenoldeb oherwydd Salwch | Cwynion | Urddas yn y Gwaith |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwryw | **78** | 29 | 42 | 0 | 7 |
| Benyw | **44** | 20 | 17 | 0 | 7 |
| **Cyfanswm** | **122** | **49** | **59** | **0** | **14** |

**Oed**

| | Cyfanswm | Disgyblu | Absenoldeb oherwydd Salwch | Cwynion | Urddas yn y Gwaith |
|---|---|---|---|---|---|
| 16 – 24 | **5** | 4 | 1 | 0 | 0 |
| 25 – 34 | **16** | 12 | 4 | 0 | 0 |
| 35 – 44 | **29** | 13 | 13 | 0 | 3 |
| 45 – 54 | **32** | 8 | 20 | 0 | 4 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 55 – 64 | **34** | 8 | 19 | 0 | 7 |
| 65 neu'n hŷn | **6** | 4 | 2 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **122** | **49** | **59** | **0** | **14** |

**Anabledd**

| | Cyfanswm | Disgyblu | Absenoldeb oherwydd Salwch | Cwynion | Urddas yn y Gwaith |
|---|---|---|---|---|---|
| Anabl | **8** | 3 | 3 | 0 | 2 |
| Dim anabledd | **98** | 37 | 51 | 0 | 10 |
| Dim gwybodaeth | **16** | 9 | 5 | 0 | 2 |
| **Cyfanswm** | **122** | **49** | **59** | **0** | **14** |

**Ethnigrwydd**

| | Cyfanswm | Disgyblu | Absenoldeb oherwydd Salwch | Cwynion | Urddas yn y Gwaith |
|---|---|---|---|---|---|
| Asiaidd | **1** | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Du | **0** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tsieineaidd | **0** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cymysg | **1** | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Gwyn | **103** | 39 | 56 | 0 | 8 |
| Arall | **0** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dim gwybodaeth | **17** | 9 | 3 | 0 | 5 |
| **Cyfanswm** | **122** | **49** | **59** | **0** | **14** |

**Crefydd neu gred**

| | Cyfanswm | Disgyblu | Absenoldeb oherwydd Salwch | Cwynion | Urddas yn y Gwaith |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim Crefydd | **43** | 25 | 17 | 0 | 1 |
| Cristion | **19** | 5 | 11 | 0 | 3 |
| Arall | **3** | 1 | 1 | 0 | 1 |
| Gwell gen i beidio â dweud | **1** | 0 | 1 | 0 | 0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim gwybodaeth | **56** | 18 | 29 | 0 | 9 |
| **Cyfanswm** | **122** | **49** | **59** | **0** | **14** |

**Cyfeiriadedd rhywiol**

| | Cyfanswm | Disgyblu | Absenoldeb oherwydd Salwch | Cwynion | Urddas yn y Gwaith |
|---|---|---|---|---|---|
| Heterorywiol | **32** | 17 | 15 | 0 | 0 |
| Hoyw/Lesbiad | **1** | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Deurywiol | **1** | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Gwell gen i beidio â dweud | **1** | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Dim gwybodaeth | **87** | 32 | 43 | 0 | 12 |
| **Cyfanswm** | **122** | **49** | **59** | **0** | **14** |

**Ailbennu Rhywedd a Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Roedd 1 o'r gweithwyr yn y categorïau yma'n destun i achosion disgyblu, salwch neu gwynion.